

# YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2001/02

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

# Asiantaeth Safonau Bwyd
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
# 2001/02

Dyma gyfieithiad Cymraeg o HC 289
SE/2003/1
NIA/78/02
£25.50

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2001/02

## CYNNWYS ADRODDIAD BLYNYDDOL


| | | |
|---|---|---|
| Rhaglair y Prif Weithredwr | | 2 |
| Strwythur yr Asiantaeth Safonau Bwyd | | 4 |
| Bwrdd a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd | | 6 |
| 1 | Am yr Asiantaeth | 12 |
| 2 | Gwell hyder ymhlith defnyddwyr | 16 |
| 3 | Gwell diogelwch a safonau bwyd | 20 |
| 4 | Ehangu dewis a gwella diet defnyddwyr | 24 |
| 5 | Dulliau gwaith mwy effeithlon ac effeithiol | 28 |
| Atodiad 1: Cwynion yn erbyn yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2001/02 | | 32 |
| Atodiad 2: Geirfa termau | | 33 |
| Cyfrifon adnoddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd 2001/02 | | 34 |

# Rhagair y Prif Weithredwr



Mae'r *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon* hwn yn ymwneud ag ail flwyddyn gweithgarwch yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae'n amlinellu'r hyn a wnaed gennym i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, ac mae'n bleser gen i ei osod gerbron Senedd San Steffan, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Ym mis Mai 2001, cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol ar gyfer 2001–06. Mae'n dangos ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer: diogelwch bwyd; gwybodaeth i'r cyhoedd, labelu a dewis; maetheg a diet; gorfodi cyfraith bwyd a hyder y cyhoedd dros gyfnod o bum mlynedd. Rydym wedi gwneud dechrau da yn y cyfnod a drafodir yn yr *Adroddiad Blynyddol* hwn o ran cyrraedd y targedau a bennwyd gan Fwrdd yr Asiantaeth. Un targed, a osodwyd yn 2001, yw lleihau clefyd drwy gyfrwng bwyd gan 20% erbyn 2006. Yn ystod 2001/02, cyraeddasom un o'n prif dargedau ar ddiogelwch bwyd – sef lleihau lefel llygredd salmonela mewn cyw iâr a gynhyrchir ac a adwerthir yn y DU gan ragor na 50%. Rydym bellach yn ffocysu gwaith ar achos arall clefyd drwy gyfrwng bwyd – campylobacter. Ym mis Chwefror 2002, lansiwyd yr Ymgyrch Hylendid Bwyd. Ffocws y cyfnod cyntaf oedd lleihau llygredd bwyd mewn mannau arlwyo, yn enwedig mewn busnesau bychain. Ochr yn ochr â hyn, ym mis Tachwedd 2001, cytunodd y Bwrdd ar strategaeth i weithredu rheolaethau HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol) mewn busnesau bychain.

Mae diogelwch cig yn parhau'n bryder o bwys i ddefnyddwyr. Gwyddom hyn oherwydd canlyniadau ein hail Arolwg Agweddau Defnyddwyr, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2002. Yn dilyn *Adolygiad o Reolaethau* BSE, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2000, a nododd risg ddamcaniaethol BSE mewn defaid yn y DU, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i randdeiliaid gennym ar y risg ddamcaniaethol hon ym mis Rhagfyr 2001. Galwyd grp craidd o randdeiliaid ynghyd wedi hynny i gynghori'r Bwrdd a oedd angen mesurau rhagofal, a chytunwyd ar yr argymhellion hyn gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2002.

Mae'r Asiantaeth yn gweithredu yn ôl tair egwyddor: rhoi defnyddiwr yn gyntaf, bod yn agored a hygyrch, a bod yn llais annibynnol. Byddwn yn cwrdd â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd fel y gall y rhai a effeithiwyd gan bethau gyfrannu at ddatblygu polisi. Eleni, er enghraifft, cynhaliwyd dau gyfarfod i randdeiliaid gennym ar fwydydd a addaswyd yn enetig, y naill yn Llundain a'r llall yn Stirling; a chynhaliodd y Pwyllgor ar Docsinedd Cemegau mewn Bwyd, Cynnyrch Defnyddwyr a'r Amgylchedd gyfarfod agored i roi cyfle i ddefnyddwyr fynegi barn ar effaith cyfuniadau o blaleiddiaid a meddyginiaethau milfeddygol.

Mae'r Asiantaeth yn flaengar o ran cyrraedd defnyddwyr. Mae ein gwefan, ar www.food.gov.uk, yn dod yn gyfrwng cynyddol bwysig o ran cyfathrebu â'n rhanddeiliaid. Ers iddi gael ei lansio ym mis Rhagfyr 2001, cynyddodd y defnydd a wneir ohoni gan ragor na 50%. Yn ein hymateb i'r Comisiwn Polisi ar Ffermio a Bwyd, defnyddiwyd sawl dull gennym i geisio barn pobl. Cysylltwyd â phobl drwy wefan ryngweithiol benodedig, arolwg barn, grwpiau ffocws, gweithdai sefyllfa gyda defnyddwyr ar incwm isel, seminarau rhanbarthol a fforwm ieuenctid. Cyflwynwyd ein hymateb i'r Comisiwn ym mis Tachwedd 2001.

Rydym yn parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod beth yw ystyr diet cytbwys iach, ac yn annog pobl i fwyta'n briodol. Mae gennym gynllun gweithredu i gyrraedd canlyniadau gofynnol y Fframwaith Maetheg Strategol y cytunwyd arno gan y Bwrdd. Rydym yn cydweithio'n agos â'r Adrannau Iechyd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, ag adrannau eraill y Llywodraeth ac ag awdurdodau lleol ar ddiet a maetheg. Mae FSA Cymru ar y blaen o ran datblygu strategaeth maetheg i Gymru. Mae'r Fforwm Maetheg, Fforwm Diet a Maetheg yr Alban a gweithdai rhanddeiliaid yng Nghymru i gyd yn chwarae rhan allweddol o ran datblygu mentrau unigol. Comisiynwyd ymchwil gan FSA yr Alban i'r rhwystrau ar fwyta'n iach yn yr Alban a rhannwyd y canlyniadau gydag adrannau eraill y Llywodraeth yn yr Alban fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella diet y wlad.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thorri rheolau bwyd. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau nad yw digwyddiadau diogelwch bwyd yn peryglu'r gadwyn fwyd i bobl. Eleni, sicrhaodd ein cydweithwyr mewn awdurdodau lleol fod deddfwriaeth frys y Gymuned Ewropeaidd, ar fewnforio cynnyrch anifeiliaid o Tsieina, yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Mae ein Hasiantaeth Weithredol y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yw'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â hylendid mewn lladd-dai, ffatrïoedd torri a storfeydd oer trwyddedig. Mae'r MHS yn parhau i fod yn wyliadwrus, gan sicrhau nad yw cig anghyfreithlon yn cyrraedd y gadwyn fwyd i bobl.

At ei gilydd, rydym wedi parhau i adeiladu ar sail blwyddyn gyntaf drawiadol o dda i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ein hail Arolwg Agwedd Defnyddwyr, a gynhaliwyd eleni, yn dangos ein bod wedi gwneud cryn gynnydd o ran ennyn ymddiriedaeth defnyddwyr a'n bod yn camu ymlaen yn hyderus tuag at ennill ymddiriedaeth fel y ffynhonnell cyngor a gwybodaeth fwyaf dibynadwy am fwyd yn y DU.



Geoffrey Podger
Hydref 2002

# Strwythur yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Rhagfyr 2002

**Yr Athro Syr John Krebs**
Cadeirydd

**Suzi Leather**
Dirprwy Gadeirydd

**Aelodau'r Bwrdd**
Yr Athro Syr John Arbuthnott
Richard Ayre
Karol Bailey
Michael Gibson
Ann Hemingway
Yr Athro Jeya Henry
Valerie Howarth
Iain MacDonald
Robert Rees
Vernon Sankey
Sandra Walbran
Michael Walker

**Geoffrey Podger**
Prif Weithredwr

**David Statham**
Cyfarwyddwr
Gorfodi a Safonau Bwyd

**Chris Lawson**
Prif Weithredwr
Gwasanaeth Hylendid Bwyd

**Dr Debby Reynolds**
Cyfarwyddwr Milfeddygol

**Alan Harvey**
Isadran BSE

**Tim Foster**
Isadran Hylendid
Cig

**Peter Hewson**
Isadran Gwyddor a
Strategaeth Cig

**Anthony Greenleaves**
Isadran Gweithrediadau Iechyd
Cyhoeddus Milfeddygol

**Rosemary Hignett**
Isadran Labelu bwyd
a Safonau

**Ann Goodwin**
Isadran Gorfodi Awdurdodau

**Dr Jon Bell**
Dirprwy Brif Weithredwr

**Cyfarwyddwr**
Polisi Diogelwch Bwyd

**Dr Andrew Wadge**
Isadran Diogelwch Cemegol
a Thocsicoleg

**Dr Roger Skinner**
Isadran Diogewlch
Microbiolegol

**Dr Richard Burt**
Isadran Diogelwch Radiolegol
a Rheoli Ymchwil

**Steve Wearne**
Isadran Difwynwyr Cemegol
a Bwyd Anifeiliaid

**Nick Tomlinson**
Isadran Diogelwch Bwydydd
Newydd

**Dr Richard Harding**
Isadran Strategaeth Cadwyn Fwyd

**Tom Murray**
Maetheg

**Pat Stewart**
Cyfarwyddwr
Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol

**Allan Hutton**
Isadran Cyllid, Caffael a TG

**John Orr**
Isadran Personél
a Sefydliadau

**Barbara Richards**
Isadran Ysgrifenyddiaeth
Gorfforaethol a Materion
Defnyddwyr

**Derrick Jones**
Isadran Economeg a Dadansoddi

**Alison Gleadle**
Swyddfa Breifat

**Neil Martinson**
Cyfarwyddwr Cysylltiadau

**David Dunleavy**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Cyfreithiol

**Dr George Paterson**
Cyfarwyddwr FSA yr Alban

**Joy Whinney**
Cyfarwyddwr FSA Cymru

**Morris McAllister**
Cyfarwyddwr FSA Gogledd
IwerddonIreland

Asiantaeth Safonau Bwyd

# Aelodau'r Bwrdd

## Syr John Krebs FRS – Cadeirydd yr



Er 1988 daliai Syr John Gadair Ymchwil y Gymdeithas Frenhinol yn yr Adran Soleg, Prifysgol Rhydychen, lle mae hefyd yn Gymrawd Coleg Penfro. Mae wedi dal swyddi ym Mhrifysgol British Columbia a Phrifysgol Cymru, Bangor. Mae gan Syr John enw byd-eang fel gwyddonydd am ei ymchwil i ymddygiad ac ecoleg anifeiliaid.

Rhwng 1994 ac 1999, Syr John oedd Prif Weithredwr y Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol. Mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol, yn aelod o Academia Europaea, yn Aelod Tramor o Gymdeithas Athronyddol America, yn aelod o Gymdeithas Max Planck, yn Aelod Mygedol o'r Gymdeithas Ecolegol Brydeinig, ac yn Aelod Tramor er Anrhydedd o Academi Celfyddydau a Gwyddorau America. Dyfarnwyd sawl gwobr iddo am ei waith gwyddonol gan gynnwys: y Fedal Wyddonol, Cymdeithas Solegol Llundain; Medal Frink, Cymdeithas Solegol Llundain; Medal y Gymdeithas er Astudio Anifeiliaid; Medal y Deucanmlwyddiant, Cymdeithas Linnaeus Llundain; Dyfarniad Elliot Coues, Undeb Adarwyr America. Mae wedi derbyn graddau er anrhydedd gan y prifysgolion canlynol: Birmingham, Cranfield, Caer-wysg, Caint, Plymouth, Sheffield, Stirling, Cymru, Warwick.

## Suzi Leather – Dirprwy Gadeirydd



Mae gan Suzi Leather gefndir cryf ym maes defnyddwyr a phrofiad proffesiynol helaeth. Mae ganddi gefndir academaidd mewn gwyddor cymdeithas ac mae ganddi gymwysterau hefyd mewn gwaith prawf a gwaith cymdeithasol. Mae Suzi Leather wedi gweithio mewn ymchwil farchnad, ymchwil defnyddwyr a dysgu mewn prifysgolion; cadeiriai Ymddiriedolaeth GIG ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Ddynol ym Mawrth 2002.

Mae Suzi wedi gweithio ar lefel ranbarthol, genedlaethol ac Ewropeaidd ym maes bwyd, iechyd a defnyddwyr. Mae ganddi ddiddordeb neilltuol mewn rheoleiddio a iechyd cyhoeddus, a bu'n weithgar o ran rheoleiddio'r diwydiannau bwyd a dŵr. Cynorthwyodd i gychwyn y cyrsiau cyntaf mewn biofoeseg yn y sector prifysgolion, ac mae ganddi ddarlithyddiaethau er anrhydedd yn Ysgol Hylendid a Meddygaeth drofannol Llundain a Phrifysgol Caer-wysg. Bu'n aelod o Ymchwiliad y Gymdeithas Frenhinol i Glefydau Heintus mewn Da Byw.



***O'r chwith i'r dde:** (Yn sefyll)*
Iain MacDonald, Sandra Walbran, Karol Bailey, Yr Athro Jeya Henry, Suzi Leather, Vernon Sankey, Robert Rees, Michael Walker
***O'r chwith i'r dde:** (Yn eistedd)* Y Farwnes Valerie Howarth, Michael Gibson, Yr Athro Syr John Krebs, Richard Ayre, Ann Hemingway

## Syr John Arbuthnott

Cadeirydd Pwyllgor Cynghorol yr FSA ar Fwyd yn yr Alban. Daeth Syr John yn Brifathro ac yn Is-Ganghellor Prifysgol Strathclyde yn 1991, gan aros yn ei swydd nes ymddeol yn Rhagfyr 2000. Ef oedd Cynullydd Pwyllgor Prifathrawon Addysg Uwch yr Alban o 1994–1996 a gwasanaethai fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Is-Gangellorion a Phrifathrawon o 1997–1999. Roedd hefyd yn aelod o Ymchwiliad Dearing i Addysg Uwch yn y DU, gan gynnwys ei bwyllgor Sefydlog yn yr Alban (Pwyllgor Garrick) a'r Gweithgor ar Rôl Economaidd Addysg Uwch. Syr John yw Ysgrifennydd a Thrysorydd Ymddiriedolaeth Carnegie i Brifysgolion yr Alban.

Mae gan Syr John gefndir academaidd mewn microbioleg feddygol, gyda diddordeb arbennig ym mecanweithiau clefydau heintus. Bu'n gadeirydd mewn microbioleg ddwywaith, yng Ngholeg y Drindod Dulyn (1976–88) a Nottingham (1988–1991), gan wasanaethu ar Bwyllgor Richmond a ymchwiliodd i integredd yr holl gadwyn fwyd, o'r fferm i'r fforch. Yn 1997 penodwyd Syr John yn gadeirydd y grŵp Llywio ar yr Arolwg cenedlaethol i Ddyrannu Adnoddau Iechyd yn yr Alban, a gyhoeddodd yr adroddiad *Fair Shares for All* yn 1999. Gwasanaethodd fel aelod o Bwyllgor Cynnyrch Milfeddygol MAFF ac o Bwyllgor Ymchwil i Fwyd y Cyngor Ymchwil Amaeth a Bwyd o 1990–1993. Mae Syr John yn Gymrawd Coleg Brenhinol y Patholegwyr, y Sefydliad Bioleg, yr Academi Gwyddorau Meddygol a Chymdeithas Frenhinol Caeredin. Ef yw Cadeirydd Ffederasiwn Gwyddorau Bywyd y Deyrnas Unedig.

## Michael Gibson

Rheolwr-Gyfarwyddwr cwmni cig teuluol bychan, Macbeth's Butchers, sy'n cyflogi pump o weithwyr amser llawn a thri rhan-amser. Mae Michael Gibson yn rhedeg hwn ar y cyd ag Edinvale Farms, sy'n cynnwys 900 cyfer o dir fferm a rhyw 600 o wartheg. Michael Gibson yw Cadeirydd Pwyllgor Amaeth Ffederasiwn Tirfeddianwyr yr Alban. Er 1996 bu'n cydlynu ymateb y Ffederasiwn i BSE a phopeth yn ymwneud â chig coch. Ar hyn o bryd mae'n arwain menter yn yr Alban ar gefnogaeth i Ardaloedd Llai Ffafriol mewn cydweithrediad â Sefydliad Ymchwil Defnydd Tir Macauley. Mae'n aelod o Bartneriaeth Amaeth yr Ynysoedd a'r Ucheldiroedd, sef grp newydd yn cynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau menter, cwmnïau cynhyrchwyr a grwpiau amgylcheddol sy'n cynghori gwleidyddion a gweision sifil ar faterion lleol. Yn ei rôl fel Uwch faeswr i Gymdeithas Gwartheg Ucheldiroedd yr Alban, mae'n rhoi cyngor i fridwyr ar fwydo, marchnata, polisïau bridio a hwsmonaeth gyffredinol yn ogystal â llunio polisïau'r Gymdeithas ar ddatblygu bridiau.

## Ann Hemingway

Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru. Mae Ann Hemingway yn wraig fusnes brofiadol a chanddi gymwysterau Economeg y cartref a Marchnata is. Enillodd brofiad yn gynnar yn ei gyrfa ym maes cyhoeddusrwydd i'r diwydiant melino cyn iddi symud i nwy Prydain. Rôl farchnata oedd ganddi yno i ddechrau gan ddefnyddio ei chefndir ym maes economeg y cartref ond yn ddiweddarach derbyniodd swyddi uwch reolwr ym maes technoleg gwybodaeth, personél a rheolaeth gyffredinol o weithrediadau gwasanaethau cwsmeriaid. Chwaraeodd Ann Hemingway ran arwyddocaol yn y gwaith o ddatblygu cyfeiriad newydd i Nwy Prydain drwy'r broses o'i breifateiddio hyd at ddad-gyfuno, gan arwain y tîm reoli a oedd yn gyfrifol am wasanaethau cwsmeriaid yn ystod cam cyntaf y gystadleuaeth nwy. Mae ganddi rôl anweithredol ar hyn o bryd gan weithio ar broses ddatblygu strategol y Gwasanaethau Gyrwyr a Gweithredwyr Cerbydau gyda'r Adran Llywodraeth Leol, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac mae'n Aelod anweithredol o fwrdd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol..

## Michael Walker

Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Bwrdd yr Asiantaeth ar gyfer Gogledd Iwerddon is. Fel partner mewn cwmni preifat o fferyllwyr ymgynghorol, Michael Walker yw Dadansoddydd Cyhoeddus parhaol Gogledd Iwerddon. Mae'r Dadansoddydd Cyhoeddus yn darparu labordy rheoli bwyd swyddogol i awdurdodau lleol, ac ymhlith ei swyddogaethau mae gwasanaethau gorfodi cemegol sy'n gysylltiedig â chyfansoddiad bwyd, ychwanegion, difwynwyr, labelu a chwynion defnyddwyr. Fe'i penodwyd i Gyngor Cyffredinol y defnyddwyr (Gogledd Iwerddon) ym mis Chwefror 1999, ac ef yw swyddog Grwpiau Bwyd ac Addysg defnyddwyr cyfunol y Cyngor. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol y corff gweithredu ar lefel Iwerddon gyfan, sef y bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd. Mae ei gefndir academaidd ym maes cemeg ac mae'n gymrawd o'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol ac yn aelod o'r Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Bwyd.

## Richard Ayre

Ymgynghorydd mewn moeseg cyfryngau a rheolaeth darlledu. Richard Ayre oedd Dirprwy Brif Weithredwr Newyddion y BBC hyd at 2000 a chyn hynny bu'n Rheolydd y BBC ar Bolisi Golygyddol, yn gyfrifol am safonau golygyddol a moesegol gwneud holl gynhyrchiadau teledu'r BBC. Mae bellach yn cynghori sefydliadau yn y cyfryngau yn y DU a thramor ac yn hyfforddi newyddiadurwyr ifanc, yn enwedig yn nemocratiaethau newydd dwyrain Ewrop. Mae'n Ddyfarnwr Rhyddid Gwybodaeth i Gymdeithas y Gyfraith, ac yn ymddiriedolwr ac yn aelod o fwrdd yr elusen Article 19, yn Llundain a Johannesburg sy'n ymgyrchu ym mhob rhan o'r byd yn erbyn sensoriaeth ac o blaid rhyddid mynegiant.

## Karol Bailey

Ffermwr tenant bach ac yn gynhyrchydd/manwerthwr bwyd, gyda siop fferm yn Knutsford, Sir Gaer. Mae ganKarol Bailey brofiad o bob agwedd ar gynhyrchu bwyd o'i greu yn gychwynnol, i baratoi i'w gynhyrchu, ei bacio a'i labelu. Mae'n hyfforddwr ym maes hylendid bwyd. Erbyn hyn, mae ei siop fferm, a agorodd yn 1991, yn cynnig amrywiaeth o dros 600 o gynnyrch ffres a chynnyrch wedi rhewi. Mae Karol Bailey yn gwerthu'r holl dda byw a gynhyrchir ar y fferm, ac mae'n gigydd bridiau prin achredig. Mae gan y fferm fecws hefyd ar gyfer pasteiod, cacennau a chigoedd wedi'u coginio arbennig.

## Yr Athro Jeya Henry

Athro Maetheg Dynol Prifysgol Oxford Brookes, yr Athro Jeya Henry yw Prif Olygydd yr *International Journal of Food Sciences and Nutrition.* Ym mis Medi 2000, fe'i penodwyd yn Athro Ymweld gan y Gymdeithas Frenhinol ym Mhrifysgol Dsieineaidd Hong Kong. Hyfforddodd yn wreiddiol fel technolegydd bwyd ac yna astudiodd faetheg ddynol yn Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain. Mae'r Athro Henry wedi gwneud gwaith helaeth ar bynciau sy'n gysylltiedig â maetheg yn amrywio o atal gordewdra ymhlith plant ysgol, olrhain gofynion egni yn ystod y cyfnod glaslencyndod, effaith cyfansoddiad bwyd ar archwaeth bwyd a'r bwyda fwyteir, i ddatblygu bwydydd wedi'u gwella'n faethol. Mae ei arbenigedd ym maes gwyddor bwyd wedi arwain at secondiad i Gronfa Plant y Cenhedloedd Unedig i roi cyngor ar faetheg yn India a Tsieina. Mae'n aelod o raglen Cnydau ar ôl eu Cynaeafu yr Adran Datblygu Ryngwladol, ac mae'n aelod o'r Pwyllgor ar Wobrau Ymchwil Iechyd a Phoblogaeth ac yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol Sefydliad Maetheg Prydain. Mae wedi cyhoeddi dros 95 o bapurau, ac wedi darlithio'n helaeth ar faterion bwyd a maetheg o amgylch y byd. Mae'n parhau i weithio'n frwd er mwyn pontio'r cysylltiadau rhwng maetheg, iechyd y cyhoedd a gwyddor bwyd.

## Y Farwnes Howarth o Breckland

Hyd at fis Gorffennaf 2001 Valerie Howarth oedd Prif Weithredwr yr elusen ChildLine, sef y llinell gymorth genedlaethol am ddim i blant sydd mewn trafferth neu mewn perygl. O dan ei harweinyddiaeth, ac ers iddi gael ei sefydlu yn 1986, mae ChildLine wedi rhoi cyngor i dros filiwn o blant a phobl ifanc ac mae wedi datblygu o fod yn brosiect bach yn Llundain i fod yn elusen i blant ar lefel y DU gyfan. Arferai fod yn weithiwr cymdeithasol ac mae wedi gweithio'r Gymdeithas Lles Teuluaidd, Bwrdeistref Lambeth yn Llundain, ac yna Bwrdeistref Brent lle bu'n gweithio fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n gwasanaethu ar nifer o weithgorau a chadeiriodd nifer o grwpiau gwasanaeth gofal plant. Valerie Howarth oedd cynrychiolydd cyntaf y DU ar y Fforwm Lles Plant Ewropeaidd, hi oedd un o sylfaenwyr a Chadeirydd cyntaf y Gymdeithas Llinellau Cymorth, hi oedd un o sylfaenwyr Prosiect Digartrefedd King's Cross a Fforwm Digartrefedd Llundain. Bu ganddi rôl arweiniol yn y gwaith o newid y gyfraith ar blant sy'n dystion ac mae'n gwasanaethau ar Grŵp Llywio Diogelu Ansawdd yr Adran Iechyd. Mae wedi treulio dros ddeng mlynedd ym maes diogelu defnyddwyr a phennu safonau fel aelod o'r Pwyllgor Annibynnol dros Oruchwylio Systemau Gwybodaeth dros y Ffôn. Hi yw Dirprwy Gadeirydd Cymdeithas John Grooms ar gyfer Pobl Anabl, a hi hefyd yw Dirprwy Gadeirydd Sefydliad Faithfull, sefydliad sy'n darparu triniaeth i bobl sy'n cam-drin plant ac mae'n Ymddiriedolwr Sefydliad Seiff. Hi yw Cadeirydd yr ymgyrch 'Stop It Now', sefydliad partneriaeth sy'n gysylltiedig ag addysg cam-drin plant. Mae hi'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymgynghorol Hylendid Bwyd ac ym mis Chwefror 2001 ymunodd â bwrdd y Comisiwn Safonau Gofal Cenedlaethol. Enillodd OBE yn 1999, a chafodd y teitl y Farwnes Howarth o Breckland yn haf 2001, un o'r arglwyddi cyntaf a benodwyd drwy gomisiwn.

## Robert Rees

Cogydd hunangyflogedig a pherchennog bwyty yn Bisley, Swydd Gaerloyw. Mae gan Robert Rees gefndir arlwyo cryf . Ef yw cogydd parhaol Marchnadoedd Ffermwyr Stroud, gan goginio cynnyrch tymhorol a lleol. Ym mis Gorffennaf 2002 fe'i penodwyd yn Gynullydd Cyffredinol Sefydliad Maetheg Prydain. O 1993 hyd at 2000 bu'n rhedeg bwyty o'r enw The Country Elephant yn Painswick. Mae wedi gweithio hefyd mewn bwytai yng Nghaerfaddon, yn Ynysoedd y Cayman (India'r Gorllewin) ac yn Le Gavroche, un o fwytai mwyaf ffasiynol Llundain. Mae wedi'i gynnwys mewn llawer o lyfrau rhyngwladol ar fwytai, yn cynnwys y Michelin Guide (Gwobr Gourmande a Red Meal); Taste of West Country; y *Good Food Guide*; Egon Ronay Guide; *Ackerman Guide*; ac enillodd ddwy roséd AA (Automobile Association) am bedair blynedd yn olynol. Mae Robert yn cyfrannu'n rheolaidd i Central Television a BBC Radio Gloucestershire. Mae'n weithiwr rhan-amser yng Ngholeg Celf a Thechnoleg Swydd Gaerloyw lle mae'n ymgynghorydd hyfforddiant, un aseswr ac yn ddarlithydd yn yr Adran Lletygarwch, lle mae'n gysylltiedig â phrentisiaethau Modern, cynlluniau Hyfforddiant Cenedlaethol a hyfforddiant yn y gweithle. Mae Robert Rees hefyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Addysg Busnes Stroud ac mae wedi gweithio gyda Gloucestershire Tourism i hyrwyddo bwydydd lleol. Mae Robert hefyd wedi ymroi i weithio llawer gyda phlant, a phobl ag anghenion arbennig.

## Vernon Sankey

Ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr anweithredol Pearson plc a Zurich Financial Services AG (Y Swistir). Vernon Sankey yw Cadeirydd Gala Group Holdings plc a'r Really Effective Development Company Ltd a Dirprwy Gadeirydd Photo-Me International plc a Beltpacker plc. Mae'n gwasanaethu hefyd ar Fyrddau Ymgynghorol nifer o gwmnïau yn y DU a thramor. O 1992 hyd at 1999 ef oedd Prif Weithredwr Reckitt & Colman plc, ar ôl treulio 28 mlynedd gyda'r cwmni hwnnw mewn nifer o swyddogaethau a gwledydd ac ef hefyd oedd Cadeirydd Thomson Travel Group plc. Mae Vernon Sankey yn gyn-aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cwmnïau Cofrestredig Cyfnewidfa Stoc Llundain, mae'n gyn-aelod o Fwrdd Gweithgynhyrchwyr Bwyd America ac yn gyn-aelod o Gyngor Ffederasiwn Bwyd a Diod y DU.

## Iain MacDonald

Ar hyn o bryd yn ymgynghorydd rheolaeth ac yn Syrfewr Siartredig hunangyflogedig. Mae Iain Macdonald yn Gymrawd o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ac yn Aelod o'r Sefydliad Rheolaeth ac yn Aelod o'r Sefydliad Refeniw, Graddio a Gwerthuso. Mae'n gyn-Brif Weithredwr Awdurdod Lleol ac yn uwch reolwr profiadol iawn gyda phrofiad helaeth o reoli newid a busnes yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Ei aseiniad diweddaraf oedd gweithio fel Gweinyddwr Bwrdeistrefol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dinas Pristina yn Kosovo, gan gyfuno rôl Maer, Arweinydd Cyngor a Phrif Weithredwr y Ddinas. Mae Iain MacDonald wedi gweithredu fel Llywydd cenedlaethol a Chadeirydd cenedlaethol nifer o gymdeithasau proffesiynol ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Hylendid Cig yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Mehefin 2002.

## Sandra Walbran

Yn gweithio ar hyn o bryd fel Rheolwr Iechyd Amgylcheddol gyda chyfrifoldeb arbenigol am ddiogelwch bwyd yn ninas Bradford. Mae ganSanda Walbran brofiad helaeth ym maes iechyd amgylcheddol, yn enwedig mewn cysylltiad â maes diogelwch bwyd ac mae ganddi brofiad gweithredol hir o reoli. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd ei grŵp cydlynu bwyd lleol, mae'n cynrychioli rhanbarth Swydd Efrog a Glannau Humber ar Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd LACORS ac mae'n chwarae rhan flaenllaw o ran llunio cyfarwyddyd cenedlaethol ar lawer o faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd. Ymunodd Sandra Walbran â'r Bwrdd ym mis Mehefin 2002.

## Yr Athro Bhupinder Sandhu

Pediatrydd ac yn Gastroenterolegydd Ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Plant Sâl Bryste a'r Sefydliad Iechyd Plant, Prifysgol Bryste. Mae'r Athro Sandhu yn Athro ymweld ym maes Iechyd Plant, Gastroenteroleg a Maetheg ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr. Mae wedi cyhoeddi llawer o waith am ei maes ac mae ei phrofiad mewn ymchwil academaidd ac addysgu ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol yn rhoi'r arbenigedd iddi werthuso data ystadegol a thystiolaeth wyddonol. Mae ganddi ymrwymiad i wella iechyd a maetheg i'r eithaf, yn enwedig ymhlith plant. Mae'r Athro Sandhu wedi gweithio mewn nifer o ysbytai athrofaol yn Llundain a Chaergrawnt, gan gynnwys Ysbyty Great Ormond Street ar gyfer Plant Sâl lle bu'n Gymrawd Ymchwil. Bu'n Ysgrifennydd Cymdeithas Gastroenteroleg a Maetheg Bediatrig Prydain (1993–1996); Ysgrifennydd Cymdeithas Pediatryddon De Orllewin Lloegr (1991–1996); Cadeirydd yr Isadran Pediatreg yn Ysbyty Plant Bryste (1991–1996), ac oddi ar 2001 mae wedi cadeirio grŵp ymchwil Cymdeithas Gastroenteroleg, Hepatoleg a Maetheg Pediatrig Ewrop. Mae hi'n arholydd ar gyfer Prifysgolion Bryste a Birmingham ac ar gyfer Coleg Brenhinol y Pediatryddon a Iechyd Plant, lle mae'n Gymrawd. Bu'n cadeirio Pwyllgor Ymgynghorol Rhanbarth Gorllewin Lloegr y BBC (1993–1996) ac mae'n Llywodraethwr Ysgol, yn Aelod o Fwrdd Llywodraethol UWE ac yn Ymddiriedolwr ac yn aelod o Fwrdd Llywodraethol y VSO (er 1997) ac Ysgol Theatr yr Old Vic, Bryste. Daeth ei gwasanaeth ar y Bwrdd i ben ym mis Chwefror 2002.



## Gurbux Singh

Cadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol hyd at Awst 2002. Gurbux Singh yw cyn Brif Weithredwr Bwrdeistref Haringey yn Llundain, ar ôl cael ei benodi i'r swydd honno yn1989 yn dilyn terfysgoedd Broadwater Farm. O 1983 hyd at 1985, Gurbux Singh oedd y Rheolwr Tai Dosbarth yng Nghyngor Llundain Fwyaf ac ef oedd yn gyfrifol am sefydlu a rheoli swyddfa Tai Dosbarth newydd yn Tower Hamlets, a oedd yn gwasanaethu 11,000 o denantiaid gyda 150 aelod o staff. Ef oedd Uwch Swyddog Tai y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol o 1977 i 1983, gan adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr ar raglen ymchwil fawr a gweithio gydag amrywiaeth o gyrff, gan gynnwys y diwydiant adeiladu, gwerthwyr tai a benthycwyr morgeisi, i hyrwyddo arfer da. Mae'n aelod o Fforwm Cysylltiadau Hiliol yr Ysgrifennydd Cartref, ac yn aelod o grŵp Llywio Cyflwyno Cynllun Gweithredu ar Ymchwiliad Lawrence. Ymddiswyddodd o'r Bwrdd ym mis Mai 2001.

## Y Prif Weithredwr – Geoffrey Podger

Mae Geoffrey Podger yn was sifil sydd wedi gweithio i'r Adran Iechyd er 1982. Cyn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn y maes bwyd ef oedd yr Is-Ysgrifennydd Hybu Iechyd cyn ymgymrys â chyfrifoldebau mewn perthynas â bwyd. Ef oedd pennaeth Grŵp Cyfunol Diogelwch a Safonau Bwyd yr Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ers ei sefydlu yn 1997. Fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 1 Ebrill 2000.

# 1 Am yr asiantaeth



## YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

.1 Sefydlwyd yr FSA gan y Llywodraeth ym mis Ebrill 2000 i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac i adfer hyder y cyhoedd yn y mod y gwneir penderfyniadau am fwyd. Ein prif bwrpas yn ôl diffiniad Deddf Safonau Bwyd 1999 yw: 'diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, a diogel fel arall fuddiannau mewn perthynas â bwyd.'

1.2 Rydym wedi ymrwymo i dri gwerth craidd sy'n llywodraethu popeth a wnawn. Sef:

- rhoi blaenoriaeth i ddefnyddwyr
- bod yn agored a hygyrch
- bod yn llais annibynnol

1.3 Adran annibynnol anweinidogol o'r Llywodraeth yw'r FSA, a lywodraethir gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd. Mae'r annibyniaeth hon yn hanfodol bwysig os ydym i lwyddo i roi blaenoriaeth i'r cwsmer. Rydym yn gorff ar draws y DU, yn atebol i Senedd San Steffan ac i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Chynulliad Gogledd Iwerddon drwy eu Gweinidogion Iechyd

> *"Ein prif bwrpas yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd"*

1.4 Y Bwrdd sy'n gyfrifol am ein cyfeiriad strategol cyffredinol, ac am sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 aelod arall. Penodir y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gweinidogion Iechyd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. O'r aelodau eraill o'r Bwrdd, penodwyd wyth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, dau gan Weinidogion Iechyd yr Alban, ac un yr un gan Weinidogion yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Mae pob un o aelodau'r Bwrdd wedi cyflawni'n sylweddol yn eu maes, ac mae gan lawer ohonynt arbenigedd mewn materion bwyd. Mae'r Bwrdd yn agored i'w archwilio gan y cyhoedd drwy ei gyfarfodydd agored.

1.5 Y Prif Weithredwr sy'n rheoli gweithrediadau'r FSA o ddydd i ddydd. Fe'i penodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd gyda chymeradwyaeth Pennaeth y Gwasanaeth Sifil o dan reolau normal Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Trysorlys wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Brif Swyddog Cyfrifo'r Adran gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi cyfrifon yr FSA a'u trosglwyddo i'r Distain a'r Archwilydd Cyffredinol.

1.6 Rydym yn cyflogi cyfanswm o tua 570 o staff yn ein swyddfa yn Llundain. Gweision sifil yw'r staff, sy'n atebol drwy'r Prif Weithredwr i'r Bwrdd. Mae ein pencadlys yn Llundain yn cynnwys tri phrif grŵp: Grŵp Polisi Diogelwch Bwyd, Grŵp Gorfodi a Safonau Bwyd, a Grŵp Adnoddau Corfforaethol a Strategaeth, ynghyd â'n Cyfarwyddiaethau Cyfathrebu a Chyfreithiol. Mae ein siart strwythur uwch i'w weld tua dechrau'r Adroddiad hwn.

1.7 Mae gennym gylch gorchwyl eang, yn cynnwys diogelwch bwyd ar draws yr holl gadwyn fwyd– 'o'r fferm i'r fforch'. Ein gwaith yw gwarchod defnyddwyr rhag risg i'w hiechyd, a gofalu am eu buddiannau mewn perthynas â phopeth yn ymwneud â bwyd. Mae ein dylanwad yn ymestyn o blaleiddiaid a meddyginiaethau milfeddygol, i ddiogelwch bwyd a safonau hylendid mewn siopau, bwytai a mannau bwyd parod, yn ogystal ag yn y gegin gartref.

1.8 Rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Hylendid Bwyd (asiantaeth weithredol o'r FSA), awdurdodau lleol, a chydag adrannau eraill y Llywodraeth, er mwyn sicrhau bod rheoliadau ar ddiogelwch a safonau bwyd yn cael eu gorfodi i ddiogelu defnyddwyr. Rydym yn darparu arweiniad i'r cyhoedd ar fwyta'n iach ac yn cynnal arolygon o faetheg a diet er mwyn monitro newidiadau o ran arferion bwyta. Rydym yn rhoi cyngor i weinidogion am bob mater sy'n ymwneud â diogelwch bwyd. Rydym yn negodi ar ran y DU yn Ewrop ac mewn fforymau mewnol eraill, lle pennir llawer o'r fframwaith a safonau cyfreithiol i'r farchnad fwyd.

1.9 Mae FSA Cymru'n cyflawni'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â diogelwch bwyd, safonau bwyd a maetheg a wnaed cynt gan staff iechyd cyhoeddus ac amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â swyddogaethau newydd yr FSA. Dan arweiniad Cyfarwyddwr, Mae gan FSA Cymru staff parhaol o 19, gyda thri o staff dros dro i gefnogi gweithgareddau'r strategaeth maetheg.

1.10 Cyfarfu'r Pwyllgor Ymgynghorol statudol i Gymru, dan gadeiryddiaeth Ann Hemingway, yn gyhoeddus bum gwaith yn ystod 2001/02.

1.11 Mae FSA-Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am ddarparu cyngor a deddfwriaeth ddrafft ar faterion ar draws y gadwyn fwyd i'r Gweinidog yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon sydd â chyfrifoldeb am Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd.

1.12 Ategir rôl yr FSA yng Ngogledd Iwerddon gan gyngor Pwyllgor Ymgynghorol statudol Gogledd Iwerddon, a sefydlwyd o dan Ddeddf 1999. Hyd yn hyn, mae'r Pwyllgor Ymgynghorol wedi cwrdd 14 o weithiau, gan gynnwys tri chyfarfod agored yn Belfast, Londonderry ac Enniskillen.

1.13 Mae FSA-Gogledd Iwerddon yn parhau i gydlynu'n agos â'r Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd ac ag Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon mewn perthynas â materion bwyd sy'n berthnasol i Iwerddon gyfan, megis salwch drwy gyfrwng bwyd.

1.14 Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) sy'n cyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Hylendid Bwyd yng Ngogledd Iwerddon ar ran yr FSA. Mae angen bod yn wyliadwrus iawn i sicrhau cydymffurfiad â rheolaethau llym y DU ar BSE, ac nid y rheswm lleiaf am hyn yw mai Gogledd Iwerddon yw'r unig ran o'r DU sydd â ffin â gwlad arall yn perthyn i'r Undeb Ewropeaidd.

1.15 Materion datganoledig yw diogelwch a safonau bwyd a phennir y ddeddfwriaeth ar gyfer yr Alban gan Senedd yr Alban. Yn yr Alban, mae'r FSA yn darparu cyngor ar ddeddfwriaeth arfaethedig i'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymunedol yng Ngweithrediaeth yr Alban.

1.16 Noddir FSA yr Alban gan Senedd yr Alban ac mae ei staff yn cynnwys y Cyfarwyddwr, dau Gyfarwyddwr Cynorthwyol, a 57 o swyddi amser llawn cyfatebol. Mae swyddfa'r Alban yn Aberdeen. Mae hyn yn sicrhau cysondeb tra'n caniatáu i amgylchiadau penodol yr Alban gael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn wrth weithredu polisi diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban.

1.17 Mae Pwyllgor Ymgynghorol statudol yr Alban ar Fwyd dan gadeiryddiaeth Syr John Arbuthnott. Mae darparu gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r FSA am faterion diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban. Yn unol ag egwyddorion gonestrwydd a thryloywder yr FSA, mae gan y Pwyllgor rym i gyhoeddi ei gyngor ac mae'n gwneud penderfyniadau arwyddocaol y Pwyllgor yn gyhoeddus drwy ei gyfarfodydd agored.

1.18 Datgelodd Arolwg Barn Defnyddwyr blynyddol 2000 fod ymwybyddiaeth o'r FSA ar ei huchaf yn yr Alban (65%) o gymharu â gweddill y DU. Mae ymwybyddiaeth yn 2001 wedi codi i 75% (yr uchaf yn y DU o hyd).

1.19 Asiantaeth Weithredol o'r FSA yn gweithio ym Mhrydain Fawr yw'r Gwasanaeth Hylendid Bwyd (MHS). (Mae DARD yn darparu gwasanaeth tebyg yng Ngogledd Iwerddon.) Ei brif swyddogaethau yw sicrhau cynnal y safonau uchaf sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith wrth gynhyrchu cig yn hylan a lles anifeiliaid wrth eu lladd, a darparu gwasanaeth archwilio cig i bob ffatri gig gofrestredig. Mae gan yr MHS ei Swyddog Archwilio Asiantaeth ei hun (Prif Weithredwr yr MHS) ac mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ei hun.

1.20 Cyhoeddwyd ein Cytundeb Darparu Gwasanaeth (SDA) cyntaf gyda'r Trysorlys gennym yn hydref 2000. Gellir gweld y testun llawn ar www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/sda. Roedd nodau a thargedau'r SDA yn seiliedig ar weledigaeth i'r FSA cyn sefydlu'r Bwrdd.



1.21 Mae'r Bwrdd wedi datblygu'r weledigaeth hon ymhellach ac, ym mis Mai 2001 daeth ei waith ar y *Cynllun Strategol ar gyfer 2001–06 i ben*. Mae'r testun cyflawn i'w weld ar ein gwefan ar www.food.gov.uk. Mae'r Cynllun Strategol yn amlinellu ein blaenoriaethau ar ddiogelwch bwyd, gwybodaeth i'r cyhoedd, labelu a dewis, maetheg a diet dros gyfnod o bum mlynedd. Rydym yn disgrifio yn y Cynllun sut y byddwn yn rhoi ein gwerth craidd o fod yn agored ar waith. Ein nod yw ennill ymddiriedaeth fel ffynhonnell fwyaf dibynadwy yn y DU o ran bwyd. Rydym am warchod a gwella diogelwch y bwyd a fwyteir gan bobl, a'i gwneud yn bosibl i bobl ddewis diet iach. Dros gyfnod ein Cynllun Strategol ein nod yw:


- lleihau salwch drwy gyfrwng bwyd o 20% drwy wella diogelwch bwd ar hyd y gadwyn fwyd
- helpu pobl i wella eu hiechyd dietegol
- hybu labelu gonest a llawn gwybodaeth er mwyn helpu cwsmeriaid
- hybu arfer gorau yn y diwydiant bwyd
- gwella gorfodi cyfraith bwyd
- ennill ymddiriedaeth pobl drwy'r hyn a wnawn a'n dull o'i wneud

1.22 Datblygwyd ein SDA ar gyfer y cyfnod gwariant nesaf i fod gyd-fynd yn nes â'r Cynllun Strategol. Cyhoeddir ein SDA diwygiedig, wedi'i seilio ar y diagram isod, yn ddiweddarach eleni.

1.23 Mae adrannau 2 i 5 yn yr *Adroddiad Blynyddol* hwn yn amlinellu ein nodau a'n blaenoriaethau allweddol, a byddant yn cynnig blas i chi ar yr hyn a wnaed gennym yn 2001/02. Cewch weld rhagor o fanylion am ein perfformiad hefyd a'n cynlluniau at y dyfodol yn ein *Hadroddiad Adrannol Gwanwyn 2002*†. Mae'r Adroddiad yn cynnwys adroddiad manwl ar ein perfformiad yn ôl ein targedau SDA yn 2001/02.

1.25 Gallwch ganfod rhagor am yr hyn a wnawn ar ein gwefan www.food.gov.uk. Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n ddyddiol. Mae rhestr gyswllt fanwl yn ôl pwnc ar gael ar: www.food.gov.uk/aboutus/contactus1/contactusaz/

†Mehefin 2002, Cm. 5404, ISBN 0-10-154042-b, cyhoeddwyd gan Lyfrfa Ei Mawrhydi



# 2 Gwell hyder ymhlith defnyddwyr



## GWELL HYDER YMHLITH DEFNYDDWYR

**Blaenoriaethau allweddol – hyder defnyddwyr**

- gwella hyder y cyhoedd mewn ffordd y gellir ei mesur o ran rheoli diogelwch a safonau bwyd ar draws y DU
- bod y ffynhonnell fwyaf dibynadwy yn y DU o ran cyngor a gwybodaeth am fwyd
- sicrhau bod dadleuon am faterion sydd o bwys i'r cyhoedd yn rhai agored

> *"Ein nod yw cynnig gwelliant gwirioneddol o ran diogelwch a safonau bwyd. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wella hyder y cyhoedd"*

2.1 Ein nod yw cynnig gwelliant gwirioneddol o ran diogelwch a safonau bwyd. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wella hyder y cyhoedd. Mae ein ffordd o wneud y gwelliannau hyn yn hanfodol bwysig i'n llwyddiant. Felly, mae bod yn agored, hygyrchedd, a dull ymgynghorol o lunio polisi i gyd yn rhannau annatod o'n dulliau gwaith.

2.2 Mae'r Bwrdd yn agored i'w archwilio gan y cyhoedd drwy gyfarfodydd cyhoeddus. Cynhaliwyd wyth cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd ar draws y wlad yn 2001/02. Cynhaliwyd hefyd saith cyfarfod agored o Bwyllgor Ymgynghorol ar Fwyd yr Alban, pum cyfarfod agored o'r Pwyllgor Ymgynghorol i Gymru ac wyth cyfarfod agored o Bwyllgor Ymgynghorol Gogledd Iwerddon. Cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd ychwanegol i randdeiliaid er mwyn hybu dadleuon ar faterion o bwys i ddefnyddwyr a lle'roedd ansicrwydd gwyddonol, gan gynnwys:

- labelu bwydydd a gynhyrchwyd yn defnyddio technoleg GM
- risg ddamcaniaethol BSE mewn defaid
- rheolaethau potensial i leihau gwneud defnyddwyr yn agored i MAP (*Mycobacterium* avium subsp. *paratuberculosis)* mewn llaeth

2.3 Rydym yn ennyn ymddiriedolaeth a dealltwriaeth y cyhoedd drwy fod yn agored a thryloyw. Mae hyn yn gwneud ein cyngor a'n gwybodaeth i'r cyhoedd yn fwy effeithiol, ac yn helpu i ennyn hyder y cyhoedd yn ein gwaith. Lle bo ansicrwydd, rydym yn agored gyda'r cyhoedd. Credwn fod hyn yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth. Yn ogystal, mae ymagwedd agored yn gwella ansawdd polisïau a phenderfyniadau. Mae pobl sydd â phrofiad o sut mae polisïau'n cael eu gweithredu yn fwy tebygol o allu gweld diffygion neu broblemau mewn cynigion newydd.

2.4 Rydym wedi creu cangen defnyddwyr newydd i godi proffil ein gwaith gyda defnyddwyr sydd wrth graidd gwaith yr FSA. Mae'r Gangen hefyd yn darparu gwasanaeth ymgynghorol mewnol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ystyried effaith eu polisïau ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr (ac ar grwpiau difreintiedig yn neilltuol).

2.5 Rydym wedi cymryd y cam pwysig iawn o benodi Pwyllgor Defnyddwyr. Mae'r aelodaeth yn cynnwys nid yn unig unigolion a benodwyd yn sgil enwebiadau gan y prif grwpiau defnyddwyr, ond unigolion a benodwyd drwy gystadleuaeth agored hefyd. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod:

- ein proses o wneud polisïau yn agored i gynifer o fuddiannau defnyddwyr â phosibl
- ein penderfyniadau'n seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o anghenion a barnau defnyddwyr

2.6 Mae gennym gynrychiolwyr lleyg neu gynrychiolwyr defnyddwyr ar bob pwyllgor a grŵp arbenigol sy'n ein cynghori. Rydym wedi datblygu pecyn sefydlu i helpu cefnogi'r cynrychiolwyr hyn ac rydym wedi cynnal dau weithdy i drafod materion yn ymwneud â'u rôl ac wedi cynnal cwrs hyfforddi peilot iddynt yn seiliedig ar raglen *Stronger Voice* y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol.

2.7 Rydym yn awyddus i agor ein proses ymgynghori i ymestyn y tu hwnt i'r aelodau grwpiau defnyddwyr a buddiannau cyhoeddus sydd eisoes yn rhan o'r ymgynghori ar faterion polisi. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yr ystod o safbwyntiau sydd gan ddefnyddwyr 'cyffredin'. Un enghraifft dda o hyn oedd yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddiwyd i ategu ein hymateb i" Comisiwn Polisi ar Ffermio a Bwyd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2001. Ymhlith y dulliau a ddefnyddiwyd, caed: gwefan ryngweithiol, arolwg barn, grwpiau ffocws, gweithdai sefyllfa gyda defnyddwyr ar incwm isel; cyfres o seminarau rhanbarthol; a fforwm ieuenctid.

2.8 Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r prif sefydliadau defnyddwyr megis y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol, Cymdeithas y Defnyddwyr a Sustain: y cynghrair dros well bwyd a ffermio. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr cymdeithasau defnyddwyr er mwyn trafod meysydd polisi penodol. Rydym yn ariannu gweithgor chwarterol annibynnol i helpu amrediad o sefydliadau defnyddwyr i ddatblygu polisi cyffredin fel y gallant gyfrannu'n fwy effeithiol at ein proses ymgynghori. Drwy wneud hyn rydym yn derbyn adborth rheolaidd gan sefydliadau defnyddwyr ar y gwaith a wnawn.

2.9 Mae ein Fforwm Labelu Bwyd newydd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Yn ein barn ni mae hyn yn hanfodol o ran adrodd ar gynnydd yn uniongyrchol a randdeiliaid, megis sefydliadau defnyddwyr a'r diwydiant bwyd. Mae'n rhoi cyfle i ni hefyd i wrando'n uniongyrchol ar farn pawb sydd â chyfran ac i ateb cwestiynau am faterion sydd o bwys iddynt ym maes labelu bwyd. Mae'n hanfodol bod defnyddwyr yn cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn os ydym i roi ystyriaeth deg i'w pryderon a'u diddordebau, ac yr ydym yn benderfynol o wneud hynny.

2.10 Menter newydd arall yw'r Fforwm Maetheg. Ei bwrpas yw creu modd o rannu profiadau a chydlynu ymdrechion a gweithrediadau ar gyfer rhai sy'n ceisio gwella diet a maeth. Mae'n dod â rhanddeiliaid allweddol mewn maetheg at ei gilydd yn rheolaidd er mwyn rhannu syniadau a gwybodaeth ac i hwyluso cyfathrebu rhwng sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn. Y nod yw annog cydweithrediad rhwng rhanddeiliaid i hybu effeithiolrwydd gweithrediadau – ac i osgoi ailadrodd. Bydd y Fforwm yn cefnogi strategaeth effeithiol a chydlynol ar faetheg. Y pwrpas cyffredinol yw gwella iechyd drwy wella diet ac arferion bwyta.

2.11 Ein bwriad yw cynnwys rhanddeiliaid yn ein holl waith ar faetheg. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ymgynghori ar lefel anffurfiol a ffurfiol ar wahanol amau yn y mentrau unigol a thrwy ddarparu gwybodaeth drwy ein gwefan am bob agwedd ar y Cynllun Gweithredu Maetheg drwy ein gwefan. Mae manylion pellach am y Cynllun Gweithredu ar gael ar ein gwefan o dan ein Fframwaith Strategaeth Maetheg. Bydd y Fforwm Maetheg, Fforwm Diet a Maetheg yr Alban, a'r gweithdai i randdeiliaid yng Nghymru yn bwysig iawn yn hyn o beth hefyd.



2.12 Rydym yn defnyddio cyfarfodydd gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill fel modd integrol o hyrwyddo dadl ymhlith y cyhoedd ac o sicrhau y gall y rheini a effeithir gan y materion hynny gyfrannu tuag at ddatblygu polisi. Dyma rai enghreifftiau yn ystod 2001/02:

- dau gyfarfod ar GM i randdeiliaid, y cyntaf ohonynt yn Llundain a'r ail yn Stirling, i ategu'r ymgynghoriad ysgrifenedig ar gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar fwydydd newydd a addaswyd yn enetig (GM)
- cyfarfod i ddefnyddwyr, sefydliadau bwyd, a phartïon perthnasol eraill ym mis Mehefin 2001 i gynghori'r rhai a'i mynychodd am ein gwaith yng Ngogledd Iwerddon, ac i geisio adborth gan y rhai a oedd yn bresennol am berfformiad FSA-Gogledd Iwerddon
- ym mis Ionawr 2002, cynhaliwyd cyfarfod gennym i randdeiliaid am leihau gwaddolion gwrth-ficrobaidd a ddefnyddir fel ychwanegion bwyd dofednod
- ym mis Chwefror 2002, cynhaliwyd cyfarfod agored tra phoblogaidd gennym o'r Pwyllgor ar Docsicoleg Cemegau mewn Bwyd, Cynnyrch Defnyddwyr a'r Amgylchedd yn Swydd Norfolk i drafod yr adroddiad terfynol drafft ar effaith cymysgeddau plaleiddiaid a meddyginiaethau milfeddygol
- ym mis Mawrth 2002 cynhaliwyd cyfarfod gennym ar gyfer rhanddeiliaid i drafod atgyfnerthu blawd gydag asid ffolig
- mae 'A Recipe for Success' – digwyddiad a gynlluniwyd yn benodol i ddenu aelodau o'r cyhoedd i gael eu diddanu a'u haddysgu gan gogydd adnabyddus a chael cyfle i holi panel o arbenigwyr bwyd – Mae'r digwyddiad poblogaidd hwn wedi cael ei gynnal mewn tair dinas yn yr Alban.

2.13 Rydym yn defnyddio amryw byd o gyfryngau i gyfleu ein neges – taflenni, cyfarfodydd cyhoeddus, a'n gwefan – gan ddibynnu ar ein cynulleidfa darged. Rydym yn credu bod y Rhyngrwyd yn gyfrwng mwyfwy pwysig o ran cyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid, ac yn ffordd bwysig iawn o gyflawni ein nod o fod yn fwy agored a hygyrch. Blaenoriaeth o bwys felly oedd ail-lunio ein gwefan. Buom yn gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae pobl am ei gael. O ganlyniad, credwn fod y safle bellach yn fwy cyfeillgar, ac yn darparu gwybodaeth sy'n ateb anghenion pobl yn well. Ffon fesur ein llwyddiant yw fod y gwelliannau wedi arwain at fwy o ddefnyddio ar y safle o dros 50% ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2001.

2.14 Credwn ei bod yn hanfodol i ni wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o agwedd defnyddwyr tuag at ddiogelwch a safonau bwyd, ac i ddilyn newidiadau ym marn y cyhoedd. Gwnawn hyn drwy gynnal Arolwg Agweddau Defnyddwyr blynyddol. Daeth canlyniadau'r arolwg cyntaf (2000), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2001, yn feincnod. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ail arolwg (2001) ym mis Chwefror 2002.

2.15 Cynhaliwyd yr ail arolwg ymhlith sampl gynrychioliadol o 3,120 o oedolion yn y DU – 1000 yn Lloegr, 713 yng Nghymru, 705 yng Ngogledd Iwerddon a 702 yn yr Alban. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr, rhwng mis Awst a mis Medi 2001. Mae'r canlyniadau hyn yn arwydd clir i ni o'r angen am ffocysu adnoddau: diogelwch bwyd, gwenwyno bwyd, bwyta'n iach a labelu bwyd. Mae ein rhaglen waith gyfredol yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn a bydd yn parhau i adlewyrchu pryderon y cyhoedd.

2.16 Yn yr ail arolwg, y canlyniadau allweddol oedd:

- mae ymwybyddiaeth o'r FSA yn cynyddu'n gyflym – 58% yn 2000 i 71% yn 2001
- mae hyder yn yr FSA ar gynnydd hefyd, gan godi o – 50% yn 2000 i 58% yn 2001
- cig yw prif bryder y cyhoedd o hyd gyda 73% o ddefnyddwyr yn ei grybwyll yn ddigymell, cynnydd bach o 71% yn 2000
- mae safonau gwael mewn mannau gwerthu bwyd yn parhau i fod yn bryder allweddol i ddefnyddwyr gyda rhagor na'u hanner (51% yn 2001, cynnydd o 42% yn 2000) yn mynegi pryder am safonau mewn un neu ragor o fannau gwerthu. Mannau bwyd symudol a siopau bwydydd parod sydd ar ben y rhestr
- mae 12% o ymatebwyr yn honni iddynt gael eu gwenwyno gan fwydyn ystod y flwyddyn a aeth heibio, sef gostyngiad bach o 13% yn 2000
- mae ymwybyddiaeth o'r neges ffrwythau a llysiau bum gwaith y dydd ar gynnydd (i 49% o 43% yn 2000), ond dim ond 28% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn bwyta o leiaf bum siâr y dydd mewn gwirionedd

# 3 Gwell diogelwch a safonau bwyd

Gwell

**Blaenoriaethau allweddol – diogelwch bwyd: Salwch drwy gyfrwng bwyd**

- lleihau salwch drwy gyfrwng bwyd o 20% (lefelau 2001) erbyn 2006
- lleihau llygredd salmonela mewn cyw iâr a gynhyrchwyd yn y DU gan o leiaf 50% dros y pedair blynedd nesaf

**Blaenoriaethau allweddol – diogelwch bwyd: BSE (Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol)**

- sicrhau bod y rheolaethau wedi eu seilio ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf
- sicrhau bod rheolaethau BSE yn cael eu gorfodi'n effeithiol
- darparu gwybodaeth gywir, annibynnol am faterion BSE ac effeithiolrwydd eu gorfodi
- sicrhau bod cig a fewnforiwyd yn cael ei fonitro er mwyn gwirio bod rheolaethau'r UE wedi cael eu gorfodi

**Blaenoriaethau allweddol – diogelwch bwyd: Diogelwch cemegol bwyd**


- sicrhau nad yw cemegau sydd mewn bwyd yn peryglu diogelwch bwyd
- bod â rheolaethau iawn yn eu lle a sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi'n iawn
- annog dadl agored am y materion ymhlith rhanddeiliaid

**Blaenoriaethau allweddol – diogelwch bwyd: Cynnyrch a phrosesau bwyd, eu trwyddedu neu eu cymeradwyo**

- prosesau asesu diogelwch sy'n fwy cydnerth, ac yn cael eu harfer yn drylwyr
- asesu diogelwch sy'n agored, tryloyw ac yn seiliedig ar y wyddoniaeth orau sydd ar gael
- cyhoeddi meini prawf asesu a gwybodaeth arall er mwyn ennyn hyder defnyddwyr yn y trefniadau
- lleihau gollwng cemegau a radioniwclidau cyn iddynt ollwng, neu leihau eu heffaith botensial ar y gadwyn fwyd drwy ddulliau eraill

**Blaenoriaethau allweddol – gorfodi cyfraith bwyd**

- gwella effeithiolrwydd gorfodi gan awdurdodau lleol a'r MHS
- sicrhau gorfodi cymesur a mwy cyson
- gwella tryloywder trefniadau gorfodi i randdeiliaid
- hyrwyddo gorfodi systemau ar sail risg ar raddfa helaethach i wella safonau diogelwch ar draws y gadwyn fwyd



## GWELL DIOGELWCH A SAFONAU BWYD

3.1 Cytunodd y Bwrdd ar ein strategaeth ar glefydau microbiolegol drwy gyfrwng bwyd ym mis Mai 2001. Mae'r strategaeth yn egluro sut y byddwn yn cyflawni ein targed o leihau clefyd drwy gyfrwng bwyd o 20% o lefelau 2001 erbyn 2006. Cyhoeddir y strategaeth ar ein wefan, ac felly hefyd adroddiad bob chwe mis ar ein cynnydd. Cyn pryd, cyflawnwyd un o'n prif dargedau gennym ar ddiogelwch bwyd – sef lleihad o ragor na 50% yn lefel llygredd salmonela mewn cyw iâr a werthir ac a gynhyrchir yn y DU. Mae cyflawni'r targed hwn wedi caniatáu i ni symud ffocws ein gwaith yn y maes hwn at gyfrwng arall sy'n achos clefyd mewn bwyd – campylobacter.

3.2 Mae mynd i'r afael â campylobacter yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i gwtogi gwenwyno bwyd o 20% o lefelau 2001 erbyn 2006. Rydym wedi dechrau gweithio ar ddofednod eisoes a'n nod yw datblygu strategaeth i leihau campylobacter mewn ieir ac rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i daclo'r broblem.

3.3 Lansiwyd ein Hymgyrch Hylendid Bwyd gennym ym mis Chwefror 2002. Mae'r ymgyrch bum-mlynedd hon yn fesur allweddol sy'n ceisio atal clefyd drwy gyfrwng bwyd. Ffocws y cam cyntaf yw lleihau llygredd bacteria mewn bwyd mewn mannau arlwyo, ac fe'i dilynir gan fesurau sy'n targedu defnyddwyr.

3.4 Yn 2001/02 buom yn ymgynghori ar benderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd yn gofyn rheolaethau Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) gorfodol mewn ffatrïoedd cig a dofednod ffres a rheolau micro-brofion ar ladd-dai a ffatrïoedd torri cig ffres.

3.5 Rydym wedi sefydlu Uned HACCP benodol i ddatblygu a gweithredu strategaeth er mwyn sicrhau cymhwyso gweithdrefnau HACCP yn y diwydiant bwyd. Cyhoeddwyd ein strategaeth ar weithredu HACCP yn ehangach ym mis Tachwedd y 2001 ac mae i'w gweld ar ein gwefan.

3.6 Cyhoeddwyd *Yr Arolwg o Reolaethau* BSE gennym ym mis Rhagfyr 2000. Tynnodd yr Arolwg sylw at risg ddamcaniaethol BSE mewn defaid yn y DU. Ein cyngor oedd nad oedd reswm dros gynghori yn erbyn bwyta cig defaid. Fodd bynnag, cydnabuwyd gennym fod angen lleihau ansicrwydd ar y mater hwn ac edrych a oedd angen mesurau diogelwch pellach i'r cyhoedd.

3.7 Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus gennym i randdeiliaid ym mis Rhagfyr 2001. Wedi hynny gofynnwyd i grŵp craidd o randdeiliaid adrodd ar oblygiadau BSE mewn defaid gan wneud unrhyw argymhellion gofynnol i gyflwyno mesurau pellach. Cyhoeddwyd adroddiad y grŵp craidd i'r cyhoedd ymgynghori arno ym mis Mai 2002 ac mae i'w weld ar ein gwefan.

3.8 Rhan bwysig o'n gwaith ym maes diogelwch cemegol yn ystod y flwyddyn oedd lledaeniad Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) a gychwynnodd ym mis Chwefror 2001. Yn sgil asesiad gan y Llywodraeth o'r risgiau posibl i iechyd y cyhoedd o'r opsiynau ynghylch cael gwared â gwastraff FMD, ac yn enwedig oherwydd risgiau i'r diet i ddiocsinau drwy goelcerthi FMD, comisiynwyd rhaglen fonitro gennym i chwilio am ddiocsinau mewn bwydydd a gynhyrchwyd yng nghyffiniau coelcerthi. Wrth aros am ganlyniadau'r rhaglen honno, cyhoeddwyd cyngor gennym ar ragofalu ar 25 Mai 2001, yn awgrymu y byddai pobl yn defnyddio llaeth cyflawn a chynnyrch llaeth cyflawn gan anifeiliaid o fewn 2km i goelcerthi FMD yn unig efallai am leihau risg botensial dicocsinau o'r ffynhonnell hon drwy amrywio eu diet i gynnwys llaeth a chynnyrch llaeth o ffynonellau eraill. Bu croeso i'r cyngor.

3.9 Cyhoeddwyd canlyniadau'r rhaglen fonitro mewn adroddiadau a ryddhawyd ar 5 Gorffennaf 2001, 8 Awst 2001 a 20 Medi 2001, ac adroddiad terfynol yn crynhoi holl ganlyniadau'r rhaglen ym mis Ionawr 2002. Erbyn cyhoeddi'r trydydd adroddiad, roedd canlyniadau ar gael am 120 sampl bwyd a phorthiant anifeiliaid, a 39 o samplau amgylcheddol. Ein barn ar sail y canlyniadau hyn oedd nad oedd y coelcerthi hyn yn golygu risg ychwanegol i iechyd drwy fwyd. Ein casgliad felly oedd nad oedd y cyngor a gyhoeddwyd ar 25 Mai bellach yn gymwys.

3.10 Am mai un o'n nodau pennaf yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybod am y risg botensial yn deillio o fwyta bwyd, rydym yn cyhoeddi cyngor yn rheolaidd ar ystod eang o gynnyrch. Rydym yn cyhoeddi cyngor ar ein gwefan yn ogystal. Dyma ychydig enghreifftiau yn unig o 2001/02:

- cynnyrch helva o fath arbennig (a adwaenir hefyd fel halva) a lygrwyd gan salmonela
- llygredd afflatocsin ac ochratocsin A (tocsinau naturiol a grëir gan lwydni) mewn ystod o gnau, cynnyrch cnau a ffrwythau gwinwydd sych
- atal gwerthu melysion ffrwythau yn cynnwys Konjac (y mae gwaharddiad arnynt bellach ar draws Ewrop)
- rhai cynnyrch saws soy yn cynnwys lefelau uchel o gemegau sydd â'r potensial i achosi canser
- diocsinau mewn elfennau a ddefnyddir mewn porthiant anifeiliaid
- gwaddod o'r cyffur milfeddygol chloramphenicol mewn mêl a Jeli'r Frenhines
- cynnyrch yn cynnwys y perlysieuyn kava-kava, ar ôl i'r Asiantaeth Rheoli Meddyginiaethau benderfynu asesu ei effaith ar yr iau

3.11 Rydym yn ymdrin ag ystod eang o ddigwyddiadau a all effeithio ar y gadwyn fwyd i bobl. Mae'r digwyddiadau hyn yn perthyn i ddau gategori bras:

- digwyddiadau llygredd amgylcheddol (cemegol, radiolologol neu ficrobiolegol) a all arwain, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, at lygru'r gadwyn fwyd. Mae ein Tîm Ymateb i Ddigwyddiadau, mewn cydweithrediad ag arbenigwyr y tu mewn a'r tu allan i'r Asiantaeth, yn ymchwilio ac yn darparu cyngor i ddefnyddwyr a chynhyrchwyr yn sgil digwyddiadau o'r fath
- digwyddiadau yn ymwneud â llygru bwyd wrth ei brosesu neu ei ddosbarthu. Mae ein Tîm Digwyddiadau Bwyd yn hysbysu awdurdodau gorfodi lleol am beryglon neu am gamlabelu neu ofynion cyfansoddiad bwydydd. Gall digwyddiadau o'r fath olygu atal bwyd rhag cael ei ddosbarthu, neu hysbysu'r cyhoedd i beidio â bwyta bwyd neilltuol



3.12 Yn ystod 2001/02, archwiliwyd 506 o ddigwyddiadau gennym a oedd â'r potensial i effeithio ar ddiogelwch bwyd. O ganlyniad, cyhoeddwyd 47 Rhybudd am Beryglon Bwyd gennym. A chyfyngiadau y cytunwyd arnynt yn achos 26 o ddigwyddiadau ar ffermydd Yn ogystal, gweithredwyd deddfwriaeth frys ar ran yr Undeb neu'r Comisiwn Ewropeaidd gennym ar fewnforion cynnyrch anifeiliaid o Tsieina; ar anis seren; ar gnau daear o Tsieina; ac ar gnau a ffigys o Dwrci. Cyhoeddwyd gwybodaeth gennym yn dangos gwaddodion anghyfreithlon mewn mêl o Tsieina gan gyhoeddi cyngor i ddefnyddwyr.

3.13 Rydym yn benderfynol o helpu i wella safonau bwyd a hyder y cyhoedd drwy wella cysondeb ac effeithiolrwydd gorfodi'r gyfraith ar fwyd. Mae ein Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd ar ein gwefan, wedi gosod sylfeini ein cynlluniau. Bydd y Cytundeb yn sicrhau fod gennym ragor o wybodaeth am awdurdodau lleol. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod tueddiadau, enghreifftiau da o waith gorfodi, a meysydd y mae angen eu gwella.

3.14 Buom yn gweithio'n agos hefyd â chyrff gorfodi i fynd i'r afael â thorri rheolau diogelwch bwyd drwy'r flwyddyn. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn a aeth heibio:

- mabwysiadu pecyn o fesurau rheolaeth, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2001, gyda'r bwriad o atal cig anffit rhag mynd i'r gadwyn fwyd
- sefydlu Tasglu Bwyd Gwastraff i edrych ar y mesurau pellach sy'n ofynnol i sicrhau cael gwared â gwastraff bwyd yn y DU mewn ffordd briodol, ac i leihau posibilrwydd twyll
- gweithredu'n gyflym i warchod defnyddwyr pan ddarganfuwyd fformwla i fabanod a lygrwyd gan sborau botwliaeth, a saws soy a lygrwyd gan garsinogen genotocsig

3.15 Yr Asiantaeth ei hun yw'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â hylendid mewn lladd-dai trwyddedig, gweithfeydd torri cig a storfeydd oer. Ceir y gofynion mewn gwahanol Offerynnau Statudol a gall torri'r rhain arwain at ryddhau hysbysiadau yn mynnu cydymffurfiad, atal ac adalw trwyddedau, ac erlyn yn y pen draw. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2001 erlynwyd gan yr Asiantaeth mewn 12 achos. Ar ddiwedd y flwyddyn yr oedd 18 o achosion yn cael eu hystyried neu'n parhau ac roedd 23 o achosion eraill yn cael eu hymchwilio.

3.16 Oherwydd lledaeniad Clwy'r Traed a'r Genau a phryder cynyddol am fwydydd a fewnforiwyd, buom yn ymweld ym mis Ebrill 2001 â nifer o borthladdoedd, awdurdodau lleol a storfeydd mewnforion. Bu'r ymweliadau hyn yn gymorth i ni asesu effeithiolrwydd rheolaethau ar fewnforio a maint y mewnforion bwyd anghyfreithlon yn deillio o anifeiliaid. Bu'r wybodaeth hon yn help wrth inni ddatblygu ein polisi ar reoli mewnforion bwyd ac fe'i cyflwynwyd i ystyriaethau ehangach yn San Steffan.

3.17 Paratowyd adroddiad gennym ar reoli mewnforion bwyd, yn cynnwys 10 o argymhellion i gydlynu gorfodi ar fewnforion ac effeithiolrwydd arolygu bwyd a fewnforiwyd. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2001. Rydym bellach wedi sefydlu Uned Fwyd newydd ar gyfer bwyd a fewnforiwyd fel rhan o'r broses o ymchwilio i'r cynigion hyn ymhellach.

3.18 Buom yn gweithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth i ddatblygu Cynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar fewnforion anghyfreithlon, a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn niwedd mis Mawrth 2002. Pwrpas y cynllun yw gwella gallu'r DU i atal a chanfod mewnforion cynnyrch anifeiliaid a phlanhigion anghyfreithlon.

3.19 Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Awdurdodau Iechyd y Porthladdoedd (APHA) ar reolaethau ar fwydydd a fewnforiwyd yn gyffredinol ac i gyfathrebu'n rheolaidd â phorthladdoedd a rhanddeiliaid yn ehangach am fwydydd penodol sy'n cael eu mewnforio.

Ehangu dewis
# 4 a gwella diet
i ddefnyddwyr

diet



EHANGU DEWIS I DDEFNYDDWYR

**Blaenoriaethau allweddol – gwybodaeth i'r cyhoedd, labelu a dewis**

- hyrwyddo labelu gonest a llawn gwybodaeth, ac annog a chefnogi mentrau i wella eglurder a gwerth i wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr
- cychwyn, datblygu, negodi'n rhyngwladol a gweithredu rheolau ar gyfansoddiad, labelu a hysbysebu bwyd sy'n diogelu buddiannau defnyddwyr
- diogelu defnyddwyr drwy reolaethau ar fwydydd sy'n hawlio priodoleddau iechyd neu sy'n gofyn cael eu trin yn arbennig am resymau eraill (megis bwydydd babanod)

**Blaenoriaethau allweddol – maetheg a diet**

- gwelliannau hirdymor ym maeth a diet poblogaeth y DU
- lleihau anghydraddoldeb drwy alluogi ac annog rhai dan anfantais a diymgeledd i wella eu diet

> *"Rydym hefyd wedi sefydlu 'Tasglu Labelu Clir'. Mae'r Tasglu'n cynnwys cynrychiolwyr diwydiant, grwpiau defnyddwyr, gorfodwyr, a'r Plain English Campaign"*

4.1 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bwrw ymlaen gyda'n Cynllun Gweithredu ar labelu, a gyhoeddir ar ein gwefan www.food.gov.uk. Mae'r holl fentrau a gynlluniwyd gennym bellach ar waith. Rydym wedi cychwyn arolwg ychwanegol o gynlluniau sicrwydd bwyd, am fod ein hymchwil yn dangos bod pobl yn ansicr ynglŷn ag ystyr yr arwyddion gwahanol. Rydym wedi cadarnhau a chyhoeddi adroddiadau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwyd ar ddefnyddio termau megis ffres, pur a naturiol, ayb wrth labelu; yr *Arolwg o Labelu Bwyd; a'r Arolwg o Werthu o Bell.*

4.2 Rydym hefyd wedi sefydlu 'Tasglu Labelu Clir'. Mae'r Tasglu'n cynnwys cynrychiolwyr diwydiant, grwpiau defnyddwyr, gorfodwyr, a'r *Plain English Campaign.* Mae'r Tasglu wedi argymell y dylid neilltuo mwy o'r label ar gyfer y wybodaeth sy'n ofynnol dan y gyfraith, y dylai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd sy'n ei gwneud yn haws ei chanfod ac y dylid dewis lliwiau a ffontiau i'w gwneud yn haws ei darllen. Cyhoeddwyd adroddiad y Tasglu ar ein gwefan.

4.3 Rydym hefyd yn dadlau ar lefel ryngwladol dros ragor o labelu'r wlad wreiddiol ar fwydydd. Dyma rywbeth y mae'n rhaid gweithredu arno ar ar lefel ryngwladol, o gofio ein cyfrifoldebau i'r Undeb Ewropeaidd a'r Sefydliad Masnach Byd-eang, ond yn y cyfamser rydym wedi cyhoeddi arweiniad gyda'r bwriad o wella dehongli a chymhwyso rheolau cyfredol yn y DU.

4.4 Ym mis Gorffennaf 2001 cyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd ei argymhelliad ar olrhain a labelu organebau a addaswyd yn enetig a chynnyrch yn deillio ohonynt ac argymhelliad ar awdurdodi a labelu bwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig. Cynhaliwyd dau gyfarfod gennym i randdeiliaid cyn i'r Bwrdd ystyried yr argymhellion. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd pellach i randdeiliaid wrth i ni barhau i negodi cynnydd yr argymhelliad.

4.5 Un o'n blaenoriaethau allweddol yw helpu pobl i wella eu diet yn y tymor hir. Yn 2001/02, cytunwyd gennym ar Fframwaith Maetheg Strategol a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Roedd pedair prif elfen i'r strategaeth hon:

- sicrhau sail gadarn o dystiolaeth ar gyfer weithredu i hyrwyddo diet iach
- datblygu dulliau priodol o hysbysu'r cyhoedd
- adnabod a mynd i'r afael â llyffetheiriau ar newid ymddygiad dietegol
- gwerthuso a monitro effeithiolrwydd yr hyn a wneir

4.6 Nod ein Cynllun Gweithredu Maetheg yw cyflawni'r hyn a ofynnir gan y strategaeth. Byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill gan geisio dylanwadu arnynt er mwyn bwrw ymlaen gyda'r Cynllun Gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys y cydweithio agos a ddatblygwyd gennym gydag Adrannau Iechyd yn y DU, gydag Adrannau eraill y Llywodraeth (addysg, amaethyddiaeth ac yn y blaen) ac awdurdodau lleol ym maes diet a maetheg. Bydd yn cynnwys gwaith hefyd gyda'r diwydiant bwyd a'r gymuned wyddonol. Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys ymrwymiad sylweddol i wario ar ymchwil, arolygon ac ymgyrchoedd gwybodaeth. Yn hyn i gyd, byddwn yn cymryd i ystyriaeth amgylchiadau a blaenoriaethau gwahanol ar draws y DU. Mae'r flaenoriaeth a roddwn i waith yn y meysydd hyn yn cymryd i ystyriaeth bwysigrwydd diet mewn perthynas ag ystod o afiechydon hirbarhaol yn y boblogaeth yn gyffredinol, ac mewn perthynas â chlefydau mewn categorïau risg neilltuol.

4.7 Ar gais y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae FSA Cymru'n arwain datblygu strategaeth maetheg i Gymru. Sefydlwyd grŵp llywio yn cynrychioli'r Llywodraeth, y GIG, awdurdodau lleola defnyddwyr i oruchwylio't broses hon.

4.8 Rydym wedi penodi Fforwm Maetheg hefyd. Mae gan y Fforwm aelodau sy'n cynrychioli llywodraeth ganolog a lleol, cyrff defnyddwyr a chyrff gwirfoddol, diwydiant a buddiannau iechyd. Rydym wedi gwella ac estyn y wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr drwy ein gwefan, sy'n ceisio helpu pobl i fwyta diet cytbwys yn ymarferol. Mae ein safle rhyngweithiol yn darparu cyngor arbenigol, canlyniadau arolygon, megis lefelau halen mewn bara, a chyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio gwybodaeth ar labeli. Bydd hyn i gyd yn help i hybu dewis ymhlith defnyddwyr.

4.9 Yn unol â'n hymrwymiad i 'roi defnyddwyr yn gyntaf', byddwn yn ceisio cynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid i raddau mwy yn ein gwaith ar faetheg. Gwneir hyn drwy ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol ar adegau priodol wrth i fentrau unigol fynd yn eu blaen a thrwy ddarparu gwybodaeth ar draws yr holl feysydd y Cynllun Gweithredu ar ein gwefan. Bydd y Fforwm Maetheg, Fforwm Diet a Maetheg yr Alban a gweithdai rhanddeiliaid yng Nghymru hefyd yn bwysig yn hyn o beth.



# GWELLA DIET

*"Un o'n blaenoriaethau allweddol yw helpu pobl i wella eu diet yn y tymor hir. Yn 2001/02, datblygwyd ein Cynllun Gweithredu ar Faetheg gennym"*

# 5 Dulliau gwaith mwy effeithlon ac effeithiol

effeithlon



DULLIAU GWAITH MWY EFFEITHLON AC EFFEITHIOL EFFEITHLON

**Blaenoriaethau allweddol – yn ein rôl fel adran Llywodraeth**

- cynghori a hysbysu Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a chyrff rhyngwladol, fel eu bod yn gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu ein prif amcanion, sef diogelu'r cyhoedd a buddiannau defnyddwyr

**Blaenoriaethau allweddol – o ran datblygu ein staff a'n ffordd o weithio**

- parhau i ddatblygu polisi agored, ymgynghorol, ar sail tystiolaeth sy'n cynnig gwell diogelwch i ddefnyddwyr
- sicrhau bod gan ein staff yr arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau i ddatblygu'r diwylliant mewnol angenrheidiol i ddarparu ein strategaeth yn unol â'n gwerthoedd craidd
- adolygu ein gweithrediadau'n barhaus er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian
- parhau i ddysgu a datblygu fel sefydliad

*"Rydym wedi ymrwymo'n gyhoeddus i redeg ein busnes mewn ffordd mor agored a thrylogw â phosibl"*

5.1 Mae ein Cynllun Strategol yn amlinellu ein polisïau yn y prif feysydd polisi – diogelwch bwyd, labelu a dewis, maetheg a diet a gorfodi cyfraith bwyd. Mae'n disgrifio hefyd sut y byddwn yn gweithredu ein gwerth craidd o fod yn agored, a'n hatebolrwydd democrataidd a'r hyn a wnawn i wella ein ffordd o weithio.

5.2 Rydym wedi ymrwymo'n gadarn i dri nod o ran agenda foderneiddio'r Llywodraeth: sicrhau bod gwneud polisïau yn fwy cydlynol a strategol; sicrhau mai defnyddwyr yw ffocws ein gwaith; a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sydd o ansawdd uchel ac yn effeithlon. Rydym wedi ymrwymo hefyd i ddarparu canlyniadau polisi sy'n arwyddocaol: ein nod yw datblygu ein proses o wneud polisi er mwyn sicrhau ein bod yn cymryd arfer gorau i ystyriaeth ac yn ei hyrwyddo. Mae gennym ystod lawn o fentrau o ran gwrando ar ddefnyddwyr.

5.3 Mae ein penderfyniadau wedi eu seilio ar asesu'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf lle bo hynny'n berthnasol. Cynhelir asesiadau risg yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, gan bwyllgorau ymgynghorol annibynnol. Dyma ychydig enghreifftiau o'n dull o wneud penderfyniadau ymgynghorol ac ar sail tystiolaeth yn ystod cwrs yr Adroddiad hwn:

- Mae ymchwil i fformatau newydd o labelu maeth wedi canfod fod yn well gan ddefnyddwyr iaith glir, megis 'halen' yn lle 'sodiwm'. Bwriedir cynnal ymchwil bellach i roi prawf ar fformatau gyda defnyddwyr mewn sefyllfaoedd 'go iawn'
- Yn 2001 cyhoeddwyd canlyniadau arolwg gennym i 100 o sawsiau soy a chynnyrch cysylltiedig sydd ar gael ar y farchnad adwerthu yn y DU. Dangosodd y canlyniadau fod 22% o'r samplau'n cynnwys lefelau uchel o'r cemegyn 3-MCPD sydd â'r potensial i achosi canser, a bod tua dwy ran o dair o'r rhain yn cynnwys y difwynydd cysylltiedig 1,3-DCP na ddylai fod mewn unrhyw fwyd, yn ôl yr arbenigwyr. Ataliwyd y cynnyrch rhag cael ei werthu a chynghorwyd defnyddwyr i beidio â'i brynu. Dosbarthwyd taflenni yn cynnwys lluniau a manylion am y cynnyrch a effeithiwyd a rhoddwyd y wybodaeth hon ar ein gwefan. Mae modd osgoi 3-MCPD ac 1,3-DCP mewn saws soy. Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r arolwg hwn ac eraill, mae llawr o weithgynhyrchwyr wedi newid

eu prosesau cynhyrchu. Mae canlyniadau'r arolwg hwn wedi ategu gosod terfyn Ewropeaidd ar gyfer 3-MCPD mewn saws soy. Bu cryn weithredu ar lefel Ewropeaidd hefyd. Bu gweithredu gan nifer o gyrff rheoli bwyd a chyflwynwyd uchafsymiau gan lawer o wledydd sy'n mewnforion ac yn cynhyrchu

- Gofynasom i'r Pwyllgor ar Docsineg Cemegau mewn Bwyd, Cynnyrch Defnyddwyr a'r Amgylchedd (COT) annibynnol am farn ar effeithiau posibl caffin ar feichiogrwydd. Y cyngor blaenorol (gan yr Adran Iechyd) i fenywod beichiog oedd yfed coffi 'yn gymedrol'. Yn seiliedig ar farn COT, rydym wedi diffinio 'yn gymedrol' fel dim rhagor na 300 mg y dydd, gan roi manylion am sut y gellid cael y 300mg hynny o gyfuniad o goffi, te, cola a siocled. Croesawyd ein cyngor gan yr holl randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol a'r diwydiant coffi, a farnodd ei bod yn bwysig egluro'r hyn y gellid ei yfed yn ddiogel
- Cynhaliwyd arolwg trylwyr gennym o'n portffolio ymchwil a'n systemau rheoli ymchwil. Rydym yn chwilio am ffyrdd o sicrhau bod ein gwariant ar ymchwil yn cael ei wario'n ddoeth ac yn unol â'n blaenoriaethau

5.4 Rydym yn rhoi'r gwersi a ddysgwyd yn *Adroddiad yr Ymchwiliad i BSE* ar waith. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar fframwaith y gellir ei ddefnyddio i fesur ein gwaith. Mae copi o'r fframwaith ar ein gwefan ynghyd â phapurau cyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror 2000. Defnyddir y fframwaith i hyfforddi ein staff ac ar gyfer asesiadau allanol o ddatblygiad ein polisi mewn meysydd penodol.

5.5 Rydym wedi ymrwymo'n gyhoeddus i wneud ein busnes mewn ffordd mor agored a thryloyw â phosibl. Rydym yn gweithio yn unol â'n Côd Ymarfer ar fod yn Agored a'n Datganiad Amcanion ac Arferion Cyffredinol. Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen ar ein gwefan.

5.6 Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion rheoleiddio gwell, ond gwnawn hynny mewn ffordd nad yw'n tanseilio ein prif amcan o ddiogelu defnyddwyr. Rydym yn rhoi iechyd y cyhoedd yn gyntaf. Wrth geisio codi'r beichiau diangen sydd ar ddiwydiant, ni fyddwn yn peryglu iechyd y cyhoedd drwy dynnu, neu lacio neu symleiddio rheoliadau cyfredol.

5.7 Ym mis Mehefin 2001 cyhoeddwyd yr adroddiad gennym ar ein hadolygiad feichiau rheoleiddiol ar fusnesau bychain. Darganfu'r adolygiad fod y baich rheoleiddiol cyffredinol yn sylweddol, ond nad yw rheoliadau bwyd ynddynt eu hunain yn faich neilltuol o drwm. Cafwyd, er hynny sawl problem ynglŷn â chyflymder hysbysu busnesau bychain am ofynion cyfreithiol, gweithredu HACCP, a gorfodi. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym ar yr adroddiad, ac yn gyffredinol yr oedd yr atebion yn ategu darganfyddiadau'r Tasglu. Yr adolygiad oedd sylfaen ein cyfraniad at y Cynllun Gweithredu ar Ddiwygio Rheoliadau. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu, yn cynnwys dros 260 o fesurau dadreoleiddio er budd busnesau, elusennau a gwasanaethau cyhoeddus gan y Llywodraeth ar 4 Chwefror 2002. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cyfuno diwygiadau ar draws adrannau, gan gynnwys yr Asiantaeth. Byddwn yn parhau i gyfrannu at y broses drwy ymchwilio i gynigion newydd a'u cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

5.8 Rydym yn cyhoeddi targedau ar gyfer safonau ein gwasanaeth ar ein gwefan, sydd yn unol â'r Chwe Safon i Lywodraeth ganolog o ran: ateb gohebiaeth, gweld ymwelwyr, ateb galwadau ffôn, cyhoeddi mannau cyswllt, cyhoeddi ein trefn gwynion ac ymgynghori â defnyddwyr. Ein targedau allweddol yw:

- anfon ateb llawn at ddefnyddwyr o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn llythyr, ffacs neu e-bost oddi wrthynt
- os na allwn gyrraedd y targed hwnnw, byddwn yn rhoi gwybod i ohebwyr gan esbonio pam a phryd y cânt ateb llawn
- gweld pobl yn ein swyddfeydd o fewn 10 munud i'w hapwyntiad
- gweld pobl sydd heb apwyntiad o fewn hanner awr wedi iddynt gyrraedd
- ateb ymholiadau dros y ffôn o fewn hanner munud

5.9 Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth sy'n ymarferol bosibl i wneud ein gwasanaethau yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau dan anfantais a rhai ag anghenion iechyd neilltuol. Byddwn yn parhau i ymgynghori â defnyddwyr potensial yn rheolaidd am y gwasanaethau a ddarparwn gan gyhoeddi adroddiad ar ein darganfyddiadau.

5.10 Rydym yn cyhoeddi ein trefn gwynion ar ein gwefan fel rhan o'n safonau gwasanaeth, a byddwn yn darparu copïau pellach os bydd gofyn amdanynt. Ein nod yw ceisio datrys unrhyw broblem yn gyflym, gan esbonio'r hyn a wnaed gennym. Mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Asiantaeth gyhoeddi gwybodaeth am gwynion am yr Asiantaeth yn flynyddol, ar ein gwefan ac yn yr Adroddiad hwn. Gellir gweld y wybodaeth ar gyfer 2001/02 yn Atodiad 1.

5.11 Mae'n ofynnol i ni drwy statud ymgynghori ar ein gweithgareddau gyda'r rhai a effeithir gan ein penderfyniadau, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd lle bo hynny'n briodol. Rydym yn ystyried bod ymgynghori â'n rhan ddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd.

5.12 Er mwyn gweithredu'n effeithiol, rhaid i ni gydweithredu'n agos ag adrannau ac asiantaethau eraill y Llywodraeth os ydym am gyflawni ein nodau. Ceir cofnodion o'n hymwneud ag adrannau eraill o'r Llywodraeth mewn concordatiau. Eu pwrpas yw gosod trefniadau y cytunwyd arnynt o ran gweithio a chyfnewid gwybodaeth. Maent yn ymwneud ag egwyddorion rhagor manylion gwaith o ddydd i ddydd. Eu ffocws yw diddordebau cyffredin, maent yn gosod prosesau cyffredin, ac yn adnabod y prif elfennau mewn perthynas gwaith effeithiol. Cyhoeddir ein holl goncordatiau ar ein gwefan.

5.13 Fel corff i'r DU, rydym yn cynghori ac yn weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig yn ogystal ag adrannau yn Whitehall. Rydym yn cydweithio'n agos i ddatblygu polisïau a strategaethau sy'n ateb diddordebau ac anghenion neilltuol pobl yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae aelod o fwrdd yr Asiantaeth hefyd yn aelod o'r Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd (FSPB) sy'n gweithio o boptu'r ffin yn Iwerddon.

5.14 Mae FSA yr Alban wedi cydweithio'n agos â gwahanol rannau o Senedd yr Alban. Rydym wedi gweithio'n enwedig ag Adran Iechyd Gweithrediaeth yr Alban ac â Bwrdd Addysg Iechyd yr Alban (HEBS) ar faterion diet a maetheg. Comisiynodd FSAS ymchwil i'r rhwystrau ar fwyta'n iach yn yr Alban gan rannu'r canlyniadau gyda'r Weithrediaeth HEBS fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i ddulliau newydd o wella diet yr Alban.

5.15 Mae datblygu staff yn ffactor allweddol o ran sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd flaengar ac effeithiol. Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth Sifil. Yn 2001/02 gwaned ail arolwg gennym o agwedd meddwl staff, gan ddefnyddio MORI.

5.16 Rydym wedi dylunio a datblygu cyfres gynhwysfawr o gyfleoedd hyfforddi a datblygu (mewn pecyn o'r enw Rhaglen Ddatblygu) i bob aelod o staff gan ei lansio ym mis Hydref 2001. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:

- rhaglen ddatblygu benodol i staff yr Asiantaeth
- rhaglen sefydlu cynhwysfawr i bob aelod o staff
- Canolfan Dysgu Agored yn cynnwys hyfforddiant ar CD-ROM
- hyfforddiant mewn rheoli, gweinyddu a TG gan Reed Training, a ddarperir yn fewnol
- dysgu ieithoedd

5.17 Mae'r Cynllun Rheoli – sef rhaglen ddatblygu i'n holl reolwyr – yn elfen allweddol o ran datblygu ein diwylliant yn unol â'n gwerthoedd craidd a o fod yn agored a hygyrch, rhoi defnyddwyr yn gyntaf a bod yn llais annibynnol. Datblygwyd y cynllun gennym gyda help cronfa Buddsoddi i Foderneiddio Swyddfa'r Cabinet. Mae'r cynllun yn cynnwys modiwl craidd gyda modiwlau opsiynol eraill. Mae'n ymdrin â materion megis ein trefn lywodraethol unigryw, gweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig, ac amrywiaeth. Ein nod yw darparu'r cynllun rheoli'n holl reolwyr erbyn diwedd 2003/04: rydym wedi mynd gryn ffordd tuag at y targed hwnnw eisoes.

5.18 Mae Deddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol 2000 (RR(A)A) yn ei gwneud yn ofynnol i bo awdurdod cyhoeddus hybu cydraddoldeb hiliol a diddymu gwahaniaethu anghyfreithlon o ran polisi a swyddogaethau gweithredol. Mae dyletswyddau penodol yr RR(A)A yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol (RES) a Chynllun Gweithredu erbyn 31 Mai 2002. Mae ein Cynllun Gweithredu yn cynnwys:

- gwella ymgynghori â grwpiau ethnig drwy adnabod sefydliadau 'porth' a chreu â hwy, gan gynnwys y sefydliadau hynny ar ein cronfa ddata ganolog o randdeiliaid, yn ogystal â datblygu arweiniad priodol i staff;
- ategu ein gwybodaeth gyfredol am faterion bwyd lleiafrifoedd ethnig drwy broffilio gwahanol grwpiau ethnig, adnabod materion bwyd diwylliannol a chrefyddol a chynnal archwiliad o'n adnoddau mewnol, gan gynnwys gwybodaeth, sgiliau a phrofiad staff mewn perthynas â materion lleiafrifoedd ethnig;
- datblygu systemau i asesu, monitro a gwerthuso effaith ein polisïau drwy ymgorffori'r rhain i'n proses gynllunio busnes gyfredol, gan dynnu sylw, lle bo hynny'n briodol, at effaith polisïau penodol newydd ar grwpiau lleiafrifoedd ethnig ym mhapurau'r Bwrdd ac mewn cyflwyniadau i Weinidogion;
- datblygu rhaglen hyfforddi ar Gysylltiadau Hiliol, drwy ymgorffori hon i'n rhaglen Datblygu Rheolaeth;
- defnyddio ein gwefan i hyrwyddo ein gwaith ar Gysylltiadau Hiliol o ran gweithredu polisi a swyddogaeth personél, yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'n cynnydd yn y meysydd hyn yn gyffredinol.

5.19 Rydym wedi ymrwymo i ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ac rydym wedi sefydlu prosiect i'r perwyl hwnnw. Mae cynllunio sylweddol wedi digwydd yn barod a chychwynnodd rhaglen o seminarau a chyhoeddusrwydd ym mis Mawrth 2002. Ein nod yw dechrau'r broses achredu yn niwedd 2002.

# Atodiad 1

## Cwynion a dderbyniwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2001/02

**Cyflwyniad**

1 Mae'r Atodiad hwn yn cofnodi gwybodaeth am gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn 1 Ebrill 2001 i 31 Mawrth 2002 yn gynwysedig. Mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r math hwn o wybodaeth gael ei gyhoeddi'n flynyddol ar ein gwefan ac yn yr Adroddiad Blynyddol. Gellir gweld manylion am sut i gwyno am unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth yn ein Trefn Gwynion, a gyhoeddwyd ar ein gwefan.

2 Fel arfer, bydd yr Isadran berthnasol yn ceisio datrys y cwyn yn y lle cyntaf. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon, trosglwyddir y cwyn i'n Cydlynydd Cwynion. Wedi hynny gellir cyfeirio'r cwyn at y Prif Weithredwr. Gall y sawl sy'n cwyno ofyn i unrhyw AS gyfeirio'r mater at Gomisiynydd gweinyddu Seneddol y DU A (PCA), a adwaenir hefyd fel yr 'Ombwdsman'.

3 Mae'r drefn gwynion yn cynnwys materion lle rydym wedi methu'n weinyddol neu wedi gweithredu'n amhriodol. Nid yw'n cynnwys anghytundeb neu anghydfod ynghylch ein polisïau.

**Cwynion a Dderbyniwyd yn Ystod y Flwyddyn**

4 Cofnodwyd derbyn cyfanswm o 15 o gwynion yn ystod 2001/02. O'r rhain, datryswyd deg ohonynt yn fewnol gan yr Isadrannau, aeth pedwar at ein Cydlynydd Cwynion neu ein Prif Weithredwr, a chyfeiriwyd un yn benodol at y cadeirydd. Ni chyfeiriwyd yr un cwyn at y PCA.

5 Mae categoreiddio'r 15 o gwynion a gofnodwyd yn dangos y canlynol:
**Categori A:** Dim bai, lle cafwyd fod y cwyn yn ddi-sail
Cyfanswm o chwech achos; datryswyd y rhain i gyd ar ôl gohebu â'r rhai a oedd yn cwyno.

**Categori B:** Mân esgeulustod ac oedi wrth brosesu
Cyfanswm o saith achos; datryswyd un gan y Cydlynydd Cwynion, datryswyd y gweddill ar ôl cynnig eglurhad.

**Categori C:** Materion cymhleth a newydd, lle'r oedd oedi neu broblem arall
Un achos; roedd y sawl a oedd yn cwyno wedi hawlio arian gan yr Asiantaeth a gymerodd beth amser i'w ddatrys. Yn dilyn archwiliad gyrrwyd llythyr o eglurhad yn gwrthod yr hawliad.

**Categori D:** Arall
Un achos; yn ymwneud â mynediad damweiniol a heb awdurdod yn ystod samplu. Datryswyd hwn wrth i'r Prif Weithredwr ymddiheuro ar ran yr Asiantaeth.

6 daeth y 15 o gwynion o sawl man. Cafwyd tri gan ddiwydiant, pedwar gan awdurdodau lleol, tri gan sefydliadau anlywodraethol (NGOs), tri gan aelodau o'r cyhoedd, a dau gan ASau.



# Atodiad 2

## Geirfa termau

| | |
|---|---|
| AME | Gwariant a Reolir yn Flynyddol |
| ASP | Gwenwyno Bwyd Cregyn Amnesig |
| APHA | Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd |
| BMS | System Rheoli Adeiladau |
| BSE | Enseffalopathi Sbygffurf Buchol |
| COT | Pwyllgor ar Wenwyndra Cemegau mewn Bwyd, Cynnyrch Defnyddwyr a'r Amgylchedd |
| CSR | Arolwg Gwariant Cynhwysfawr |
| DARD | Adran Amaeth a Datblygiad Gwledig |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DEL | Uchafswm Gwariant Adran |
| DH | Adran Iechyd |
| DLTR | Adran Llywodraeth Leol, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau |
| EU | Undeb Ewropeaidd |
| FMD | Clwy'r Traed a'r Genau |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| GM | A Addaswyd yn Enetig |
| GMO | Organeb a Addaswyd yn Enetig |
| HACCP | Dadansoddiad Perygl a Phwynt Rheoli: system rheoli diogelwch bwyd drwy ddogfennau a gydnabyddir yn eang fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli peryglon sy'n ymhlyg wrth drafod a chynhyrchu bwyd. Mae'n ddull strwythuredig yn seiliedig ar saith egwyddor y gellir eu cymhwyso'n hyblyg i fusnesau bwyd o bob maint er mwyn sicrhau bod rheoliadau ar sail perygl yn eu lle a bod bwyd diogel yn cael ei gynhyrchu. |
| HEBS | Bwrdd Addysg Iechyd yr Alban |
| LACORS | Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol |
| MAFF | Adran Amaeth Pysgodfeydd a Bwyd (DEFRA bellach) |
| MHS | Gwasanaeth Hylendid Cig |
| PCA | Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu |
| RR(A)A | Deddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol |
| SDA | Cytundeb Darparu Gwasanaeth |
| SEAC | Pwyllgor Ymgynghorol Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol |
| SFAC | Cyngor Ymgynghorol Bwyd yr Alban |
| SR | Arolwg Gwariant |
| UG | Gradd Unedig |

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Cyfrifon Adnoddau Cyfunol

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002





## CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | 36 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 42 |
| Datganiad ar y system rheolaeth mewnol | 43 |
| Tystysgrif Archwiliad – ASB | 45 |
| Crynodeb cynnyrch yr adnoddau – ASB | 47 |
| Datganiad cost gweithredu | 48 |
| Datganiad ar enillion a cholledion cydnabyddedig | 48 |
| Mantolen | 49 |
| Datganiad llif arian | 50 |
| Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol | 51 |
| Nodiadau ar y cyfrifon | 52 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys ar gyfer ASB cyfunol | 67 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion yr Alban | 68 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd | 69 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd drwy Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 70 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd drwy'r Trysorlys ar gyfer yr ASB craidd (San Steffan) | 71 |

# Adroddiad Blynyddol

## Paratoi'r Cyfrifon

Mae cyfrifon cyfunol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi eu paratoi yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd o dan Adran 4 o'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a chyflwynir y cyfrifon o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Caiff yr ASB ei hariannu yn rhannol gan yr awdurdodau datganoledig yn Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Ceir cyfarwyddiadau perthnasol ar gyfrifon yr awdurdodau hyn ynghlwm, ac mae datganiadau ar wahân wedi eu paratoi ar gyfer ASB yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd yr ASB ar 1 Ebrill 2000 drwy Ddeddf Seneddol (Deddf Safonau Bwyd 1999). Prif bwrpas yr asiantaeth yw:

*'Diogelu iechyd y cyhoedd rhag peryglona allai godi mewn perthynas â bwyta, ac fel arall i amddiffyn buddiannau defnyddwyr mewn cysylltiad â bwyd.'*

Ar 1 Ebrill 2000, daeth y Gwasanaeth Glendid Cig (GGC) yn asiantaeth weithredol o'r ASB. Sefydlwyd y GGC yn wreiddiol ar 1 Ebrill 1995 fel asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

Cyn creu'r ASB, roedd y Grŵp Cyfun Diogelwch a Safonau Bwyd, (JFSSG) o fewn y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) a'r Adran Iechyd (DH) yn ymgymryd â llawer o'r swyddogaethau y mae'r ASB nawr yn gyfrifol amdanynt. Cafodd y JFSSG ei gynnwys oddi mewn i'r ASB, pan y'i sefydlwyd hi ar 1 Ebrill 2000.

## Nodau'r ASB

Nodau'r Asiantaeth fel y'u ceir yn ei Chytundeb Darparu Gwasanaeth yw:

1) Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau diogelwch a safonau bwyd cenedlaethol (a gallu mesur hynny).

2) Lleihau salwch drwy gyfrwng bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf, gan gynnwys lleihau lefelau Salmonela mewn cywion ieir a gynhyrchir yn y DU i'w hadwerthu o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/05.

3) Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd drwy'r canlynol:

   a) gwella gorfodi gan awdurdodau lleol;
   b) hyrwyddo defnyddio rheolaethau Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol mewn busnesau bwyd; a
   c) gwella diogelwch cig ffres drwy weithredu gan yr MHS i sicrhau bod rheolaethau gorfodi hylendid yn cael eu gorfodi'n effeithiol.

Mae Atodlen 5 o'r cyfrifon yn dangos manylion am gostau'r ASB yn y tri nod hyn.

Mae enghreifftiau o lwyddiant yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- lansio'r Ymgyrch Hylendid Bwyd ar 11 Chwefror 2002;
- cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar oruchwylio clefyd drwy gyfrwng bwyd a thueddiadau cyfredol ym mis Awst 2001;
- lansio'r wefan newydd a gwell www.food.gov.uk ym mis Rhagfyr 2001;
- cyhoeddi cyngor rhagrybuddiol ar ddatguddiad drwy'r diet i ddiocsinau o goelcerthi clwy'r Traed a'r Genau ar 25 Mai 2001, a gafodd ei groesawu;
- cyhoeddwyd adroddiad cyntaf y Tasglu E. coli ym mis Gorffennaf 2001; ac
- yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd drwy'r wlad, cynnal cyfarfodydd i randdeiliaid i hybu trafodaeth ar faterion o bwys i ddefnyddwyr a rhai lle nad oes sicrwydd ymhlith gwyddonwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys labelu bwydydd a gynhyrchwyd gan ddefnyddio technoleg GM a risg ddamcaniaethol BSE mewn defaid.

## Cynllun Strategol yr ASB

Ym mis Mai 2001, cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol ar gyfer y blynyddoedd 2001-2006. Mae'r Cynllun yn amlinellu ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd, gwybodaeth i'r cyhoedd, labelu a dewis, maetheg a diet, a gorfodi cyfraith bwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Disgrifiwn ynddo fel y byddwn yn rhoi ein gwerthoedd crai o fod yn agored ar waith. Disgrifiwn hefyd ein hatebolrwydd democrataidd ac eglurwn yr hyn a wnawn i wella ein ffordd o weithio.

Ein nod yw ennill ymddiriedaeth fel y ffynhonnell cyngor a gwybodaeth fwyaf dibynadwy ar fwyd yn y DU. Rydym am warchod a gwella diogelwch y bwyd y mae pobl yn ei fwyta, gan ei gwneud yn bosibl i bobl ddewis diet iach. Dros y cyfnod a drafodir yn ein Cynllun Strategol ein nod yw:

- lleihau salwch drwy gyfrwng bwyd o 20% drwy wella diogelwch bwyd ar hyd y gadwyn fwyd;
- helpu pobl i wella eu diet;
- hyrwyddo labelu gonest sy'n cyfleu gwybodaeth berthnasol i helpu defnyddwyr;
- hyrwyddo arfer gorau yn y diwydiant bwyd;
- gwella gorfodi cyfraith bwyd; ac
- ennill ymddiriedaeth pobl drwy'r hyn a wnawn a'n dull o'i wneud.

## Adolygiad Gweithredol a Chyllidol

Dadansoddiad y gwariant adnoddau yn ôl y corff ariannu oedd:

| | Cyllideb Ar Gael £m | Gwariant £m |
|---|---|---|
| ASB dan nawdd San Steffan (gan ymgorffori'r GGC) | 125.5 | 106.8 |
| ASB yr Alban | 5.8 | 5.4 |
| ASB Cymru | 2.0 | 2.1 |
| ASB Gogledd Iwerddon | 1.2 | 1.2 |
| **Cyfanswm ASB** | **134.5** | **115.5** |

Cost net yr ASB Cyfunol oedd £115.5m yn erbyn y nawdd o £134.5m oedd ar gael hyd at 31/03/02. Bydd y gwarged yma yn cael ei gario drosodd, gyda chytundeb y Trysorlys, i mewn i 2002/03 i gynorthwyo i fynd i'r afael â phwysau yn y dyfodol yn ymwneud â nawdd sydd eisoes wedi eu hadnabod. Mae'r ASB yn rheoli y gwariant dros Gyfnod Adolygu Gwariant Llywodraeth o dair blynedd.

Cost net y GGC a ymgorfforwyd yn ffigwr San Steffan uchod oedd £18.1m, cynnydd o £3.7m yn 2000/01. Bu gostyngiad yn yr incwm gan ddiwydiant ar ddechrau'r flwyddyn oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau. Fodd bynnag, talwyd am y gostyngiad potensial hwn drwy incwm gan MAFF ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) am waith rheoli Clwy'r Traed a'r Genau. Mae cost net gweithrediadau'r GHC wedi cynyddu am fod ffatrïoedd llai bellach yn talu ar raddfa trosiant rhagor fesul awr am arolygon. Mae costau'r GHC yr un peth, ond mae'r incwm sy'n deillio ohonynt yn llai.

Ceir eglurhad llawn, yn rhoi manylion y gwariant yn ôl y gyllideb yn Atodlen 1 o'r cyfrifon hyn. Mae Atodlenni 2 i 5 yn cynnwys y datganiad cost gweithredol, mantolen, datganiad llif arian ac adnoddau yn ôl nodau adrannol yn y drefn honno gyda manylion ychwanegol yn y nodiadau ar y cyfrifon sy'n dilyn yr atodlen.

## Strwythur a Threfniant

Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth yw'r ASB. Mae'r staff yn atebol drwy Brif Weithredwr i'r Bwrdd, yn hytrach nag yn uniongyrchol i Weinidogion. Penodwyd y Prif Weithredwr gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil o dan reolau'r Comisiwn Gwasanaeth Sifil, gyda chytundeb y Prif Weinidog. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a 12 o aelodau. Penodwyd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol Iechyd, Gweinidogion yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon. Penodwyd dau aelod o'r Bwrdd gan Weinidogion yr Alban, un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac un gan Weinidogion Gogledd Iwerddon. Mae gan yr aelodau yma gyfrifoldeb arbennig dros faterion yn ymwneud â'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Penodwyd yr wyth aelod arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol Iechyd.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr Asiantaeth, am sicrhau cyflawni dyletswyddau cyfreithiol, ac am sicrhau bod penderfyniadau a gweithrediadau yn cymryd cyngor gwyddonol i ystyriaeth yn ogystal â buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r codiad blynyddol yng nghydnabyddiaeth ariannol Aelodau'r Bwrdd yn seiliedig ar yr hyn a argymhellwyd am ddeiliaid swyddi gan y Corff Adolygu Cyflogau Staff Uwch. Codir cyflogau Staff Uwch y Gwasanaeth Sifil (SCS) yn unol â'r cyflog canolog seiliedig ar berfformiad ac adolygu.

Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol Iechyd, i Weinidogion Iechyd yn yr Alban a Chymru, ac i'r Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon

## Bwrdd yr ASB

Yn ystod y flwyddyn, roedd y canlynol yn aelodau o Fwrdd allanol yr ASB:

| | |
|---|---|
| Syr John Krebs FRS | Cadeirydd yr ASB |
| Suzi Leather | Dirprwy Gadeirydd yr ASB |

## Aelodau Eraill o'r Bwrdd:

| | |
|---|---|
| Syr John Arbuthnott | Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Alban |
| Michael Gibson | |
| Ann Hemingway | Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru |
| Michael Walker | Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Gogledd Iwerddon |
| Richard Ayre | |
| Karol Bailey | |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland, OBE | |
| Yr Athro Jeya Henry | |
| Robert Rees | |
| Yr Athro Bhupinder Sandhu | |
| Vernon Sankey | |
| Gurbux Singh | |

Ymddiswyddodd Gurbux Singh o Fwrdd yr ASB ar 8 Mai 2001. Gadawodd yr Athro Bhupinder Sandhu Fwrdd yr ASB ar 16 Chwefror 2002 ar ddiwedd cyfnod ei phenodiad.

## Tîm Rheoli'r ASB

Ymgymerir â rheolaeth dydd i ddydd yr ASB drwy dîm o swyddogion uwch. Roedd y tîm rheoli llawn ar 31 Mawrth 2001 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Geoffrey Podger | Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyfrifo |
| Jon Bell | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd |
| Pat Stewart | Cyfarwyddwr Grŵp Strategaeth ac Adnoddau Corfforaethol a Phrif Swyddog Cyllid a'r Sefydliad |
| David Statham | Cyfarwyddwr Grŵp Safonau Bwyd a Gorfodaeth |
| Neil Martinson | Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| George Paterson | Cyfarwyddwr ASB yr Alban |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr ASB Cymru |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr ASB Gogledd Iwerddon |

Prif Weithredwr y Gwasanaeth Glendid Cig ar 31 Mawrth 2002 oedd Chris Lawson. Mae Prif Weithredwr y GGC hefyd yn aelod o dîm rheoli'r ASB.

Mae'r holl uwch swyddogion wedi eu hapwyntio o dan y rheolau sydd wedi eu gosod gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Datgelir manylion cyflogau a phensiwn y Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn Nodyn 3.

## Pwyllgorau Ymgynghorol yr Asiantaeth

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr Asiantaeth, mae gan yr Asiantaeth bwyllgorau ymgynghorol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau'n gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol i'r ASB. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr ASB yn ôl statud i gymryd eu cyngor i ystyriaeth wrth eu gwaith. Rhestrir isod Aelodau'r Pwyllgor:

**Yr Alban – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Syr John Arbuthnott (Cadeirydd) | Michael Gibson (Dirprwy Gadeirydd) |
| Yr Athro William Reilly | Anne Campbell |
| Yr Athro Hugh Pennington | Dr Marnie Somerville |
| Wilma Odell | Ross MacDonald |
| Yr Athro Philip Thomas | William Davidson |
| Alexandra Miller | |

**Cymru – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

| | |
|---|---|
| Ann Hemingway (Cadeirydd) | Dr Robert Bell |
| Dr David Casemore | Gilli Davies |
| Yr Athro Margaret Griffiths | Yr Athro James Parry |
| Mrs Dilwen Philips | Yr Athro Robert Pickard |
| David Smith | |

**Gogledd Iwerddon – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

| | |
|---|---|
| Michael Walker (Cadeirydd) | Patricia Grace McCusker |
| Professor David McDowell | Maria McGuinness |
| David Mark | William Taylor |
| David Collins | Samuel Miskelly |
| David Stewart | Vinod Tohani |

## Cyllid yr ASB

Mae'r Asiantaeth yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth. Cyllidir gwaith Pencadlys yr Asiantaeth a'r GGC ar draws Prydain Fawr drwy gyflenwad wedi ei seilio ar adnoddau. Cyllidir costau'r ASB yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon drwy'r awdurdod datganoledig perthnasol.

## Cyfrifoldebau Penodol

Mae gan yr Asiantaeth gylch gorchwyl eang sy'n cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd, darparu gwybodaeth a chyngor, sicrhau bod cyfraith bwyd yn effeithiol ac yn cael ei gorfodi, cydlynu ymchwil a datblygu a goruchwylio, datblygu polisi a chynrychioli'r DU ar faterion bwyd yn Ewrop.

Wrth ymgymryd â'r dyletswyddau hyn, mae'r ASB yn ceisio gweithredu yn ôl tair egwyddor lywodraethol:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf;
- bod yn agored a hygyrch; a
- bod yn llais annibynnol.

Mae gwaith yr ASB yn ymwneud â diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd, gan gynnwys:

- difwynwyr bwyd – diffinio lefelau goddefadwy, rheoli risg a pholisi;
- ychwanegion bwyd, defnyddiau cyswllt, a bwydydd newydd – gan gynnwys asesu a goruchwylio diogelwch;
- diogelwch microbiolegol a hylendid bwyd gan gynnwys darparu cyngor ar reoli clefydau drwy gyfrwng bwyd ac atal salwch drwy gyfrwng bwyd;
- arolygu a gorfodi i ddiogelu defnyddwyr;
- gorfodi ar lefel awdurdod lleol – datblygu polisi, ac archwilio a gwella gorfodi;
- plaleiddiaid, meddyginiaethau milfeddygol a phorthiant anifeiliaid – asesu goblygiadau i ddiogelwch bwyd;
- labelu a safonau bwyd – datblygu polisi, gwella dewis defnyddwyr a chynrychioli'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd; a
- maetheg – darparu cyngor a chyfarwyddyd ar gyfansoddiad maethol bwyd, a darparu gwybodaeth am ddiet iach, cytbwys, er mwyn hybu a diogelu iechyd y cyhoedd. Rydym yn cydweithio'n agos ag Adrannau Iechyd, cyrff iechyd ac addysg cyhoeddus ar draws y DU er mwyn sicrhau lledaenu gwybodaeth am fwyta'n iach mor eang â phosibl i bob rhan o'r gymuned.

## Y Gwasanaeth Hylendid Cig

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (GHC) yn asiantaeth weithredol i'r ASB. Nod y GGC yw gwarchod iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid wrth eu lladd drwy weithredu deddfwriaeth yn effeithiol. Ei brif swyddogaethau yw darparu gwasanaeth arolygu cig i bob ffatri gig gofrestredig, a sicrhau'r safonau uchaf sy'n ofynnol dan y gyfraith o ran cynhyrchu cig a lles anifeiliaid wrth eu lladd. Prif weithgareddau'r GGC yw:

- gorfodi rheolau hylendid mewn adeiladau cig ffres trwyddedig;
- darparu gwasanaethau arolygu cig a rheolau ar farciau iechyd mewn adeiladau cig coch a chig dofednod a bwyd gwyllt trwyddedig;
- gorfodi rheolau hylendid mewn cynnyrch cig, briwgig a ffatrïoedd paratoi cig, sy'n rhannu'r un adeiladau â lladd-dai trwyddedig; a
- gorfodi rheolaethau, mewn adeiladau cig ffres trwyddedig, ar SRM a sgîl-gynnyrch cig arall, a rheolaethau yn gwahardd gwerthu cig gwartheg dros 30 mis oed.

Mae cyfrifon adnoddau cyfunol yr Asiantaeth yn cynnwys canlyniadau'r GHC. Mae'r GHC wedi paratoi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun sy'n rhoi rhagor o fanylion.

## Cysylltiadau â Staff

Mae'r ASB yn rhoi cryn bwys ar gynnwys yr holl staff yn ei gwaith. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom symud i'n pencadlys newydd yng nghanol Llundain, ar ôl gweithio o dair swyddfa wahanol. Bydd yr uwch reolwyr yn cyfarfod yn ffurfiol â chynrychiolwyr undebau llafur yn rheolaidd. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd agored rheolaidd y mae croeso ac anogaeth i'r staff eu mynychu. Dosberthir cylchlythyr mewnol, "FSA Matters", i bob aelod o staff bob wythnos, yn ogystal â "FSA News" bob deufis sy'n rhoi mwy o fanylion i staff am weithgareddau'r ASB. Mae gan staff y GGC eu cylchlythyr chwarterol eu hunain, "MHS Update".

## Pensiynau

Mae gweithwyr yr ASB yn weision sifil ac yn aelodau o Gynllun Pensiwn Prif Weithwyr y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun pensiwn o eiddo Llywodraeth ganolog a heb gronfeydd yw hwn. Telir drwy'r Bleidlais Bensiwn.

Nid yw Bwrdd yr ASB yn weision sifil ac felly nid ydynt yn aelodau o'r PCSPS. Fodd bynnag, mae gan rai Aelodau o'r Bwrdd drefniadau pensiwn tebyg yn annibynnol o'r PCSPS.

Mae gan y GGC ddau gynllun pensiwn ar wahân. Mae mwyafrif y staff yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), cynllun budd-daliadau diffiniedig a gyllidir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain (LPFA). Mae gweithwyr eraill y GGC yn aelodau o'r PCSPS.

## Cyfle Cyfartal

Nod yr Asiantaeth yw bod yn gyflogwr modern a theg, ac mae'n cydnabod ac yn annog potensial gweithlu amrywiol. Mae'r Asiantaeth wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac yn ceisio sicrhau y dylai pawb sy'n gweithio i'r Asiantaeth neu gyda hi gael eu trin yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, ni wahaniaethir yn erbyn gweithiwr nac ymgeisydd am swydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar sail pethau megis hil, rhyw, statws priodasol, cenedligrwydd, ethnigrwydd, lliw, crefydd, credoau gwleidyddol, anabledd, oedran, tuedd rywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, patrwm gweithio eu safle o fewn y sefydliad. Mae'r ASB yn gweithredu cynllun gwarantu cyfweliad i bobl ag anableddau (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995) sy'n cyrraedd y meini prawf gofynnol lleiaf ar gyfer y swydd.

## Polisi Talu i Gyflenwyr

Polisi'r Llywodraeth yw y dylai pob adran ac asiantaeth dalu pob anfoneb nad oes anghydfod yn ei chylch o fewn 30 diwrnod wedi ei derbyn, neu yn ôl telerau'r contract y cytunwyd arnynt os nodir yn wahanol. Yn ystod y flwyddyn talwyd 94% o anfonebau mewn pryd.

## Adroddiad Adrannol

Caed yn Adroddiad Adrannol yr ASB yng Ngwanwyn 2002 amcangyfrif adnoddau'r ASB ar gyfer 2001/02 ynghyd â'r tablau craidd a bennwyd gan y Trysorlys. Soniodd testun yr Adroddiad am strwythur, trefniant, diben a chyfrifoldebau penodol yr Asiantaeth. Rhoddodd fanylion hefyd am gynnydd yr ASB o ran cyrraedd ei thargedau Cytundeb Darparu Gwasanaethau, ac ateb gofynion Moderneiddio Llywodraeth.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Goruchwyliwr ac Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 5 o Ddeddf y Trysorlys a'r Adrannau Archwilio 1921. Ceir y tystysgrif archwiliad ar dudalennau 45 a 46.

## Digwyddiadau o bwys oddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Dim.

Geoffrey Podger
Prif Weithredwr
28 Tachwedd 2002

## Datganiad o gyfrifoldebau'r

# swyddog cyfrifo

1. O dan Ddeddf Cyfrifon ac Adnoddau'r Llywodraeth 2000, a'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon am bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon sy'n rhoi manylion yr adnoddau a gafwyd, sy'n cael eu dal neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn.

2. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cynnydd ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran, y cynnyrch adnoddau net, adnoddau sy'n berthnasol i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

3. Mae Trysorlys EM wedi apwyntio'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifeg yr Adran gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi cyfrifon yr Adran a'u trosglwyddo i'r Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, ac yn arbennig i:
   a. arsylwi ar y gofynion cyfrifeg a datguddiad perthnasol, a rhoi mewn lle bolisïau cyfrifo addas yn gyson;
   b. rhoi barn ac amcangyfrif ar sail rhesymol;
   c. nodi os yw safonau cyfrifeg cymwys, fel a nodir yn y Llawlyfr Cyfrifeg Adnoddau, wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau o bwys yn y cyfrifon;
   ch. darparu'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. Yn ychwanegol, mae Trysorlys EM wedi penodi Swyddog Cyfrifo Asiantaeth (Chris Lawson) i fod yn gyfrifol am y rhannau hynny o gyfrifon yr adran sy'n ymwneud ag adnoddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig a'r asedau cysylltiol, rhwymedigaethau a llifau arian. Nid yw'r penodiad yma yn tynnu oddi wrth gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo ar gyfer cyfrifon yr Adran..

6. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo (yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra y cyllid cyhoeddus, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Adran) eu nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo a gyflwynwyd gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yng Nghyfrifeg y Llywodraeth. O dan delerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifo, nodir ar bapur y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifo'r Adran a Swyddog Cyfrifo Asiantaeth GHC, ynghyd â'u cyfrifoldebau penodol.

**Geoffrey Podger**
**Swyddog Cyfrifo**
**28 Tachwedd 2002**

## Datganiad rheolaeth mewnol ar gyfer

# cyfrifon cyfunol yr ASB

Fel Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system rheolaeth mewnol gadarn sy'n cefnogi cyrhaeddiad polisïau trefniadol, nodau ac amcanion fel a osodwyd gan Fwrdd yr ASB a'r Ddeddf Safonau Bwyd, tra'n gwarchod yr arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi o fewn Cyfrifeg Llywodraeth.

Mae'r system rheolaeth mewnol wedi ei gynllunio i reoli yn hytrach na gwneud i ffwrdd â'r perygl o fethu â chwrdd â pholisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

Mae'r system o reolaeth mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus o adnabod y prif beryglon rhag gallu cwrdd â pholisïau trefniadol, nodau ac amcanion, gwerthuso natur a maint y peryglon hynny a'u rheoli yn effeithlon, effeithiol ac yn economaidd. Disgwyliaf gael y broses hon yn ei lle a bod wedi gweithredu ar yr holl Gyfarwyddyd Trysorlys erbyn Mawrth 2003. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i osod y prosesau yn llawn, y mae'r ASB wedi cytuno y dylid eu sefydlu, a'u cryfhau.

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd eisoes lawer o'r elfennau allweddol yn eu lle o ran system rheolaeth mewnol effeithiol yn cynnwys:

- cyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU sy'n gweithredu fel "Bwrdd Rheoli" yr ASB;
- trefniadau archwiliad mewnol, yn cynnwys rhaglen archwiliad wedi ei seilio ar risg yn gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cyd-fynd â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd drwy archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol o addasrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth mewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- pwyllgor Archwiliad a Risg, sy'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn gyda'r Cadeirydd yn adrodd i Fwrdd yr ASB;
- cynllun strategol sy'n gosod allan prif nodau ac amcanion yr ASB am y 5 mlynedd nesaf;
- proses cynllunio busnes ac ariannol sy'n llifo drwy'r sefydliad (cynlluniau busnes corfforaethol a lleol) ac sy'n benodol yn cysylltu amcanion busnes, dyraniad adnoddau a'r ystyriaeth o risg busnes;
- rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth i'r broses cynllunio busnes sy'n cynnwys rheolaeth risg;
- adroddiadau perfformiad rheolaidd i gyfarfodydd misol y Prif Weithredwr ac i Fwrdd yr ASB ar gyfer cynllunio ariannol a busnes;
- cofrestr o risgiau strategol sy'n gynnwys cyfres gynhwysfawr o gynlluniau triniaeth gyda pherchnogaeth glir o'r peryglon a'r gweithredu, a dyddiadau wedi eu cytuno arnynt ar gyfer ymgymryd â'r mater/adolygu;
- adolygiad ffurfiol rheolaidd (chwarterol) o'r gofrestr risg yng nghyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU; ac
- adroddiad cynnydd rheolaidd (bob 6 mis) ar reoliadau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i Fwrdd yr ASB.

Mae tîm rheoli'r ASB wedi ymgorffori rheolaeth risg a rheoliadau mewnol i mewn i agenda fusnes y mudiad fel eu bod yn cael eu hadolygu a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae rheolaeth risg hefyd wedi ei ymgorffori yn llawnach i mewn i'r broses cynllunio busnes fel modd o sicrhau ymwybyddiaeth risg o fewn y sefydliad. Mae'r broses gynllunio wedi ei chefnogi yn llawn drwy raglen o gefnogaeth wedi ei thargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad.

Yn ychwanegol i'r camau a nodwyd uchod, yn y flwyddyn sydd i ddod mae'r ASB yn bwriadu:

- cyhoeddi datganiad polisi risg a llawlyfr rheolaeth risg yn gosod allan y trefniadau sydd mewn lle o fewn y sefydliad i reoli risg busnes, yn cynnwys y broses ar gyfer cynnydd risg a chyfrifoldebau unigolion drwy'r sefydliad;
- parhau i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant wedi ei dargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad yn cynnwys swyddfeydd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a'r GHC; a
- chael sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar y rheoliadau mewnol a chael cynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r GHC.

Hysbysir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr ASB a'r GHC sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

**Geoffrey Podger**
**Prif Weithredwr**
**28 Tachwedd 2002**



# Tystysgrif archwiliad

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 6 i 11 o dan Atodlen 4(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 7 i 9.

## Priod Gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 3, y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl gofynion y Ddeddf ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Y Swyddog Cyfrifo sydd hefyd yn gyfrifol am gynnwys arall y cyfrifon. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar pa un a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi darlun teg o'r gweithgareddau hynny gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a gafodd ei baratoi'n gywir yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban yn ôl gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant ym mhob ystyr berthnasol ei ddefnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cendlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir yn fy marn i, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall yn y Cyfrifon, ac yn ystyried pa un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 4 a 5 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth ag arweiniad y Trysorlys, sef Rheolaeth Gorfforaethol a'r Datganiad ar y System o Reoli Arian yn Fewnol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth ar sail prawf sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiad cyfrifon. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifo wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth, ac a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ym mhob ystyr berthnasol, wedi ei ddefnyddio i'r diben a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiad cyfrifon.

## Tystysgrif archwiliad

### Barn

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiad cyfrifon ddarlun teg o grynodeb o'r canlyniadau adnoddau, y gost adnoddau net am y flwyddyn ariannol ac o ofynion cyllid arian gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidwyd gan Senedd yr Alban am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth a chawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl gofynion y Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a chydymffurfia'r trafodion ariannol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol

15 Ionawr 2003

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP



Asiantaeth Safonau Bwyd

## Atodlen 1

### Cyfrifon Cyfunol 2001/2002

Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | | 2001/02 | | | | | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif | | | Cynnyrch | | | Cyfanswm Cynnyrch Net o'i gymharu ag Arbediad Tybiedig/(-yr hyn dros ben) | Cynnyrch y Flwyddyn Flaenorol |
| | | Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm Net | | |
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau | | | | | | | | | |
| Tŷ'r Cyffredin | | 180,735 | (55,270) | 125,465 | 149,055 | (42,255) | 106,800 | 18,665 | 78,409 |
| Senedd yr Alban | | 5,805 | - | 5,805 | 5,410 | - | 5,410 | 395 | 2,978 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | | 2,029 | - | 2,029 | 2,041 | - | 2,041 | (12) | 1,454 |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | | 1,200 | - | 1,200 | 1,245 | - | 1,245 | (45) | 902 |
| **Cyfanswm adnoddau** | | **189,769** | **(55,270)** | **134,499** | **157,751** | **(42,255)** | **115,496** | **19,003** | **83,743** |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | | | **132,343** | | | **102,039** | | **83,836** |
| **Cysoniad Adnoddau i'r Gofyniad Arian Parod** | **Nodyn** | | | | | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| **Cyfanswm Adnoddau Net** | | | | **134,499** | | | **115,496** | **19,003** | **83,743** |
| Cyfalaf: | | | | | | | | | |
| Pryniant asedau sefydlog: pryniant arian parod | | | | 1,201 | | | 1,611 | (410) | 6,443 |
| Buddsoddiadau | | | | | | | | | |
| **A-yn-A heb fod yn weithredol:** | | | | - | | | - | - | - |
| Cymwysiadau croniadau: | | | | | | | | | |
| Eitemau heb fod yn arian parod | | | | (3,357) | | | (2,983) | 374 | (2,569) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithiol heblaw am arian parod | 11 | | | | | | (12,586) | 12,586 | (3,809) |
| Y defnydd o ddarpariaeth | 15 | | | - | | | 501 | (501) | 28 |
| **Gofynion Arian Parod Net (Atodlen 4)** | | | | **132,343** | | | **102,039** | **30,304** | **83,836** |

Esboniad ar yr amrywiad rhwng yr Amcangyfrif a'r cynnyrch (cyfanswm adnoddau net):

(i) Roedd gwariant adnoddau Pencadlys yr ASB ar gyfer y flwyddyn o gwmpas £16m yn llai na'r cais am adnoddau. Mae'r ASB yn rheoli ei gwariant dros gyfnod Adolygu Gwariant y Llywodraeth o 3 blynedd. Bydd tanwariant 2001/02, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cael ei gario drosodd i 2002/03 i gyllido gweithgaredd cynlluniedig parhaus yr ASB.

(ii) Roedd cost net gweithrediadau'r GHC tua £2m yn llai na'r cais am adnoddau. Er bod y gwariant gros yn fwy na'r gyllideb (yn bennaf oherwydd gwaith rheoli Clwy'r Traed a'r Genau), roedd yr incwm cysylltiol yn yr un modd yn fwy.

Esboniad ar yr amrywiad rhwng Amcangyfrif gofyniad arian parod net a'r cynnyrch (gofyniad arian parod net):

gweler (i) a (ii) uchod

Addasiadau cyfnod blaenorol

i) Mae costau ag incwm y Gwasanaeth Hylendid Cig nawr yn cael eu hystyried fel gweinyddol yn hytrach na gwariant rhaglen. Mae ffigyrau 2001/02 wedi eu hail-nodi i adlewyrchu'r newid yma yn y polisi cyfrifo.

**Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol**

Ni ildiwyd unrhyw warged a ddosbarthwyd mewn cymorth nac unrhyw dderbynebau ychwanegol y Gronfa Gyfunol sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

**Gwir gynnyrch – adnoddau:**
Cais am adnoddau: Gwir gyfanswm o gynnyrch adnoddau net £115,496,293.11. Gwir gyfanswm mewn arbedion mewn adnoddau dros Amcangyfrif £19,002,706.89

**Gwir gynnyrch – arian parod:**
Gofynion arian parod net: Cynnyrch gofynion net £102,038,526.95 sy'n £30,304,473.05 yn llai na'r Amcangyfrif.

Asiantaeth Safonau Bwyd

# Atodlen 2

## Datganiad Cost Gweithredu 2001/02

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | £000oedd | 2001/02 £000oedd | 2000/01 (wedi ei newid) £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddu** | | | | |
| Costau Staff | 2 | 60,876 | | 54,560 |
| Costau gweinyddu eraill | 4 | 55,760 | | 41,658 |
| **Costau Gweinyddu Gros** | | | **116,636** | 96,218 |
| Incwm Gweithredol | 6 | | **(40,098)** | (45,376) |
| **Costau Gweinyddu Net** | | | **76,538** | 50,842 |
| | | | | |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| Gwariant | 5 | 41,116 | | 35,573 |
| llai: incwm | 6 | (2,158) | | (2,672) |
| | | | | |
| **Costau Net y Rhaglen** | 5 | | **38,958** | 32,901 |
| | | | | |
| **Costau Gweithredu Net** | | | **115,496** | 83,743 |
| | | | | |
| **Cynnyrch Adnoddau Net** | | | **115,496** | 83,743 |

Mae'r holl weithgareddau yn weithgareddau parhaus

## Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig

Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | 31 Mawrth 2002 £000oedd | 31 Mawrth 2001 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Enillion (colledion) net wrth adbrisio asedau sefydlog | 17 | 40 | 5 |
| Addasiad y Flwyddyn Flaenorol | | (22) | - |
| **Cyfanswm enillion (colledion) cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn** | | **18** | **5** |



Asiantaeth Safonau Bwyd

# Atodlen 3

## Mantolen

fel yr oedd ar y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | £000oedd | 31 Mawrth 2002 £000oedd | 31 Mawrth 2001 (wedi ei newid) £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | |
| Asedau Anghyffyrddadwy | 9 | 318 | | 229 |
| Asedau Cyffyrddadwy | 10 | 7,156 | | 7,222 |
| | | | 7,474 | **7,451** |
| | | | | |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | |
| Dyledwyr | 12 | 12,668 | | 14,695 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 13 | 8,647 | | 7,066 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **21,315** | | **21,761** |
| | | | | |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)** | 14 | (28,714) | | (20,225) |
| | | | | |
| **Asedau cyfredol net** | | | (7,399) | 1,536 |
| | | | **75** | **8,987** |
| | | | | |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn)** | | | (3,663) | |
| | | | | |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 15 | | (561) | (943) |
| | | | **(4,149)** | **8,044** |
| | | | | |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 16 | | (4,210) | 8,023 |
| Cronfa Adbrisio Wrth Gefn | 17 | | 61 | 21 |
| | | | **(4,149)** | **8,044** |

**Geoffrey Podger**
**Swyddog Cyfrifo**
**28 Tachwedd 2002**

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 4

## Datganiad llif arian

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol (a) | | (100,428) | (77,393) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol (b) | | (1,611) | (6,443) |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (c) | | 96,591 | 83,303 |
| Ariannu o'r Awdurdodau Datganoledig | | 7,029 | 4,435 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod | 13 | 1,581 | 3,902 |

Nodiadau:
a Gweler y tabl isod sy'n cysoni costau gweithredol i'r llifau arian gweithredol.
b Gweler y tabl isod sy'n rhoi dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol.
c Gweler y tabl isod sy'n rhoi dadansoddiad o gyllido a chysoni i'r gofyniad arian parod net

### Cysoni cost gweithredol i'r llifau arian gweithredol

| | Nodyn | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Cost Gweithredol Net | | 115,496 | 83,743 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod | | (2,983) | (2,569) |
| Addasiadau ar gyfer symudiadau i'r cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod | 11 | (12,586) | (3,809) |
| Defnydd o ddarpariaethau | | 501 | 28 |
| All-lif/(mewn-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredol | | 100,428 | 77,393 |

### Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | Nodyn | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog | 9+10 | 1,683 | 6,525 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | | (72) | (82) |
| All-lif/(mewn-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddiadol | | 1,611 | 6,443 |

### Dadansoddiad o'r broses ariannu

| | Nodyn | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) | | 96,591 | 83,303 |
| O'r Awdurdodau Datganoledig | | 7,029 | 4,435 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn arian parod | | (1,581) | (3,902) |
| Gofyniad arian parod net (Atodlen 1) | | 102,039 | 83,836 |



*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 5

## Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | 2001/02 | | | 2000/01 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd Gros | £000oedd Incwm | £000oedd Net | £000oedd Gros | £000oedd Incwm | £000oedd Net |
| **Amcan 1** | | | | | | |
| Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau safonau a Diogelwch Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | 23,897 | (177) | 23,720 | 23,434 | (397) | 23,037 |
| **Amcan 2** | | | | | | |
| Lleihau salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys lleihau Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/2005 | 31,316 | (1,473) | 29,843 | 38,910 | (2,305) | 36,605 |
| **Amcan 3** | | | | | | |
| Diogelu defnyddwyr drwy well safonau a diogelwch bwyd | 102,538 | (40,605) | 61,933 | 69,447 | (45,346) | 24,101 |
| | **157,751** | **(42,255)** | **115,496** | **131,791** | **(48,048)** | **83,743** |

# Nodiadau ar y cyfrifon

nodiadau

**1 Polisïau Cyfrifo**

**1.1 Sail y Gwaith Paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau a gynhyrchwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r Polisïau Cyfrifo a gynhwyswyd yn y Canllaw yn dilyn arfer cyfrifo a dderbynir yn y DU yn gyffredinol ar gyfer cwmnïau (UK GAAP) i'r fath raddau â sydd yn ystyrlon ac yn addas i'r sector gyhoeddus. Lle mae'r Canllaw yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo mwyaf addas i sefyllfa benodol yr adran er mwyn rhoi barn gwirioneddol a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) isod. Fe'u cyflwynwyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

**1.2 Confensiwn Cyfrifo**

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd drwy adbrisio rhai asedau a stociau sefydlog, lle y bo hynny'n briodol, ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at y costau cyfredol.

**1.3 Sail y Cysoni**

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cysoniad yr ASB craidd a'i hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (GHC). Yn ogystal, mae cyfrifon cyfunol yr Asiantaeth yn ymgorffori canlyniadau gan swyddfeydd datganoledig yr ASB yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Ariennir y rhain yn uniongyrchol gan Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iweddon yn y drefn honno. Mae'r ASB craidd a'r GHC yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain.

**1.4 Asedau Sefydlog Anghyffyrddadwy**

Caiff trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol gyda chost prynu dros £2,000 (yn cynnwys TAW anadferadwy a chludo) eu cyfalafu fel asedau sefydlog anghyffyrddadwy. Caiff yr holl asedau sefydlog anghyffyrddadwy eu hadbrisio bob 1 Ebrill gan ddefnyddio mynegeion perthnasol.

**1.5 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy**

Caiff asedau sefydlog cyffyrddadwy unigol neu mewn grwpiau a brynir ar gost sydd dros £2,000 (yn cynnwys TAW anadferadwy a chludo) eu cyfalafu a'u hadbrisio bob 1af Ebrill gan ddefnyddio mynegeion priodol. Caiff yr holl asedau sefydlog cyffyrddadwy eu newid i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn. Nid yw'r ASB ar hyn o bryd yn berchen ar unrhyw dir nac adeiladau. Caiff asedau gweithredol sydd heb fod yn eiddo eu hadbrisio i werth y farchnad agored lle y bo hynny ar gael, neu ar sail cost dibrisio rhywbeth a gaiff ei gyfnewid lle nad oes modd cael gwerth y farchnad. Fel arfer, defnyddir mynegeion wedi eu cyhoeddi i'r categori o'r ased ar gyfer amcangyfrif gwerth.

**1.6 Dibrisiant**

Ni fydd tir nac asedau rhydd-ddaliadol yn cael eu dibrisio yn ystod gwaith adeiladu. Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddiystyru gwerth asedau sefydlog cyffyrddadwy ac anghyffyrddadwy drwy gymhwyso dull llinell syth yn ystod y bywydau defnyddiol a amcangyfrifir:

| Asedau cyffyrddadwy | |
|---|---|
| Offer cyfrifiadurol | 4-6 blynedd |
| Offer swyddfa | 7 mlynedd |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cerbydau | 4 blynedd |

| Asedau anghyffyrddadwy: | |
|---|---|
| Meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau meddalwedd | 5 mlynedd |

**1.7 Stoc a Gwaith Cyfredol**

Caiff nwyddau traul eu prisio yn ôl cost, os ydynt ar gyfer defnydd cyfredol fel arall cânt eu prisio yn ôl gwerth net gwireddadwy.

**1.8 Ymchwil a Datblygiad**

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar ddatblygiad mewn cyswllt â chynnyrch neu wasanaeth sydd i'w gyflenwi ar sail derbyn arian yn ôl yn llawn ei gyfalafu os yw'n cwrdd â'r meini prawf hynny a nodir yn SSAP 13. Caiff gwariant datblygu arall ei gyfalafu os yw'n cwrdd â'r meini prawf a nodir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau sydd wedi eu haddasu o'r SSAP 13 i gymryd i ystyriaeth y cynnwys sydd ddim ar gyfer elw. Caiff gwariant nad yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ei drin fel cost gweithredu yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Bydd asedau sefydlog sydd wedi eu cael ar gyfer defnydd o fewn ymchwil a datblygiad eu dibrisio dros gyfnod bywyd y prosiect dan sylw, neu yn ôl categori'r ased os yw'r ased i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith cynhyrchu. Ymdrinwyd â gwariant ar ymchwil a datblygiad fel cost gweithredu yn y flwyddyn yr oedd yn berthnasol.

**1.9 Incwm Gweithredol**

Mae incwm gweithredol yn incwm sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredol yr ASB. Mae incwm yn cynrychioli cyfanswm yr incwm a gronnwyd ar gyfer y flwyddyn, ac fe'i dangosir yn glir o Dreth Ar Werth. Daw incwm yr ASB o archwilio a samplu llaeth a llaethdai ac o archwiliadau ymbelydrol. Mae'n cynnwys incwm a ddosbarthwyd mewn cymorth ac incwm i'r Gronfa Gyfunol, y cytunodd Trysorlys Ei Mawrhydi y dylid ei thrin fel incwm gweithredol. Yn ogystal, mae gan y GHC incwm o archwiliadau hylendid cig ac o sefydliadau'r llywodraeth (rheoliadau Deunydd Risg Benodol yn bennaf).

**1.10 Gwariant Gweinyddol a Gwariant Rhaglen**

Dadansoddir y datganiad cost gweithredol rhwng y costau gweithredol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu'r gost o redeg yr ASB fel y'i nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd â'r incwm gweithredu cysylltiedig. Dadansoddir incwm yn y nodiadau sy'n caniatáu iddo, o dan y gyfundrefn, gael ei wrthbwyso yn erbyn costau gweinyddol gros wrth bennu'r canlyniad yn erbyn yr uchafswm cost gweinyddol, a'r costau nad ydynt yn rhai gweinyddol. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu'r costau "nad ydynt yn rhai gweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr Asiantaeth".

Dylid nodi yr ystyrir fod holl wariant y Gwasanaeth Hylendid Cig, gan gynnwys costau staffio a chostau gweinyddol, yn gostau rhaglen at ddibenion cyfrifo adnoddau.

**1.11 Cost Cyfalaf**

Caiff tâl sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan yr ASB ei gynnwys yn y costau gweithredol. Cyfrifir y tâl hwn ar gyfradd safonol y Llywodraeth sef 6% ar bob ased llai rhwymedigaethau ac eithrio balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-Feistr Cyffredinol (PMG) a rhwymedigaethau a ildiwyd i'r gronfa gyfunol. Cyfrifir y tâl ar sail flynyddol.

**1.12 Arian Tramor**

Caiff eitemau incwm a gwariant eu trosi'n £ Sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafod. Trosir mantolenni ar gyfradd gyfnewid dyddiad y fantolen neu ar gyfradd a gontractiwyd os yw hynny'n berthnasol. Nodir unrhyw enillion neu golledion cyfnewid yn y datganiad costau gweithredol.

**1.13 Pensiynau**

Caiff gweithwyr presennol a blaenorol yr ASB eu cwmpasu gan ddarpariaeth Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun buddiannau diffiniedig ac yn anghyfrannol a heb ei ariannu. Mae'r adran yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaethau gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS symiau a gyfrifwyd ar sail cronedig. Mae taliadau buddiannau i'r dyfodol yn gost i'r PCSPS.

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr y GHC yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain. Mae gweithwyr eraill y GHC yn aelodau o'r PCSPS.

**1.14 Costau Ymddeol yn Gynnar**

Mae'n rhaid i'r ASB gwrdd â chostau buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn cysylltiad â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r adran wedi darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan gyhoeddwyd y cynllun ymddeol yn gynnar a chynlluniau tebyg y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt.

**1.15 Prydlesau Gweithredu**

Nodir cost y prydlesau gweithredu yn y datganiad cost weithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

**1.16 Costau Archwilio**

Cynhwysir tâl sy'n adlewyrchu cost yr archwiliad yn y costau gweithredol. Archwilir yr ASB gan y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn, ond caiff tâl tybiannol sy'n cynrychioli cost yr archwiliad ei gynnwys yn y cyfrifon.

**1.17 Treth Ar Werth**

Dangosir swm clir y Dreth Ar Werth (TAW) sy'n ddyledus i'r Tollau Tramor a Chartref neu ganddynt fel dyledwr neu gredydwr ar y fantolen. Codir TAW anadferadwy i'r datganiad cost gweithredol, neu os daw i law wrth brynu ased sefydlog caiff ei gyfalafu yng nghost yr ased.

**1.18 Darpariaethau a Rhwymedigaethau wrth Gefn**

Cydnabyddir darpariaethau yn y cyfrifon dan yr amodau a ganlyn:

a) pan fo rhwymedigaeth gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;
b) pan fo'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo rhwymedigaeth;
c) pan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ar y swm.

Datgelir trefniadau wrth gefn yn y nodiadau i'r cyfrifon oni fydd y posibilrwydd o drosglwyddo mewn setliad yn annhebygol.

**1.19 Newid yn y polisi cyfrifo ac addasiadau'r flwyddyn flaenorol**

Asiantaeth weithredol o'r ASB yw'r GHC. Yng nghyfrifon 2000/01 cynhwyswyd y GHC yn flaenorol fel gwariant rhaglen. Mae'r polisi hwn wedi cael ei adolygu, ac mae'r GHC nawr wedi ei gyfuno i mewn i gyfrifon yr ASB ar sail cost gweinyddol. Mae ffigyrau 2000/01 wedi eu newid i gymryd i ystyriaeth y newid yn y polisi cyfrifo.

Mae nifer o staff sy'n gweithio i'r ASB wedi eu secondio oddi wrth gyflogwyr eraill. Yng nghyfrifon 2000/01 cynhwyswyd y costau yma o fewn costau staff. Mae canllawiau diweddar y Trysorlys yn mynnu fod cost holl secondio mewnol yn cael eu cofnodi fel "costau gweinyddol eraill" o fewn y datganiad cost gweithredol. Mae'r dosbarthiad wedi ei fabwysiadu ar gyfer y cyfrifon yma, ac mae'r ffigyrau cymharol y

flwyddyn flaenorol wedi eu newid hefyd i sicrhau cysondeb. Nid oes unrhyw effaith ar gostau gweithredol net y flwyddyn flaenorol na'r gofyniad arian parod net o ganlyniad i'r newid hwn.

Er mwyn cyd-fynd â'r polisiau cyfrifo a gynhwysir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau, mae'r ASB wedi cynnwys am rwymedigaeth ar gyfer symiau a gymerwyd o'r Gronfa Gyfunol ond na wariwyd erbyn diwedd y flwyddyn. Mae ffigyrau cymharol y flwyddyn flaenorol wedi eu newid i sicrhau cysondeb polisi cyfrifo rhwng blynyddoedd. Nid oes unrhyw effaith ar y gost weithredol net o ganlyniad i'r newid yn y polisi cyfrifo.

# 2 costau staff

a) Mae costau staff ar gyfer Blwyddyn gyntaf 2001/02 yn cynnwys:
ASB (Pencadlys) a Swyddfeydd Datganoledig (DOs)

| | | | | | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ASB (Pencadlys) San Steffan | | | | Swyddfeydd | ASB (Pencadlys) |
| | Staff | Bwrdd | Is-gyfanswm | | Datganoledig | Cyfanswm |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cyflogau a Thaliadau | 15,119 | 313 | 15,432 | 2,157 | 17,589 | 14,710 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 1,115 | 28 | 1,143 | 232 | 1,375 | 1,147 |
| Costau Pensiwn Eraill | 2,099 | 34 | 2,133 | 218 | 2,351 | 2,064 |
| | **18,333** | **375** | **18,708** | **2,607** | **21,315** | **17,921** |

Gwasanaeth Hylendid Cig

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | GHC | GHC |
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000oedd | £000oedd |
| Cyflogau a Thaliadau | 35,906 | 33,027 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 2,798 | 2,402 |
| Costau Pensiwn Eraill | 3,404 | 3,096 |
| | **42,108** | **38,525** |

Mae'r wybodaeth cost staff uchod yn cynnwys costau staff sy'n gyflogedig ac wedi eu secondio i'r ASB o fudiadau eraill. Caiff staff sydd wedi eu secondio eu hystyried fel gwariant gweinyddol arall i'r cyfrifon hyn, ond ni chynhwysir hwy yn y dadansoddiad costau staff yn nodyn 2.

Cynllun diffiniedig aml-gyflogwyr sydd heb ei ariannu yw'r PCSPS ond nid yw'r ASB yn medru adnabod ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau. Cynhaliwyd gwerthusiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 1999. Gellir canfod y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet; Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2001/02 talwyd cyfraniadau o £2.1 miliwn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ar un o bedair graddfa yn yr ystod 12 i 18.5 y cant, yn amodol ar adbrisio'r bandiau cyflog. Mae cyfraniadau cyflogwyr i gael eu hadolygu bob pedair blynedd yn sgil prisiad o'r cynllun cyfan gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfraniadau'n adlewyrchu buddiannau fel y'u cronnir, ac nid pan gronnir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

Mae Prif Weithredwr y GHC yn aelod o'r PCSPS. Talwyd cyfraniadau gan y GHC ar y raddfa o 18.5%. Mae holl aelodau eraill y GHC heblaw am Michael McEvoy a Barry Gillman yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, y mae'r

**GHC yn gwneud cyfraniadau ar y raddfa o 12.6% iddo:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Band Cyflog 1 | £14,500 | a llai | 12% |
| Band Cyflog 2 | £14,501 | to £30,000 | 13.50% |
| Band Cyflog 3 | £30,001 | to £52,000 | 16.50% |
| Band Cyflog 4 | £52,001 | a throsodd | 18.50% |

Mae staff yn y Swyddfeydd Datganoledig ar secondiad ac yn cael eu hariannu gan yr Awdurod Datganoledig perthnasol.
Mae'r darpariaethau ar gyfer costau ymddeol yn gynnar yn Nodyn 15.



b) Roedd cyfartaledd nifer o bobl llawn amser a gyflogwyd gan yr ASB a'r GHC (yn cynnwys uwch reolwyr) yn ystod 2001/02 fel a ganlyn:

| | | | 2001/02 | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ASB (Pencadlys) | Swyddfeydd | CYFANSWM | ASB (Pencadlys) | Swyddfeydd | CYFANSWM |
| | a'r GHC | Datganoledig | ASB + Dos | a'r GHC | Datganoledig | ASB + Dos |
| Amcan 1 | 164 | 25 | 189 | 137 | 20 | 157 |
| Amcan 2 | 185 | 19 | 204 | 224 | 15 | 239 |
| Amcan 3 (yn cynnwys holl aelodau staff y GHC) | 1,706 | 54 | 1,760 | 1,623 | 49 | 1,672 |
| | **2,055** | **98** | **2,153** | **1,984** | **84** | **2,068** |

c) Roedd costau staff yn ôl amcan fel a ganlyn:

| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcan 1 | 5,612 | 829 | 6,441 | 4,490 | 613 | 5,103 |
| Amcan 2 | 6,174 | 382 | 6,556 | 7,216 | 268 | 7,484 |
| Amcan 3 (yn cynnwys holl aelodau staff y GHC) | 49,030 | 1,396 | 50,426 | 42,854 | 1,005 | 43,859 |
| | **60,816** | **2,607** | **63,423** | **54,560** | **1,886** | **56,446** |

# 3 Cydnabyddiaeth y rheolwyr

a) **ASB**

| | | | 2001/02 Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig | 2000/01 Cyflogau a Lwfansau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 |
| | | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Geoffrey Podger | Prif Weithredwr | | 110-115 | 2.5-5 | 35-40 | 100-105 |
| Dr Jon Bell | Cyfarwyddwr, Grŵp FSP | | 75-80 | 5-7.5 | 20-25 | 60-65 |
| Pat Stewart | Cyfarwyddwr, Grŵp S ac AD | | 80-85 | 2.5-5 | 30-35 | 65-70 |
| David Statham | Cyfarwyddwr, Grŵp G a SB | | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 | 40-45 |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | | 80-85 | 0-2.5 | 15-20 | 10-15 |
| **Swyddfeydd Datganoledig:** | | | | | | |
| George Patterson | Cyfarwyddwr, ASB yr Alban | | 60-65 | 0 - 2.5 | 0 - 5 | 60-65 |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr, ASB Cymru | | 45-50 | 0 - 2.5 | 5 - 10 | 40-45 |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr, ASB Gogledd Iwerddon | | 55-60 | 0 - 2.5 | 20-25 | 15-20 |

Mae Neil Martinson (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu) o Grŵp Rheoli'r ASB wedi gwrthod rhoi caniatâd i gyhoeddi ei fanylion personol ac felly ni chynhwysir manylion o'r fath yn y nodiadau hyn.
Ni dderbyniodd uwch reolwyr fuddiannau trethadwy mewn nwyddau

b) **MHS**

| | | | (GHC) | (GHC) | (GHC) | (GHC) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Bandiau* | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Chris Lawson | Prif Weithredwr | | 90-95 | 10-12.5 | 35-40 | 15-20 |
| Johnston McNeill | Prif Weithredwr (to 21.12.00) | | 0 | 0 | 0 | 70-75 |

Datgelir gwybodaeth sy'n gysylltiedig â manylion cyflog a phensiwn uwch reolwyr eraill o fewn y GHC o fewn ei Gyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001/02.

c) **Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd**

| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd gwirioneddol mewn Pensiwn pan yn 60 oed | Cyfanswm Pensiwn Cronedig yn 60 oed 31 Mawrth 2002 | Cyflogau a Lwfansau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 |
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Yr Athro Syr John Krebs - Cadeirydd | | 100-105 | 0 - 2.5 | 0-5 | 95-100 |
| Suzi Leather - Dirprwy Gadeirydd | | 35-40 | 0 - 2.5 | 0-5 | 30-35 |
| Ann Hemingway | | 20-25 | 0 - 2.5 | 0-5 | 20-25 |
| Michael Gibson | | 20-25 | 0 - 2.5 | 0-5 | 20-25 |
| Michael Walker | | 20-25 | ddim ar gael | ddim ar gael | 20-25 |
| Yr Athro Syr John Arbuthnott | | 20-25 | 0 - 2.5 | 0-5 | 20-25 |
| Bhupinder Sandhu | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Jeya Henry | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Karol Bailey | | 10-15 | - | - | 5-10 |
| Richard Ayre | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Robert Rees | | 10-15 | - | - | 5-10 |
| Valerie Howarth o Breckland, OBE | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Vernon Sankey | | 5-10 | - | - | 5-10 |

**Nodiadau:**

a Mae "cyflog" yn cynwys cyflog gros, taliad perfformiad neu fonws, goramser; hawl penodol i Lwfans Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau sy'n berthnasol i dreth y DU.
b Mae holl aelodau Grŵp Rheoli'r ASB wedi gwrthod caniatáu cyhoeddi eu hoedran.
c Mae pum aelod o Fwrdd yr ASB yn aelodau o gynllun pensiwn tebyg i'r PCSPS. Telir cyfraniad cyffelyb i mewn i gynllun pensiwn personol Michael Walker.
ch Ni dderbyniodd unrhyw un o'r uchod fuddiannau mewn nwyddau.
d Ni dderbyniodd Bhupinder Sandhu unrhyw gymeradwyaeth ar ddiwedd ei chytundeb ar 16 Chwefror 2002.



# 4 Costau gweinyddol eraill

| | | 2001/02 Grŵp | 2000/01 (newidwyd) Grŵp |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Costau Staff wedi eu Secondio (Nodyn 2) | | 2,517 | - |
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu:** | | | |
| Llogi offer a pheiriannau | | 242 | 115 |
| Prydlesau gweithredu eraill | | 3,871 | 2,086 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** | | | |
| Dibrisiant | 1,638 | | 824 |
| Darpariaeth costau ymddeol yn gynnar | - | | 132 |
| Rhent a gwasanaethau rheoli | 10 | | 22 |
| Staff wedi eu secondio | 29 | | |
| Elw pan waredir asedau sefydlog | (26) | | (3) |
| Cost cyfalaf | 150 | | 557 |
| Ffioedd archwilio | 170 | | 210 |
| | | 1,971 | |
| Costau gweithredol | | 1,520 | 1,164 |
| Costau cytundeb OVS a MHI | | 25,460 | 17,221 |
| Costau llety | | 5,016 | 3,995 |
| Gorbenion Bwrdd a staff | | 6,707 | 5,265 |
| Costau gweinyddu | | 5,746 | 4,782 |
| Costau TH | | 1,829 | 2,268 |
| Costau pwyllgor | | 142 | 131 |
| Costau ymddeol yn gynnar | | (175) | 125 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg | | 889 | 870 |
| Dyledion drwg wedi eu hysgrifennu i ffwrdd | | 39 | 20 |
| Llog a dderbyniwyd | | (16) | (11) |
| | | **55,760** | **41,658** |

# 5 Rhaglen Net costau

| | | 2001/02 | 2000/01 (newidwyd) |
|---|---|---|---|
| | | Grŵp | Grŵp |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Ymchwilio a Datblygu** | | | |
| Maetheg | 3,771 | | 6,342 |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | 4,294 | | 4,066 |
| Hylendid Cig | 4,108 | | 3,243 |
| Diogelwch Cemegol | 2,624 | | 2,838 |
| Bwyd Newydd a Thocsioleg Diogelwch Cemegol | 2,811 | | 2,133 |
| Difwynwyr Cemegol | 940 | | 1,535 |
| Labelu a Safonau Bwyd | 715 | | 1,367 |
| Diogelwch Radiolegol | 624 | | 1,192 |
| Prosesu Cregyn Bylchog | 156 | | - |
| Amrywiol | 454 | | 503 |
| | | 20,497 | 23,217 |
| **Monitro a Goruchwylio** | | | |
| Hylendid Cig | 90 | | |
| Diogelwch Radiolegol | 2,588 | | 2,993 |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 829 | | - |
| Diogelwch Bwyd Micro | 6,504 | | 2,487 |
| Adolygiad o'r Rhaglen | - | | - |
| Pwyllgorau, y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 2,494 | | 1,787 |
| Maetheg | 1,110 | | 1,462 |
| Astudiaethau a Goruchwylio | 332 | | |
| Difwynwyr Cemegol | 1,725 | | 1,282 |
| Porthiant Anifeiliaid | 1,538 | | - |
| Meddygol a Chyfreithiol | 240 | | |
| Amrywiol | 3,169 | | 2,344 |
| | | 20,619 | |
| | | **41,116** | **35,573** |
| **Llai: Incwm y rhaglen** | | | |
| ASB (Pencadlys) | (2,158) | (2,158) | (2,672) |
| | | **38,958** | **32,901** |

# 6 Dadansoddiad o incwm

| | | 2001/02 | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | £000oedd |
| **Mae'r incwm gweithredol a ddadansoddwyd yn ôl dosbarthiad a gweithgaredd fel a ganlyn:** | | | | |
| **Incwm gweinyddu** | | | | |
| Ffioedd a thaliadau o Adrannau'r Llywodraeth ac eraill | 662 | | | 277 |
| Gweithgarwch y Gwasanaeth Hylendid Cig | 39,436 | | | 45,099 |
| | | 40,098 | | |
| **Incwm y rhaglen** | | | | |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai - samplu ac archwiliadau | 15 | | 134 | |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,143 | | 2,538 | |
| | | 2,158 | | 2,672 |
| | | **42,256** | | **48,048** |

Dadansoddiad o incwm o wasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid y sector allanol a chyhoeddus fel a ganlyn:

| | Incwm | Cost llawn | 2001/02 Gwarged/ Diffyg | Incwm | Cost llawn | 2000/01 Gwarged/ Diffyg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig** | | | | | | |
| Diwydiant | 20,601 | 38,736 | (18,135) | 34,659 | 38,408 | (3,749) |
| Y Llywodraeth | 18,835 | 18,835 | - | 10,440 | 10,440 | - |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai - samplu ac archwiliadau | 15 | 107 | (92) | 134 | 237 | (103) |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,143 | 2,786 | (643) | 2,538 | 2,522 | 16 |
| | **41,594** | **60,464** | **(18,870)** | **47,771** | **51,607** | **(3,836)** |

Nid yw'r GHC yn adfer ei holl gostau o ddiwydiant. Yn ystod 2001/02, cyflwynwyd adroddiad argymhellol Maclean ar godi tâl. Yn gryno, fe symudodd incwm y GHC o ddiwydiant o raddfa methodoleg fesul awr i un wedi ei seilio ar raddfa y pen. Yn ychwanegol, ni ellir adfer rhai costau (megis adfer ac ysgrifennu dyled i ffwrdd) o ddiwydiant, yn seiliedig ar ddehongliad o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

# 7 Cysoni costau gweithredol net i'r cyfanswm rheolaeth a'r cynnyrch adnoddau net

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Cost Weithredol Net | 115,496 | 83,743 |
| Incwm gweithredol na ystyrir yn A-yn-A | - | - |
| Gwasanaethau sefydlog y Gronfa Gyfunol | - | - |
| Cynnyrch Adnoddau Net | **115,496** | **83,743** |

# 8 Dadansoddiad o'r gost weithredol net

Mae'r nodyn hwn yn dadansoddi cyllido yn ôl Adran i'r awdurdod gwario perthnasol.

| | 2001/02 Cyllideb £000oedd | 2001/02 Gwir £000oedd | 2000/01 Cyllideb £000oedd | 2000/01 Gwir £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Corff gwario** | | | | |
| Yr Adran Graidd | 104,594 | 88,665 | 81,844 | 74,660 |
| GHC | 20,871 | 18,135 | 10,978 | 3,749 |
| Senedd yr Alban | 5,805 | 5,410 | 5,154 | 2,997 |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | 1,200 | 1,245 | 1,111 | 902 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 2,029 | 2,041 | 1,457 | 1,454 |
| **Cyfanswm** | **134,499** | **115,496** | **100,544** | **83,762** |

# 9 Asedau Sefydlog anghyffyrddadwy

| | Trwyddedau Meddalwedd £000oedd |
|---|---|
| **Cost neu brisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 349 |
| Ychwanegiadau | 160 |
| Adbrisiad a mynegeio | (25) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **484** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 120 |
| A godwyd yn y flwyddyn | 64 |
| Adbrisiad a mynegeio | (18) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **166** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2002** | **318** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2001** | **229** |



# 10 Asedau sefydlog cyffyrddadwy

| | Gosodiadau a Ffitiadau £000oedd | Offer Swyddfa £000oedd | Offer Cyfrifiadurol £000oedd | Cerbydau Modur £000oedds | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 5,804 | 277 | 1,840 | 657 | 8,578 |
| Ychwanegiadau | 796 | 219 | 369 | 141 | 1,525 |
| Adbrisio a mynegeio | 29 | 6 | (122) | 2 | (85) |
| Gwaredion | - | - | (329) | (280) | (609) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **6,629** | **502** | **1,758** | **520** | **9,409** |
| **Dibrisiant:** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 154 | 69 | 856 | 277 | 1,356 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 905 | 55 | 430 | 133 | 1,523 |
| Adbrisio a mynegeio | 5 | 3 | (98) | 2 | (88) |
| Gwaredion | - | - | (329) | (209) | (538) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **1,064** | **127** | **859** | **203** | **2,253** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2002** | **5,565** | **375** | **899** | **317** | **7,156** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2001** | **5,650** | **208** | **984** | **380** | **7,222** |

Mae'r gwahaniaeth a gyfyd rhwng prynu asedau sefydlog ac ychwanegiadau yn gredydwyr a chroniadau cyfalaf.

# 11 Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod

| | 2001/02 Grŵp £000oedd | 2000/01 Grŵp £000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr | (2,028) | 2,474 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (10,558) | (6,283) |
| | **(12,586)** | **(3,809)** |

# 12 Dyledwyr

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | Grŵp | Grŵp |
| | £000oedd | £000oedd |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnachu | 6,851 | 10,380 |
| Yn ddyledus gan y Llywodraeth | 1,485 | 1,314 |
| TAW adferadwy | 2,439 | 2,027 |
| Dyledwyr eraill | 1,385 | 496 |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | 439 | 411 |
| | **12,599** | **14,628** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | 69 | 67 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **12,668** | **14,695** |

# 13 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Balans ar 1 Ebrill | 7,066 | 3,164 |
| Mewnlif/(All-lif) arian parod net | 1,581 | 3,902 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **8,647** | **7,066** |
| **Ar 31 Mawrth roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | |
| Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM | 8,367 | 6,507 |
| Cyfrifon banc masnachol | 280 | 559 |
| | **8,647** | **7,066** |

# 14 Credydwyr

| | 2001/02 | 2000/01 (newidiwyd) |
|---|---|---|
| | Grŵp | Grŵp |
| | £000oedd | £000oedd |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr masnachu | 6,749 | 5,464 |
| Credydwyr eraill | 550 | 607 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 12,768 | 7,088 |
| Symiau a gafwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer eu cyflenwi ond na wariwyd yn ystod y flwyddyn | 8,647 | 7,066 |
| | **28,714** | **20,225** |
| **Cyfansymiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Rhwymedigaethau tymor hir | 3,663 | - |
| | **32,377** | **20,225** |

# 15 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | 2001/02 | | | | | 2000/01 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth Ymddeol yn Gynnar £000oedd | Darpariaeth Clwy Traed a'r Genau £000oedd | Pensiwn £000oedd | Ceisiadau Cyfreithiol £000oedd | Cyfanswm £000oedd | Darpariaeth Ymddeol yn Gynnar £000oedd | Darpariaeth Clwy Traed a'r Genau £000oedd | Pensiwn £000oedd | Ceisiadau Cyfreithiol £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 517 | 178 | 212 | 36 | 943 | 526 | - | 573 | - | 1,099 |
| A gododd yn ystod y flwyddyn | 154 | 48 | - | 79 | 281 | 76 | 178 | - | 36 | 290 |
| A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (111) | (178) | (212) | - | (501) | (85) | - | - | - | (85) |
| Cronfeydd wrth gefn nas defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (162) | - | - | - | (162) | - | - | (361) | - | (361) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **398** | **48** | **-** | **115** | **561** | **517** | **178** | **212** | **36** | **943** |

**Costau Ymddeol yn Gynnar a Phensiwn**
Mae darpariaethau ymddeol yn gynnar a darpariaethau pensiwn yn cyfeirio at rwymedigaethau i staff sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r ASB yn cwrdd â chostau buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn cysylltiad â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng yr ymddeoliad cynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r ASB yn darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan fo'r adran wedi ymrwymo i'r rhaglen ymddeol yn gynnar drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer amcangyfrif o'r taliadau dan ddisgownt drwy raddfa disgownt y Trysorlys o 6% mewn termau go iawn. Yn y blynyddoedd a fu, talodd yr ASB ymlaen llaw am rai o'i rhwymedigaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar drwy wneud taliadau i Gyfrif y Talfeistr Cyffredinol ym Manc Lloegr ar gyfer credyd Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ("Superannuation"). Ymdrinir â'r balans sydd ar ôl fel blaendaliad.

**Darpariaeth Clwy'r Traed a'r Genau**
Mae'r Ddarpariaeth Clwy'r Traed a'r Genau yn cyfeirio at y potensial am geisiadau gan filfeddygon swyddogol dan gytundeb i fod ar gael yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2002.

**Ceisiadau Cyfreithiol**
Mae'r ddarpariaeth sydd ar ôl yn ymwneud â dau gais am iawndal a wnaed yn erbyn y cyn Weinidogaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) y mae'r ASB nawr wedi cymryd cyfrifoldeb drosto. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu yr holl geisiadau y gwyddir amdanynt lle mae cyngor cyfreithiol yn dynodi ei bod yn fwy na 50% yn debygol y bydd y cais yn llwyddiannus ac y gellir amcangyfrif yn ddibynadwy symiau'r cais. Mae'r swm a ddarperir ar sail canran posibilrwydd a ddisgwylir. Mae gwariant yn debygol o'i gael dros gyfnod o 5 mlynedd. Ni dderbynnir iawndal mewn perthynas ag unrhyw un o'r ceisiadau hyn.

Caiff ceisiadau cyfreithiol, a allai lwyddo, ond sy'n llai tebygol i wneud hynny neu na ellir gosod amcanbris dibynadwy arnynt eu dadlennu fel rhwymedigaethau dibynnol.

## 16 Cysoni’r costau gweithredol net i newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | 2001/02 | | 2000/01 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cost weithredol net ar gyfer y flwyddyn (Atodlen 2) | (115,496) | | (83,762) | |
| Incwm nad yw wedi ei roi mewn cymorth i’r Gronfa Gyfunol | - | | - | |
| | | (115,496) | | (83,762) |
| Cyllido net | | 110,724 | | 87,878 |
| Trosglwyddwyd i’r Gronfa Gyffredinol o’r elfen wireddadwy o adbrisio’r gronfa wrth gefn (nodyn 17) | - | | - | |
| Credydwr y Gronfa Gyfunol ar gyfer arian parod na wariwyd | | (8,647) | | (7,066) |
| **Taliadau sydd heb fod yn ariannol** | | | | |
| Cost cyfalaf | 150 | | 557 | |
| Costau staff heb fod yn ariannol | 878 | | - | |
| Ymddeoliad Cynnar | - | | 1,017 | |
| Rhent a Gwasanaethau Rheoli | 10 | | - | |
| Ffioedd archwilydd | 170 | | 210 | |
| | | 1,208 | | 1,784 |
| Cymwysiadau’r Flwyddyn Flaenorol | | (22) | | - |
| **Gostyngiad net yn y gronfa gyffredinol** | | **(12,233)** | | **(1,166)** |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill | | 8,023 | | 9,189 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2002** | | **(4,210)** | | **8,023** |

Mae’r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli’r asedau net a roddwyd i’r ASB ar 1 Ebrill 2000 (a nodwyd fel cost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ar y dyddiad hwnnw), y gwarged neu’r diffyg a gynhyrchwyd o’r taliadau tybiannol a gweithgareddau masnachu a’r Dyfarniad swm a gododd ers y dyddiad hwnnw.

## 17 Cronfeydd wrth gefn

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Balans ar 1 Ebrill 2001 | 21 | 16 |
| A gododd ar adbrisio yn ystod y flwyddyn (net) | 40 | 5 |
| A drosglwyddwyd i’r gronfa gyffredinol mewn cysylltiad â’r elfen wireddadwy o adbrisio’r gronfa wrth gefn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2002** | **61** | **21** |

Mae’r Gronfa Adbrisio wrth gefn yn adlewyrchu’r elfen heb ei gwireddu o falans cronnol ymwysiadau mynegeio ac adbrisio.



## 18 Nodiadau ar atodlen 5

Mae cyfalaf yr ASB yn cael ei ddefnyddio yn unig ar gyfer gweinyddu. Mae ei ddosbarthiad rhwng yr amacanion felly nid yn annhebyg i’r cyfran o’r gost weinyddol gros gysylltiedig.

Mae cost y Rhaglen a gwariant cyfredol arall wedi’i ddosrannu fel a ganlyn:

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Amcan 1 | 6,006 | 5,981 |
| Amcan 2 | 9,966 | 10,565 |
| Amcan 3 | 22,980 | 16,355 |
| | **38,952** | **32,901** |

## 19 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Wedi contractio | 32 | 1076 |

## 20 Ymrwymiadau blynyddol o dan

| | 2001/02 | | 2000/01 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £000oedd | Arall £000oedd | Tir ac Adeiladau £000oedd | Arall £000oedd |
| **Brydlesau Gweithredu:** | | | | |
| Prydlesau gweithredu sy’n dod i ben: | | | | |
| O fewn blwyddyn | - | - | 53 | - |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | - | 126 | - | 126 |
| Ar ôl pum mlynedd | 4,322 | 84 | 4,323 | 84 |
| | **4,322** | **210** | **4,376** | **210** |

## 21 Ymrwymiadau eraill

Mae'r ASB wedi dechrau ar gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesau gweithredu) ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygiad amrywiol o £44,976,433.00 ar 31 Mawrth 2002

Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau hyd at y flwyddyn 2006.

## 22 Rhwymedigaethau annisgwyl

Mae gweithredwyr offer a gweithwyr eraill wedi gwneud nifer bach o geisiadau yn erbyn y GHC am anafiadau a achoswyd yn y gweithle neu am ddiswyddiad annheg. Caiff yr achosion yma eu hamddiffyn a hyd yma nid yw'r canlyniad yn hysbys ond gallai gostio tua £118,000.

Ni wnaed darpariaeth yn y cyfrifon eleni ar gyfer hyn. Nid oedd darpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol . Yn ychwanegol, mae ASB yr Alban mewn anghydfod ar hyn o bryd gyda chyflenwr dros anfoneb gwerth £75,000. Mae'r achos ar hyn o bryd ynghanol gweithredu cyfreithiol, ac nid oes darpariaeth ar ei gyfer yn y cyfrifon. Barn rheolwyr yr ASB yw y caiff y gweithredu ei atal yn llwyddiannus.

## 23 Trafodion partïon cysylltiedig

Datgelodd yr aelodau canlynol o'r Bwrdd drafodion gyda phartïon cysylltiedig.

Datgelodd Karol Bailey fod aelodau o'i theulu'n rhedeg busnes lladd-dy ar gyfer dofednod, sy'n derbyn gwasanaethau gan y GHC.

Datgelodd Michael Walker fod practis y mae'n bartner ynddo, wedi derbyn ffioedd o tua £720 gan yr Asiantaeth am ymchwil dadansoddol.

Yn ogystal, cafodd yr Asiantaeth nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill.

Caiff swyddfeydd datganoledig yr ASB yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru eu staffio yn bennaf gan swyddogion ar fenthyg o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd Gogledd Iwerddon, Adran Amaeth Gogledd Iwerddon, Adran Weithredol yr Alban a gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 24 Offer ariannol

Nid oes gan yr ASB unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu yn bennaf ar grantiau o adrannau ar gyfer ei gofynion arian parod, ac felly nid yw dan fygythiad o risg o ddod i ben. Nid oes ganddi unrhyw arian sylweddol wrth gefn, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol mewn sterling, felly nid yw o dan risg graddfeydd llog neu raddfeydd arian tramor.



## Cyfarwyddyd ar gyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol â pharagraff 4(2) o restr 4 o'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999

1. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi cyfrif cyfunol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a blynyddoedd ariannol dilynol i gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifo a gofynion dadlennu o rifyn Canllaw Cyfrifo Adnoddau'r Trysorlys sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn y caiff y cyfrifon eu paratoi ar ei chyfer.

2. Caiff y cyfrif cyfunol ei seilio ar gyfrifon ar wahân a ddarparwyd mewn perthynas â'r Amcangyfrif a gymeradwywyd gan Dŷ'r Cyffredin o dan adran 5 o Ddeddf Cyfrifeg ac Adnoddau'r Llywodraeth 2000; y symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 39(3)(a) o'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999 ("y Ddeddf"); y symiau a dalwyd allan o Gyfrif Cyfunol yr Alban o dan adran 39(3)(b) o'r Ddeddf; a'r symiau sydd wedi eu gwneud yn berthnasol gan ddeddf gan Gynulliad Gogledd Iwerddon o dan adran 39(3)(c) o'r Ddeddf.

3. Bydd y cyfrif cyfunol yn cael ei baratoi er mwyn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa yn ei chyfanrwydd ar 31 Mawrth 2002 ac o'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar ddiwedd y flwyddyn berthnasol, ac o'r cynnyrch adnoddau net, yr adnoddau sy'n berthnasol i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol briodol.

4. Caiff y cyfrif cyfunol ei anfon i'r Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol dim hwyrach na'r 30ain Tachwedd o'r flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn y mae'r cyfrifon cyfunol yn berthnasol iddynt; ac i'r Trysorlys dim hwyrach na'r 15fed Ionawr o'r flwyddyn honno.

David Loweth
Pennaeth y Tim Cyfrifon Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi
31 Ionawr 2002

## Cyfarwyddyd Cyfrifo a roddwyd gan Weinidogion yr Alban yn unol ag adran 39(7) ac Atodlen 4 o'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn adrodd ar sut y caiff ei chyllido a'r hyn y bydd yn ei wario mewn perthynas â'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban mewn Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o gynnyrch yr adnoddau;
- datganiad o gost weithredol; a
- chynllun yn cysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a ddarparwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno yn deg grynodeb o gynnyrch yr adnoddau, y gost weithredol net ar gyfer y flwyddyn ariannol, gwariant cyfalaf y flwyddyn ac yn cysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar y gofynion hyn, caiff y datganiad cyfrifon ei baratoi yn ogystal yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, mor bell â'i fod yn berthnasol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen cyflwyniad ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, na datganiad o'r adnoddau yn ôl amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig na llifau arian ar gyfer y flwyddyn honno a ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Arwyddwyd drwy Awdurdod Gweinidogion yr Alban:
1 Hydref 2001



## Cyfarwyddyd Cyfrifo a roddwyd gan Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus gyda chymeradwyaeth yr Adran Gyllid a Phersonéel ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (GI) yn adrodd ar sut y caiff ei chyllido a'r hyn y bydd yn ei wario mewn perthynas â'r symiau a dalwyd allan o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd mewn Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o gynnyrch yr adnoddau;
- datganiad o gost weithredol; a
- chynllun yn cysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd Cais am Adnodd B

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno yn deg grynodeb o gynnyrch yr adnoddau, y gost weithredol net ar gyfer y flwyddyn ariannol, gwariant cyfalaf y flwyddyn ac yn cysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar y gofynion hyn, caiff y datganiad cyfrifon ei baratoi yn ogystal yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, mor bell â'i fod yn berthnasol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen cyflwyniad ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, na datganiad o'r adnoddau yn ôl amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig na llifau arian ar gyfer y flwyddyn honnoa ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Arwyddwyd drwy Awdurdod yr Adran Iechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd.
Medi 2001

roddwyd

## Cyfarwyddyd Cyfrifo a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn adrodd ar sut y caiff ei chyllido a'r hyn y bydd yn ei wario mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o gynnyrch yr adnoddau;
- datganiad o gost weithredol; a
- chynllun yn cysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno yn deg grynodeb o gynnyrch yr adnoddau, y gost weithredol net ar gyfer y flwyddyn ariannol, gwariant cyfalaf y flwyddyn ac yn cysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar y gofynion hyn, caiff y datganiad cyfrifon ei baratoi yn ogystal yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, mor bell â'i fod yn berthnasol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen cyflwyniad ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth y flwyddyn honno, na datganiad o'r adnoddau yn ôl amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig na llifau arian ar gyfer y flwyddyn honno a ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Arwyddwyd drwy Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5 Medi 2001

roddwyd

## Cyfarwyddyd Cyfrifo a roddwyd gan y Trysorlys yn Unol ag Adran 5(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi y cyfrifon adnoddau ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 yn unol â'r egwyddorion cyfrifo a'r gofynion dadlennu yn y rhifyn o'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ("y Canllaw Cyfrifo Adnoddau") sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn honno.

Caiff y cyfrifon eu paratoi er mwyn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2002 ac o'r cynnyrch adnoddau net, adnoddau yn ymwneud ag amcanion, enillion a cholledion cydnabyddiedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol honno a ddaeth i ben.

Bydd angen cydymffurfio â'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau ym mhob achos heblaw am sefyllfa eithriadol er mwyn i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg. Os mewn sefyllfa eithriadol, lle nad yw cydymffurfio â gofynion y Canllaw Cyfrifo Adnoddau yn gyson â'r gofynion i roi darlun gwir a theg, ni ddylid ystyried gofynion y Canllaw Cyfrifo Adnoddau i'r fath raddau sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi darlun gwir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid defnyddio barn ddiduedd wedi ei seilio ar wybodaeth i greu triniaeth amgen a ddylai fod yn gyson gyda nodweddion economaidd y sefyllfa dan sylw ac ysbryd y Canllaw Cyfrifo Adnoddau. Dylid trafod unrhyw wyro sylweddol oddi wrth y Canllaw Cyfrifo Adnoddau gyda'r Trysorlys yn y lle cyntaf.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifon Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi.
31 Ionawr 2002

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Yr Alban
# Datganiad Cyfrifon

Datganiad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002





## CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Tystysgrif Archwilio - yr Alban | 74 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 76 |
| Datganiad o reolaeth mewnol ar gyfer ASB yr Alban | 77 |
| Crynodeb o gynnyrch adnoddau - yr Alban | 79 |
| Nodiadau ar y Cyfrifon | 80 |
| Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion yr Alban | 85 |

Tystysgrif
# archwiliad

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd yr Alban

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 6 i 10 o dan Atodlen 4(3) i Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 7 a 8.

## Priod Gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 3, y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban yn ôl gofynion y Ddeddf ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Y Swyddog Cyfrifo sydd hefyd yn gyfrifol am gynnwys arall y cyfrifon. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar pa un a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi darlun teg o'r gweithgareddau hynny gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidir gan Senedd yr Alban ac a gafodd ei baratoi'n gywir yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban yn ôl gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant ym mhob ystyr berthnasol ei ddefnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir yn fy marn i, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall yn y Cyfrifon, ac yn ystyried pa un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 4 a 5 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth ag arweiniad y Trysorlys, sef Rheolaeth Gorfforaethol a'r Datganiad ar y System o Reoli Arian yn Fewnol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth ar sail prawf sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiad cyfrifon. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifo wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth, ac a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ym mhob ystyr berthnasol, wedi ei ddefnyddio i'r diben a fwriadwyd gan y Senedd a Gweithrediaeth yr Alban, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiad cyfrifon.



Tystysgrif
archwiliad

## Barn

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiad cyfrifon ddarlun teg o grynodeb o'r canlyniadau adnoddau, y gost adnoddau net am y flwyddyn ariannol ac o ofynion cyllid arian gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidwyd gan Senedd yr Alban am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth a chawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl gofynion y Ddeddf gan Weinidogion yr Alban; ac
- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban, a chydymffurfia'r trafodion ariannol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
**Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol**

**15 Ionawr 2003**

**National Audit Office**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**London SW1W 9SP**

## Datganiad o gyfrifoldebau'r

# swyddog cyfrifo

1. O dan adran 39(7) a rhestr 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon gan adrodd ar y cyllido a'r gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Senedd Yr Alban am bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan Weinidogion yr Alban, a dylai'r datganiad cyfrifon roi manylion yr adnoddau a ddarparwyd gan Senedd Yr Alban gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.
2. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg o grynodeb y cynnyrch adnoddau, cost adnoddau net am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a chysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn.
3. Mae Trysorlys EM wedi apwyntio'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifeg yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a'u trosglwyddo i'r Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.
4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, mor bell â'i fod yn berthnasol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran, ac yn arbennig i:
   a) arsylwi ar y gofynion cyfrifeg a datguddiad perthnasol, a rhoi mewn lle bolisïau cyfrifeg addas yn gyson;
   b) rhoi barn ac amcangyfrif ar sail rhesymol;
   c) nodi os yw safonau cyfrifeg cymwys, fel a nodir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau, wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau o bwys yn y cyfrifon;
5. Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo (yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Adran) eu nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo a gyflwynwyd gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yng Nghyfrifeg y Llywodraeth.

Geoffrey Podger
Swyddog Cyfrifo
28 Tachwedd 2002



## Datganiad rheolaeth mewnol ar gyfer

# ASB Yr Alban

Fel Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system rheolaeth mewnol gadarn sy'n cefnogi cyrhaeddiad polisïau trefniadol, nodau ac amcanion fel a osodwyd gan Fwrdd yr ASB a'r Ddeddf Safonau Bwyd, tra'n gwarchod yr arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi o fewn Cyfrifeg Llywodraeth.

Mae'r system rheolaeth mewnol wedi ei gynllunio i reoli yn hytrach na gwneud i ffwrdd â'r perygl o fethu â chwrdd â pholisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

Mae'r system o reolaeth mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus o adnabod y prif beryglon rhag gallu cwrdd â pholisïau trefniadol, nodau ac amcanion, gwerthuso natur a maint y peryglon hynny a'u rheoli yn effeithlon, effeithiol ac yn economaidd. Disgwyliaf gael y broses hon yn ei lle a bod wedi gweithredu ar yr holl Gyfarwyddyd Trysorlys erbyn Mawrth 2003. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i osod y prosesau yn llawn, y mae'r ASB wedi cytuno y dylid eu sefydlu, a'u cryfhau.

Er y caiff gweithgareddau ASB yr Alban eu hariannu drwy Senedd yr Alban, y mae'n rhan o Asiantaeth Safonau Bwyd y Deyrnas Unedig, ac nid corff gyda chyfansoddiad ar wahân. Mae'r rheolaethau mewnol a risgiau y swyddfeydd datganoledig yr un peth ag ydyw i weddill yr ASB. Caiff y corff ei reoli fel endid unigol, waeth sut y caiff y darnau cydrannol eu hariannu.

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd eisoes lawer o'r elfennau allweddol yn eu lle o ran system rheolaeth mewnol effeithiol yn cynnwys:

- cyfarfod misol y brif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU sy'n gweithredu fel "Bwrdd Rheoli" yr ASB;
- trefniadau archwiliad mewnol, yn cynnwys rhaglen archwiliad wedi ei seilio ar risg yn gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cyd-fynd â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd drwy archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol o addasrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth mewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwiliad a Risg, sy'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn gyda'r Cadeirydd yn adrodd i Fwrdd yr ASB;
- cynllun strategol sy'n gosod allan brif nodau ac amcanion yr ASB am y 5 mlynedd nesaf;
- proses cynllunio busnes ac ariannol sy'n llifo drwy'r sefydliad (cynlluniau busnes corfforaethol a lleol) ac sy'n benodol yn cysylltu amcanion busnes, dyraniad adnoddau a'r ystyriaeth o risg busnes;
- rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth i'r broses cynllunio busnes sy'n cynnwys rheolaeth risg;
- adroddiadau perfformiad rheolaidd i gyfarfodydd misol y Prif Weithredwr ac i Fwrdd yr ASB ar gyfer cynllunio ariannol a busnes;
- cofrestr o risgiau strategol sy'n gynnwys cyfres gynhwysfawr o gynlluniau triniaeth gyda pherchnogaeth glir o'r peryglon a'r gweithredu, a dyddiadau wedi eu cytuno arnynt ar gyfer ymgymryd â'r mater/adolygu;
- adolygiad ffurfiol rheolaidd (chwarterol) o'r gofrestr risg yng nghyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU; ac
- adroddiad cynnydd rheolaidd (bob 6 mis) ar reoliadau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i Fwrdd yr ASB.

Mae tîm rheoli'r ASB wedi ymgorffori rheolaeth risg a rheoliadau mewnol i mewn i agenda fusnes y mudiad fel eu bod yn cael eu hadolygu a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae rheolaeth risg hefyd wedi ei ymgorffori yn llawnach i mewn i'r broses cynllunio busnes fel modd o sicrhau ymwybyddiaeth risg o fewn y sefydliad. Mae'r broses gynllunio wedi ei chefnogi yn llawn drwy raglen o gefnogaeth wedi ei thargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad.

Yn ychwanegol i'r camau a nodwyd uchod, yn y flwyddyn sydd i ddod mae'r ASB yn bwriadu:

- cyhoeddi datganiad polisi risg a llawlyfr rheolaeth risg yn gosod allan y trefniadau sydd mewn lle o fewn y sefydliad i reoli risg busnes, yn cynnwys y broses ar gyfer cynnydd risg a chyfrifoldebau unigolion drwy'r sefydliad;
- parhau i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant wedi ei dargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad yn cynnwys swyddfeydd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a'r GHC; a
- chael sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar y rheoliadau mewnol a chael cynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r GHC.

Hysbysir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr ASB sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Geoffrey Podger
Prif Weithredwr
28 Tachwedd 2002



*Asiantaeth Safonau Bwyd – Yr Alban*

# Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau

## ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | 2001/02 | | | | | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Cynnyrch | | | | |
| | Gwariant Gros | A-in-A | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | A-in-A | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net Cynnyrch o'i gymharu â'r Arbediad Tybiedig/(yr hyn sydd dros ben) | Cynnyrch y flwyddyn flaenorol |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cais am Adnoddau** | | | | | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd cyhoeddus mewn perthynas â bwyd | 5,805 | - | 5,805 | 5,410 | - | 5,410 | 395 | 2,978 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **5,805** | **-** | **5,805** | **5,410** | **-** | **5,410** | **395** | **2,978** |

## Cysoniad Cynnyrch Adnoddau Net i'r angen arian parod net

| | Nodyn | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd |
| Cynnyrch Adnoddau Net | | 5,410 | 2,978 |
| **Cymwysiadau Croniadau:** | | | |
| Ail-godiant am ddefnydd o ased sefydlog | 3 | (65) | (53) |
| Eitemau eraill heb fod yn ariannol | 3 | (10) | (127) |
| Cynnydd (+)/Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a blaendaliadau | 6 | (257) | 332 |
| Cynnydd (-)/Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | (1,420) | (151) |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 95 | 69 |
| **Angen Arian Parod Net** | | **3,753** | **3,048** |
| *Cysoniad angen arian parod net i'r nawdd a ddarparwyd gan Senedd yr Alban* | | | |
| **Angen Ariannol Net** | | **(3,753)** | **(3,048)** |
| **Arian a ddygwyd ymlaen** | | **(51)** | |
| **Nawdd Ariannol a ddarparwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer 2001/02** | | **4,649** | |
| **Nawdd Ariannol a ddarparwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer 2000/01** | | **51** | **2,997** |
| **Arian wedi ei gario drosodd** | | **896** | **(51)** |

## Datganiad Costau Rhedeg ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000s |
|---|---|---|---|---|
| *Costau Gweinyddol* | | | | |
| Costau Staff | 2 | - | | - |
| Costau Gweinyddol Eraill | 3 | 2,724 | | 2,211 |
| Costau Gweinyddol Gros | | | 2,724 | 2,211 |
| Incwm Gweithredol | | - | | - |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **2,724** | **2,211** |
| *Costau'r Rhaglen* | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd cyhoeddus mewn perthynas â bwyd | | | | |
| Gwariant | | 2,686 | | 767 |
| Llai Incwm | | - | | - |
| **Cyfanswm** | 4 | | **2,686** | **767** |
| **Costau Rhedeg Net** | | | **5,410** | **2,978** |

Mae crynodeb y cynnyrch adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros gan ASB yr Alban gyda gwir wariant. Nid oes ganddo yr un swyddogaeth â'r 'Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau', fel a ddiffinnir gan Ganllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel mecanwaith rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol Senedd yr Alban ar gyfer gorwariant yn erbyn amcangyfrif.

Geoffrey Podger, Swyddog Cyfrifo, 28 Tachwedd 2002

nodiadau

# Nodiadau ar y cyfrifon

**1 Polisïau Cyfrifo**

**1.1 Ystod y Cyfrifon**

Adran o'r Llywodraeth sydd heb fod yn Weinidogol yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a sefydlwyd gan y Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr ASB gyfrifoldeb i amddiffyn iechyd cyhoeddus rhag y peryglon sy'n codi o fwyta, ac fel arall i amddiffyn buddiannau prynwyr mewn cysylltiad â bwyd ar draws y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r ASB hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol yma yn adrodd ar gynnyrch adnoddau net, costau rhedeg net a chostau ariannol gweithrediadau'r ASB. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r ASB yn yr Alban, sy'n cael eu cyllido ar wahân gan symiau a benderfynwyd gan Senedd Yr Alban.

Nid yw'r datganiadau'n cynnwys costau cyffredinol canolog yr ASB, sy'n cael eu cyllido gan arian a benderfynwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r ASB.

Cynhyrchir cyfrifon ar wahân yn ogystal ar gyfer gweithgareddau'r ASB yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol o'r ASB, a chaiff cyfrif cyfunol ei gynhyrchu yn ogystal, yn adrodd ar weithgareddau'r ASB yn ei chyfanrwydd.

**1.2 Sail Paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifeg a gyhoeddwyd gan Weinidogion yr Alban. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd yma fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Cyfrifeg ac Adnoddau'r Llywodraeth 2000 a'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999, caiff holl gyfrifon yr ASB eu harchwilio gan y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

**1.3 Confensiwn Cyfrifo**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi i gynrychioli'n deg grynodeb o'r cynnyrch adnoddau, y cost adnoddau net ar gyfer y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ac i gysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar yr angen yma, mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail cronedig ac yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM, mor bell â'i fod yn berthnasol ac yn addas i'r asiantaeth.

**1.4 Sail Cyllido**

Darperir nawdd gan Senedd yr Alban ar y sail y bwriedir iddo gwrdd â chostau ariannol net am y cyfnod. Mae'r Datganiad Costau Rhedeg yn Rhestr 1 felly'n dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i gynnyrch yr adnoddau sy'n seiliedig ar groniadau, er mwyn cyrraedd y cyfanswm yr arian sydd i'w gyllido gan Senedd yr Alban.

Mae Atodlen 1 felly yn adlewyrchu'r cymwysiadau i gymryd i ystyriaeth:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n aros heb eu talu ar 31ain Mawrth 2002;

b) costau ariannol pryniant asedau sefydlog, yn hytrach na phris dibrisiant sy'n cael ei adlewyrchu yng nghynnyrch yr adnoddau; a

c) thynnu costau sydd heb fod yn ariannol megis y ffi archwilio, sydd, er yn cael ei gyfrif amdano yn y cynnyrch adnoddau, ddim angen taliad ariannol.

Darperir manylion pellach yn nodyn 3 y cyfrifon hyn.

**1.5 Gwariant Gweinyddol a'r Rhaglen**

Dadansoddir y datganiad costau rhedeg rhwng y costau yr gweinyddu a'r rhaglen. Mae costau gweinyddu yn adlewyrchu costau rhedeg yr ASB fel a ddynodir o dan y drefn rheoli cost gweinyddu. Mae costau'r Rhaglen yn adlewyrchu costau sydd heb fod yn weinyddol, yn cynnwys treuliau eraill gan yr ASB.

**1.6 Pensiynau**

Roedd y mwyafrif o staff a secondiwyd i'r ASB ar fenthyg o Adran Weithredol yr Alban. Gweision sifil ydynt ar y cyfryw ac fe'u cynhwysir yn narpariaeth Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun anghyfraniadol a di-nawdd yw hwn. Cynllun sy'n diffinio buddiannau yw'r cynllun a'r PCSPS sy'n gyfrifol am dalu unrhyw daliadau buddiannau i'r dyfodol, a chyhoeddir cyfrifon ar wahân ar gyfer y rhain. Mae'r ASB yn cwrdd â chost pensiwn eu staff drwy dalu ffi ar sail cronedig i'r PCSPS. Pan fo staff wedi eu secondio o fudiadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), mae pris wedi ei gynnwys sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

**1.7 Treth Ar Werth**

Cynhwysir gwariant fel net o'r TAW sy'n adferadwy. Caiff TAW anadferadwy ei godi ar y Datganiad Costau Rhedeg.

**1.8 Newid Mewn Polisi Cyfrifo**

Caiff staff sy'n gweithio i ASB yr Alban eu secondio i'r ASB gan Adran Weithredol yr Alban. Yng nghyfrifon 2000/01, cofnododd ASB yr Alban gostau o'r fath fel "costau staff". Mae cyfarwyddyd Trysorlys diweddar yn mynnu fod costau holl weithwyr sydd wedi eu secondio yn fewnol yn cael eu cofnodi fel "costau gweinyddol eraill" o fewn y datganiad costauyr rhedeg. Mae costau staff sydd wedi eu secondio yn fewnol wedi eu cofnodi fel "costau rhedeg eraill" yn y cofnodion hyn ac mae ffurfiau cymharol blynyddoedd blaenorol wedi eu hail nodi i sicrhau cysondeb. Nid oes effaith ar gostau rhedeg blynyddoedd blaenorol, nac ar angen ariannol net o ganlyniad i'r newid hwn.



# 2 Cost a Nifer y Staff a Secondiwyd

| | | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| a) | **Cyfartaledd nifer y bobl a secondiwyd i ASB yr Alban yn ystod y flwyddyn 2001-02 yn ôl amcan oedd fel a ganlyn:** | | |
| | Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn nhrefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | 12 | 10 |
| | Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu | 9 | 7 |
| | Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 37 | 33 |
| | | **58** | **50** |

Mae'r mwyafrif o'r staff sy'n gweithio yn ASB yr Alban wedi eu secondio o Adran Weithredol yr Alban. Telir cyflogau gan Adran Weithredol yr Alban sy'n adennill y gost gan yr ASB.

| | | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|
| b) | **Roedd y costau staff wedi eu secondio yn ôl amcan fel a ganlyn:** | | |
| | Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | 450 | 348 |
| | Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/05 | 160 | 123 |
| | Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 841 | 650 |
| | | **1,451** | **1,121** |

c) **Cydnabyddiaeth Rheolaeth**

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd yn y Pensiwn a Enillir | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig |
|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| | (£000) | (£000) | (£000) |
| George Patterson Cyfarwyddwr, ASB yr Alban | 65-70 | 0-2.5 | 0-5 |

Mae holl aelodau Grwp Rheoli'r ASB wedi gwrthod rhoi caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.

# 3 Costau gweinyddol eraill

| | | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Costau Staff wedi eu Secondio (nodyn 2) | | 1,451 | 1,121 |
| Rhenti o dan lesau gweithredol | - | | 69 |
| Eitemau heb fod yn ariannol: | | | |
| Ail-godiant am ddefnydd ased sefydlog | 65 | | 53 |
| Ffioedd Archwiliad | 10 | | 20 |
| Rhent a Gwasanaethau Rheoli | - | | 107 |
| | | 75 | 180 |
| Costau Llety | | 478 | 247 |
| Costau Cyffredinol Staff | | 433 | 350 |
| Costau Gweinyddol | | 157 | 111 |
| Costau TG | | 85 | 70 |
| Costau pwyllgor | | 45 | 63 |
| | | **2,724** | **2,211** |

# 4 Costau Net y Rhaglen yn ôl Amcanion yr ASB

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Amcan 1<br>Gwella hyder cyhoeddus yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | 288 | 81 |
| Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu | 432 | 121 |
| Amcan 3<br>Diogelu prynwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 1,966 | 565 |
| | **2,686** | **767** |

# 5 Trafodion Personau Cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol, na phersonau cysylltiedig wedi ymgymryd â thrafodion sylweddol gyda'r ASB yn ystod y flwyddyn. Mae'r ASB wedi cael nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill.
Caiff swyddfa ddatganoledig yr ASB yn yr Alban ei staffio yn bennaf gan swyddogion a secondiwyd o Adran Weithredol yr Alban.



# 6 Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithredol heblaw am Arian

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a blaendaliadau** | (257) | 332 |
| **Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr** | (1,420) | (151) |
| | **(1,677)** | **181** |

# 7 Dyledwyr

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Cyfansymiau a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill | 1 | 17 |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | 27 | 268 |
| Cyfansymiau a fydd yn ddyledus mewn mwy na blwyddyn: | | |
| Dyledwyr eraill | 47 | 47 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **75** | **332** |

# 8 Credydwyr

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Cyfansymiau a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Credydwyr masnach | 561 | 47 |
| Incwm gohiriedig cronedig | 1,030 | 124 |
| Cyfansymiau a gafwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond heb ei wario yn y flwyddyn. | 896 | - |
| | **2,487** | **171** |

# 9 Pwyllgor ymgynghorol

Yn ychwanegol i'r prif Fwrdd ASB, mae gan yr ASB bwyllgorau ymgynghorol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol i'r ASB. Cânt eu cadeirio gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol drwy ddeddf i Fwrdd yr ASB gymryd i ystyriaeth eu cyngor tra'n ymgymryd â'i waith. Rhestrir isod Aelodau'r Pwyllgor:

**Yr Alban – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

Yr Athro Syr John Arbuthnott (Cadeirydd)
Michael Gibson (Dirprwy Gadeirydd)
Yr Athro William Reilly
Anne Campbell
Yr Athro Hugh Pennington
Dr Marnie Sommerville
Wilma Odell
Ross MacDonald
Yr Athro Phillip Thomas
William Davidson
Alexandra Miller

# 10 Rhwymedigaethau amodol

Mae ASB yr Alban ar hyn o bryd mewn anghytundeb gyda chyflenwyr oherwydd anfoneb am £75,000. Mae'r achos ar hyn o bryd yn rhan o weithredu cyfreithiol, ac nid oes darpariaeth ar ei gyfer yn y cyfrifon. Barn rheolwyr yr ASB yw y bydd y gweithredu yn cael ei wrthsefyll yn llwyddiannus.



# Cyfarwyddyd Cyfrifeg a Roddwyd gan Weinidogion yr Alban yn unol ag Adran 39(7) ac Atodlen 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (GI) yn adrodd am ei nawdd a'i gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban mewn Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- Crynodeb o gynnyrch adnoddau
- Datganiad costau rhedeg; a
- Rhestr yn cymodloni cynnyrch adnoddau net i'r symiau a ddarparwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb teg o'r cynnyrch adnoddau, cost adnoddau net ar gyfer y flwyddyn ariannol, gwariant cyfalaf y flwyddyn ac yn cymodloni cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar yr angen yma, bydd y datganiad cyfrifon hefyd yn cael ei baratoi yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair, datganiad o beth yw'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol, na datganiad o adnoddau sy'n berthnasol i amcanion, enillion a cholledion a llif arian ar wahân ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben.

Bydd y cyfarwyddyd yma yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

**Arwyddwyd drwy Awdurdod, Gweinidogion yr Alban**
**1 Hydref 2001**

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Gogledd Iwerddon Datganiad Cyfrifon

Datganiad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002





## CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Tystysgrif Archwilio – Gogledd Iwerddon | 88 |
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 90 |
| Datganiad rheolaeth mewnol ar gyfer ASB Gogledd Iwerddon | 91 |
| Crynodeb o gynnyrch adnoddau – Gogledd Iwerddon | 93 |
| Nodiadau ar y cyfrifon | 94 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus ar gyfer Gogledd Iwerddon | 99 |

# Tystysgrif archwiliad

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 47 i 65 o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 7 i 9.

## Priod Gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 3, y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau'r Adran Gyllid a Phersonél yn ôl gofynion y Ddeddf ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Y Swyddog Cyfrifo sydd hefyd yn gyfrifol am gynnwys arall y cyfrifon. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar pa un a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi darlun teg o'r gweithgareddau hynny gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidir gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ac a gawsant eu paratoi'n gywir yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau'r Adran Gyllid a Phersonél yn ôl gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant ym mhob ystyr berthnasol ei ddefnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir yn fy marn i, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall yn y Cyfrifon, ac yn ystyried pa un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 4 a 5 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth ag arweiniad y Trysorlys, sef Rheolaeth Gorfforaethol a'r Datganiad ar y System o Reoli Arian yn Fewnol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth ar sail prawf sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiad cyfrifon. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifo wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth, ac a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ym mhob ystyr berthnasol, wedi ei ddefnyddio i'r diben a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiad cyfrifon.



Tystysgrif archwiliad

## Barn

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiad cyfrifon ddarlun teg o grynodeb o'r canlyniadau adnoddau, y gost adnoddau net am y flwyddyn ariannol ac o ofynion cyllid arian gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth a chawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl gofynion y Ddeddf gan Adran Gyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon; ac
- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon, a chydymffurfia'r trafodion ariannol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol

15 Ionawr 2003

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

## Datganiad o gyfrifoldebau'r
# swyddog cyfrifo

1. O dan adran 39(7) a rhestr 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon gan adrodd ar y cyllido a'r gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (yr Adran) am bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan yr Adran, a dylai'r datganiad cyfrifon roi manylion yr adnoddau a ddarparwyd gan yr Adran gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.
2. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg o grynodeb y cynnyrch adnoddau, cost adnoddau net am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a chysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon am y flwyddyn.
3. Mae Trysorlys EM wedi apwyntio'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a'u trosglwyddo i'r Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.
4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, mor bell â'i fod yn berthnasol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran, ac yn arbennig i:
   a. arsylwi ar y gofynion cyfrifeg a datguddiad perthnasol, a rhoi mewn lle bolisïau cyfrifeg addas yn gyson;
   b. rhoi barn ac amcangyfrif ar sail rhesymol;
   c. nodi os yw safonau cyfrifeg cymwys, fel a nodir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau, wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau o bwys yn y cyfrifon;
5. Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo (yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Adran) eu nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo a gyflwynwyd gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yng Nghyfrifeg y Llywodraeth.

Geoffrey Podger
Swyddog Cyfrifo
28 Tachwedd 2002



## Datganiad rheolaeth mewnol ar gyfer
# ASB Gogledd Iwerddon

Fel Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system rheolaeth mewnol gadarn sy'n cefnogi cyrhaeddiad polisïau trefniadol, nodau ac amcanion fel a osodwyd gan Fwrdd yr ASB a'r Ddeddf Safonau Bwyd, tra'n gwarchod yr arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi o fewn Cyfrifeg Llywodraeth.

Mae'r system rheolaeth mewnol wedi ei gynllunio i reoli yn hytrach na gwneud i ffwrdd â'r perygl o fethu â chwrdd â pholisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

Mae'r system o reolaeth mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus o adnabod y prif beryglon rhag gallu cwrdd â pholisïau trefniadol, nodau ac amcanion, gwerthuso natur a maint y peryglon hynny a'u rheoli yn effeithlon, effeithiol ac yn economaidd. Disgwyliaf gael y broses hon yn ei lle a bod wedi gweithredu ar yr holl Gyfarwyddyd Trysorlys erbyn Mawrth 2003. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i osod y prosesau yn llawn, y mae'r ASB wedi cytuno y dylid eu sefydlu, a'u cryfhau.

Er y caiff gweithgareddau ASB Gogledd Iwerddon eu hariannu drwy Gynulliad Gogledd Iwerddon, y mae'n rhan o Asiantaeth Safonau Bwyd y Deyrnas Unedig, ac nid corff gyda chyfansoddiad ar wahân. Mae'r rheolaethau mewnol a risgiau y swyddfeydd datganoledig yr un peth ag ydyw i weddill yr ASB. Caiff y corff ei reoli fel endid unigol, waeth sut y caiff y darnau cydrannol eu hariannu.

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd eisoes lawer o'r elfennau allweddol yn eu lle o ran system rheolaeth mewnol effeithiol yn cynnwys:

- cyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU sy'n gweithredu fel "Bwrdd Rheoli" yr ASB;
- trefniadau archwiliad mewnol, yn cynnwys rhaglen archwiliad wedi ei seilio ar risg yn gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cyd-fynd â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd drwy archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol o addasrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth mewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- pwyllgor Archwiliad a Risg, sy'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn gyda'r Cadeirydd yn adrodd i Fwrdd yr ASB;
- cynllun strategol sy'n gosod allan brif nodau ac amcanion yr ASB am y 5 mlynedd nesaf;
- proses cynllunio busnes ac ariannol sy'n llifo drwy'r sefydliad (cynlluniau busnes corfforaethol a lleol) ac sy'n benodol yn cysylltu amcanion busnes, dyraniad adnoddau a'r ystyriaeth o risg busnes;
- rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth i'r broses cynllunio busnes sy'n cynnwys rheolaeth risg;
- adroddiadau perfformiad rheolaidd i gyfarfodydd misol y Prif Weithredwr ac i Fwrdd yr ASB ar gyfer cynllunio ariannol a busnes;
- cofrestr o risgiau strategol sy'n cynnwys cyfres gynhwysfawr o gynlluniau triniaeth gyda pherchnogaeth glir o'r peryglon a'r gweithredu, a dyddiadau wedi eu cytuno arnynt ar gyfer ymgymryd â'r mater/adolygu;
- adolygiad ffurfiol rheolaidd (chwarterol) o'r gofrestr risg yng nghyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU; ac
- adroddiad cynnydd rheolaidd (bob 6 mis) ar reoliadau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i Fwrdd yr ASB.

Mae tîm rheoli'r ASB wedi ymgorffori rheolaeth risg a rheoliadau mewnol i mewn i agenda fusnes y mudiad fel eu bod yn cael eu hadolygu a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae rheolaeth risg hefyd wedi ei ymgorffori yn llawnach i mewn i'r broses cynllunio busnes fel modd o sicrhau ymwybyddiaeth risg o fewn y sefydliad. Mae'r broses gynllunio wedi ei chefnogi yn llawn drwy raglen o gefnogaeth wedi ei thargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad.

Yn ychwanegol i'r camau a nodwyd uchod, yn y flwyddyn sydd i ddod mae'r ASB yn bwriadu:

- cyhoeddi datganiad polisi risg a llawlyfr rheolaeth risg yn gosod allan y trefniadau sydd mewn lle o fewn y sefydliad i reoli risg busnes, yn cynnwys y broses ar gyfer cynnydd risg a chyfrifoldebau unigolion drwy'r sefydliad;
- parhau i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant wedi ei dargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad yn cynnwys swyddfeydd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a'r GHC; a
- chael sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar y rheoliadau mewnol a chael cynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r GHC.

Hysbysir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr ASB a'r GHC sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

**Geoffrey Podger**
**Prif Weithredwr**
**28 Tachwedd 2002**



*Asiantaeth Safonau Bwyd – Gogledd Iwerddon*

# Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | 2001/02 | | | | | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Cynnyrch | | | Cyfanswm Net Cynnyrch o'i gymharu â'r Arbediad Tybiedig/ (yr hyn sydd dros ben) | Cynnyrch y flwyddyn flaenorol |
| | Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cais am Adnoddau** | | | | | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd cyhoeddus mewn perthynas â bwyd | 1,200 | - | 1,200 | 1,245 | - | 1,245 | (45) | 902 |
| **Cyfanswm adnoddau** | **1,200** | **-** | **1,200** | **1,245** | **-** | **1,245** | **(45)** | **902** |

## Cysoniad Cynnyrch Adnoddau Net i'r angen arian parod net

| | Nodyn | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Cynnyrch Adnoddau Net | | 1,245 | 902 |
| **Cymwysiadau Croniadau:** | | | |
| Ail-godiant am ddefnydd o ased sefydlog | 3 | (33) | (24) |
| Eitemau eraill heb fod yn ariannol | 3 | (39) | (20) |
| Cynnydd (+) /Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a blaendaliadau | 6 | (18) | 32 |
| Cynnydd (-) /Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | (4) | (21) |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | - | 89 |
| Angen Ariannol Net | | 1,151 | 958 |

### Cysoniad angen ariannol net i arian gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| Angen arian parod net | (1,151) | (958) |
| Mantolen arian a ddygwyd ymlaen | (10) | - |
| Nawdd arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer 2001/02 | 772 | 518 |
| Nawdd arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer 2000/01 | 10 | - |
| Nawdd arian parod a ddarparwyd yn anuniongyrchol drwy Gynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer 2001/02 | 402 | 430 |
| Arian a ddygwyd ymlaen | 23 | (10) |

## Datganiad Costau Rhedeg ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddu** | | | | |
| Costau Staff | 2 | - | | - |
| Costau Gweinyddu Eraill | 3 | 1,029 | | 706 |
| Costau Gweinyddu Gros | | | 1,029 | 706 |
| Incwm Gweithredol | | | - | - |
| **Costau Gweinyddu Net** | | | **1,029** | **706** |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd cyhoeddus mewn perthynas â bwyd | | | | |
| Gwariant | | 216 | | 196 |
| Llai incwm | | - | | - |
| **Cyfanswm** | 4 | | **216** | **196** |
| **Cost rhedeg net** | | | **1,245** | **902** |

Mae crynodeb y cynnyrch adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros gan ASB Gogledd Iwerddon gyda gwir wariant. Nid oes ganddo yr un swyddogaeth â'r 'Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau', fel a ddiffinnir gan Ganllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel mecanwaith rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol y Cynulliad ar gyfer gorwariant yn erbyn amcangyfrif.

Geoffrey Podger, Swyddog Cyfrifo, 28 Tachwedd 2002

nodiadau

Nodiadau ar y
# cyfrifon

**1 Polisïau Cyfrifeg**

**1.1 Ystod y Cyfrifon**

Adran o'r Llywodraeth sydd heb fod yn Weinidogol yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a sefydlwyd gan y Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr ASB gyfrifoldeb i amddiffyn iechyd cyhoeddus rhag y peryglon sy'n codi o fwyta, ac fel arall i amddiffyn buddiannau prynwyr mewn cysylltiad â bwyd ar draws y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r ASB hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban drwy ei thair swyddfa. ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol yma yn adrodd ar gynnyrch adnoddau net, costau rhedeg net a chostau ariannol gweithrediadau'r ASB. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r ASB yng Ngogeldd Iwerddon, sy'n cael eu cyllido ar wahân gan symiau a benderfynwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Nid yw'r datganiadau'n cynnwys costau cyffredinol canolog yr ASB, sy'n cael eu cyllido gan arian a benderfynwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r ASB.

Cynhyrchir cyfrifon ar wahân yn ogystal ar gyfer gweithgareddau'r ASB yn yr Alban a Chymru, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol o'r ASB, a chaiff cyfrif cyfunol ei gynhyrchu yn ogystal, yn adrodd ar weithgareddau'r ASB yn ei chyfanrwydd.

**1.2 Sail Paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifo a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Adran Gyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon a'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd yma fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Cyfrifeg ac Adnoddau'r Llywodraeth 2000 a'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999, caiff holl gyfrifon yr ASB eu harchwilio gan y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

**1.3 Confensiwn Cyfrifeg**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi i gynrychioli'n deg grynodeb o'r cynnyrch adnoddau, y cost adnoddau net ar gyfer y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ac i gysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar yr angen yma, mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail cronedig ac yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM, mor bell â'i fod yn berthnasol ac yn addas i'r asiantaeth.

**1.4 Sail Cyllido**

Darperir nawdd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar y sail y bwriedir iddo gwrdd â chostau ariannol net am y cyfnod. Mae'r Datganiad Costau Rhedeg yn Rhestr 1 felly'n dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i gynnyrch yr adnoddau sy'n seiliedig ar groniadau, er mwyn cyrraedd cyfanswm yr arian sydd i'w gyllido gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae Atodlen 1 felly yn adlewyrchu'r cymwysiadau i gymryd i ystyriaeth:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n aros heb eu talu ar 31ain Mawrth 2002;
b) costau ariannol pryniant asedau sefydlog, yn hytrach na phris dibrisiant sy'n cael ei adlewyrchu yng nghynnyrch yr adnoddau; a
c) thynnu costau sydd heb fod yn ariannol megis y ffi archwilio, sydd, er yn cael ei gyfrif amdano yn y cynnyrch adnoddau, ddim angen taliad ariannol. Darperir manylion pellach yn nodyn 3 y cyfrifon hyn.

**1.5 Gwariant Gweinyddol a'r Rhaglen**

Dadansoddir y datganiad costau rhedeg rhwng y costau gweinyddu a'r rhaglen. Mae costau gweinyddu yn adlewyrchu costau rhedeg yr ASB fel a ddynodir o dan y drefn rheoli cost gweinyddu.

Mae costau'r Rhaglen yn adlewyrchu costau sydd heb fod yn weinyddol, yn cynnwys treuliau eraill gan yr ASB.

**1.6 Pensiynau**

Roedd y mwyafrif o staff a secondiwyd i'r ASB ar fenthyg o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Gweision sifil Gogledd Iwerddon ydynt ar y cyfryw ac fe'u cynhwysir yn narpariaeth Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (NICSPS.) Cynllun anghyfraniadol a di-nawdd yw hwn. Cynllun sy'n diffinio buddiannau yw'r cynllun a'r NICSPS sy'n gyfrifol am dalu unrhyw daliadau buddiannau i'r dyfodol, a chyhoeddir cyfrifon ar wahân ar gyfer y rhain. Mae'r ASB yn cwrdd â chost pensiwn eu staff drwy dalu ffi ar sail cronedig i'r NICSPS. Pan fo staff wedi eu secondio o fudiadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), mae pris wedi ei gynnwys sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

**1.7 Treth Ar Werth**

Cynhwysir gwariant fel net o'r TAW sy'n adferadwy. Caiff TAW anadferadwy ei godi ar y Datganiad Costau Rhedeg.

**1.8 Newid Mewn Polisi Cyfrifo**

Caiff staff sy'n gweithio i ASB Gogledd Iwerddon eu secondio i'r ASB gan gyflogwyr eraill. Yng nghyfrifon 2000/01, cofnododd ASB Gogledd Iwerddon gostau o'r fath fel "costau staff". Mae cyfarwyddyd Trysorlys diweddar yn mynnu fod costau yr holl weithwyr sydd wedi eu secondio i mewn yn cael eu cofnodi fel "costau gweinyddol eraill" o fewn y Datganiad Costau Rhedeg. Mae costau staff sydd wedi eu secondio i mewn wedi eu cofnodi fel "costau rhedeg eraill" yn y cofnodion hyn ac mae ffurfiau cymharol blynyddoedd cynt wedi eu hail nodi i sicrhau cysondeb. Nid oes effaith ar gostau rhedeg blynyddoedd blaenorol, nac ar angen ariannol net o ganlyniad i'r newid hwn.



2

Niferoedd a
# chostau staff

Mae'r holl staff sy'n gweithio yn ASB Gogledd Iwerddon wedi eu secondio i'r ASB gan gyflogwyr eraill, ac yn aros ar restr gyflogi'r cyflogwyr eraill. Yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM mae costau eu cyflogaeth wedi eu hystyried yn y cyfrifon hyn fel "costau gweinyddol eraill". Fodd bynnag, mae'r nodyn hwn yn darparu datguddiadau ar gostau gweinyddol eraill mewn perthynas â staff sy'n debyg i'r rhai sy'n ofynnol gan y llawlyfr cyfrifeg adnoddau ar gyfer costau staff.

| | | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| a) | Mae costau staff yn cynnwys: | | |
| | Taliadau a Chyflogau | 497 | 349 |
| | Costau Nawdd Cymdeithasol | 42 | 29 |
| | Costau Pensiwn Eraill | 66 | 55 |
| | | 605 | 433 |

| | | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| b) | Cyfartaledd y nifer o bobl a gyflogwyd gan ASB Gogledd Iwerddon yn ystod y flwyddyn 2001/02 yn ôl amcan, oedd fel a ganlyn: | | |
| | Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | 8 | 7 |
| | Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/05 | 2 | 2 |
| | Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy well diogelwch a safonau bwyd | 8 | 8 |
| | | **18** | **17** |

Mae'r mwyafrif o staff sy'n gweithio yn ASB Gogledd Iwerddon wedi eu secondio o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, Adran Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig Gogledd Iwerddon neu gynghorau lleol amrywiol yng Ngogledd Iwerddon.

Telir cyflogau ar gyfer rhai wedi eu secondio o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol gan yr Adran honno o'r gofynion ariannu uniongyrchol. Telir costau cyflog rhai eraill sydd wedi eu secondio gan gyflogwr gwreiddiol y person sydd wedi ei secondio a'i adennill gan yr ASB drwy anfoneb.

| | | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| c) | Roedd y Costau Staff yn ôl amcan fel a ganlyn: | | |
| | Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 260 | 186 |
| | Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/05 | 45 | 32 |
| | Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy well diogelwch a safonau bwyd | 300 | 215 |
| | | **605** | **433** |

ch) Cydnabyddiaeth Rheolaeth

| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd yn y Pensiwn a Enillir | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig |
|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| | (£000) | (£000) | (£000) |
| Morris McAllister, ASB Gogledd Iwerddon | 55-60 | 0-2.5 | 20-25 |

Mae holl aelodau Grŵp Rheoli'r ASB wedi gwrthod rhoi caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.

# 3 Costau gweinyddol eraill

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| Costau Staff wedi eu Secondio (Nodyn 2) | 576 | 433 |
| Rhenti o dan brydlesau gweithredol: | | |
| Llogi offer a pheiriannau | 7 | 2 |
| Prydlesau gweithredol eraill | 68 | 73 |
| Eitemau heb fod yn ariannol: | | |
| Ail-godiant ar gyfer defnydd o ased sefydlog | 33 | 24 |
| Ffioedd Archwiliad | 10 | 20 |
| Staff wedi eu Secondio | 29 | |
| Costau Llety | 59 | 46 |
| Costau Cyffredinol Staff | 68 | 33 |
| Costau Gweinyddu | 95 | 19 |
| Costau TG | 31 | 23 |
| Costau Pwyllgor | 53 | 33 |
| | 1,029 | 706 |

# 4 Costau Net y rhaglen

a **Costau Net y Rhaglen**

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| **Monitro a Goruchwylio:** | | |
| Awdurdod Lleol | 181 | 180 |
| Diogelwch y Gadwyn Fwyd | 35 | 16 |
| | 216 | 196 |

b **Costau Net y Rhaglen yn ôl Amcanion**

| | | |
|---|---|---|
| Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | - | - |
| Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrch u yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/05 | 190 | 179 |
| Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy well diogelwch a safonau bwyd | 26 | 17 |
| | 216 | 196 |

# 5 Trafodion Personau cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phersonau cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion sylweddol gyda'r ASB yn ystod y flwyddyn. Mae'r ASB wedi cael nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Caiff swyddfa ddatganoledig yr ASB yng Ngogledd Iwerddon ei staffio gan swyddogion ar fenthyg o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, Adran Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig Gogledd Iwerddon a chynghorau amrywiol eraill yng Ngogledd Iwerddon.

# 6 Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithredol heblaw am Arian

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a blaendaliadau | (18) | 32 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (4) | (21) |
| | (22) | 11 |

# 7 dyledwyr

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| **Cyfansymiau a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr a blaendaliadau eraill | 15 | 33 |
| **Cyfanswm dyledwyr** | 15 | 33 |

# 8 credydwyr

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Credydwyr masnach** | 12 | 42 |
| Incwm gohiriedig cronedig | 38 | 4 |
| **Cyfansymiau a gafwyd o'r Gronfa Gyfunol (GI) ar gyfer cyflenwi ond heb ei wario yn y flwyddyn** | 23 | - |
| | **73** | **46** |

# 9 Pwyllgor ymgynghorol

Yn ychwanegol i'r prif Fwrdd ASB, mae gan yr ASB bwyllgorau ymgynghorol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol i'r ASB. Cânt eu cadeirio gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol drwy ddeddf i Fwrdd yr ASB gymryd i ystyriaeth eu cyngor tra'n ymgymryd â'i waith. Rhestrir isod Aelodau'r Pwyllgor:

**Gogledd Iwerddon - Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

Michael Walker (Cadeirydd)
Patricia Grace McCusker
Yr Athro David McDowell
Maria McGuinness
David Mark
William Taylor
David Collins
Samuel Miskelly
David Stewart
Dr.Vinod Tohani

# roddwyd

## Cyfarwyddyd Cyfrifo a Roddwyd gan Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd gyda Chymeradwyaeth Adran Gyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon yn Unol ag Adran 39(7) ac Atodlen 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (GI) yn adrodd am ei nawdd a'i gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus mewn Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- Crynodeb o gynnyrch adnoddau
- Datganiad costau rhedeg; a
- Rhestr yn cymodloni cynnyrch adnoddau net i'r symiau a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Cais am Adnodd B

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb teg o'r cynnyrch adnoddau, cost adnoddau net ar gyfer y flwyddyn ariannol, gwariant cyfalaf y flwyddyn ac yn cymodloni cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon am y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar yr angen yma, bydd y datganiad cyfrifon hefyd yn cael ei baratoi yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair, datganiad o beth yw'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol, na datganiad o adnoddau sy'n berthnasol i amcanion, enillion a cholledion a llif arian ar wahân ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben.

Bydd y cyfarwyddyd yma yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Arwyddwyd drwy Awdurdod Adran Iechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd.
Medi 2001

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Cymru
# Datganiad Cyfrifon

Datganiad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002





## CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Tystysgrif archwiliad – Cymru | 102 |
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 104 |
| Datganiad rheolaeth mewnol ar gyfer ASB Cymru | 105 |
| Crynodeb o gynnyrch adnoddau – Cymru | 107 |
| Nodiadau ar y cyfrifon | 108 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 113 |

# Tystysgrif archwiliad

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 6 i 11 o dan Atodlen 4(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 7 i 9.

## Priod Gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 3, y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ôl gofynion y Ddeddf ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Y Swyddog Cyfrifo sydd hefyd yn gyfrifol am gynnwys arall y cyfrifon. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar pa un a yw'r datganiad cyfrifon yn rhoi darlun teg o'r gweithgareddau hynny gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a gafodd ei baratoi'n gywir yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban yn ôl gofynion y Ddeddf, ac a gafodd y gwariant ym mhob ystyr berthnasol ei ddefnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cendlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad os nad yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir yn fy marn i, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall yn y Cyfrifon, ac yn ystyried pa un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 4 a 5 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Asiantaeth ag arweiniad y Trysorlys, sef Rheolaeth Gorfforaethol a'r Datganiad ar y System o Reoli Arian yn Fewnol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth ar sail prawf sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiad cyfrifon. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan y Swyddog Cyfrifo wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth, ac a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ym mhob ystyr berthnasol, wedi ei ddefnyddio i'r diben a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiad cyfrifon.





## Barn

Yn fy marn i

- rhydd y datganiad cyfrifon ddarlun teg o grynodeb o'r canlyniadau adnoddau, y gost adnoddau net am y flwyddyn ariannol ac o ofynion cyllid arian gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a gyllidwyd gan Senedd yr Alban am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth a chawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl gofynion y Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a chydymffurfia'r trafodion ariannol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol

15 Ionawr 2003

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

Datganiad o gyfrifoldebau'r

# swyddog cyfrifo

1. O dan adran 39(7) a rhestr 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon gan adrodd ar y cyllido a'r gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) am bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a dylai'r datganiad cyfrifon roi manylion yr adnoddau a ddarparwyd gan y Cynulliad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.
2. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg o grynodeb y cynnyrch adnoddau, cost adnoddau net am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a chysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o'r Cynulliad am y flwyddyn.
3. Mae Trysorlys EM wedi apwyntio'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a'u trosglwyddo i'r Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.
4. Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, mor bell â'i fod yn berthnasol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran, ac yn arbennig i:
   a. arsylwi ar y gofynion cyfrifeg a datguddiad perthnasol, a rhoi mewn lle bolisïau cyfrifeg addas yn gyson;
   b. rhoi barn ac amcangyfrif ar sail rhesymol;
   c. nodi os yw safonau cyfrifeg cymwys, fel a nodir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau, wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau o bwys yn y cyfrifon;
5. Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo (yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Adran) eu nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo a gyflwynwyd gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yng Nghyfrifeg y Llywodraeth.

**Geoffrey Podger**
**Swyddog Cyfrifo**
**28 Tachwedd 2002**



Datganiad rheolaeth mewnol ar gyfer

# ASB Cymru

Fel Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system rheolaeth mewnol gadarn sy'n cefnogi cyrhaeddiad polisïau trefniadol, nodau ac amcanion fel a osodwyd gan Fwrdd yr ASB a'r Ddeddf Safonau Bwyd, tra'n gwarchod yr arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi o fewn Cyfrifeg Llywodraeth.

Mae'r system rheolaeth mewnol wedi ei gynllunio i reoli yn hytrach na gwneud i ffwrdd â'r perygl o fethu â chwrdd â pholisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd

Mae'r system o reolaeth mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus o adnabod y prif beryglon rhag gallu cwrdd â pholisïau trefniadol, nodau ac amcanion, gwerthuso natur a maint y peryglon hynny a'u rheoli yn effeithlon, effeithiol ac yn economaidd. Disgwyliaf gael y broses hon yn ei lle a bod wedi gweithredu ar yr holl Gyfarwyddyd Trysorlys erbyn Mawrth 2003. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i osod y prosesau yn llawn, y mae'r ASB wedi cytuno y dylid eu sefydlu, a'u cryfhau.

Er y caiff gweithgareddau ASB Cymru eu hariannu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y mae'n rhan o Asiantaeth Safonau Bwyd y Deyrnas Unedig, ac nid corff gyda chyfansoddiad ar wahân. Mae'r rheolaethau mewnol a risgiau y swyddfeydd datganoledig yr un peth ag ydyw i weddill yr ASB. Caiff y corff ei reoli fel endid unigol, waeth sut y caiff y darnau cydrannol eu hariannu.

Fel Swyddog Cyfrifeg, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd eisoes lawer o'r elfennau allweddol yn eu lle o ran system rheolaeth mewnol effeithiol yn cynnwys:

- cyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU sy'n gweithredu fel "Bwrdd Rheoli" yr ASB;
- trefniadau archwiliad mewnol, yn cynnwys rhaglen archwiliad wedi ei seilio ar risg yn gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cyd-fynd â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd drwy archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol o addasrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth mewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- pwyllgor Archwiliad a Risg, sy'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn gyda'r Cadeirydd yn adrodd i Fwrdd yr ASB;
- cynllun strategol sy'n gosod bllan brif nodau ac amcanion yr ASB am y 5 mlynedd nesaf;
- proses cynllunio busnes ac ariannol sy'n llifo drwy'r sefydliad (cynlluniau busnes corfforaethol a lleol) ac sy'n benodol yn cysylltu amcanion busnes, dyraniad adnoddau a'r ystyriaeth o risg busnes;
- rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth i'r broses cynllunio busnes sy'n cynnwys rheolaeth risg;
- adroddiadau perfformiad rheolaidd i gyfarfodydd misol y Prif Weithredwr ac i Fwrdd yr ASB ar gyfer cynllunio ariannol a busnes;
- cofrestr o risgiau strategol sy'n cynnwys cyfres gynhwysfawr o gynlluniau triniaeth gyda pherchnogaeth glir o'r peryglon a'r gweithredu, a dyddiadau wedi eu cytuno arnynt ar gyfer ymgymryd â'r mater/adolygu;
- adolygiad ffurfiol rheolaidd (chwarterol) o'r gofrestr risg yng nghyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU; ac
- adroddiad cynnydd rheolaidd (bob 6 mis) ar reoliadau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i Fwrdd yr ASB.

Mae tîm rheoli'r ASB wedi ymgorffori rheolaeth risg a rheoliadau mewnol i mewn i agenda fusnes y mudiad fel eu bod

yn cael eu hadolygu a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae rheolaeth risg hefyd wedi ei ymgorffori yn llawnach i mewn i'r broses cynllunio busnes fel modd o sicrhau ymwybyddiaeth risg o fewn y sefydliad. Mae'r broses gynllunio wedi ei chefnogi yn llawn drwy raglen o gefnogaeth wedi ei thargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad.

Yn ychwanegol i'r camau a nodwyd uchod, yn y flwyddyn sydd i ddod mae'r ASB yn bwriadu:

- cyhoeddi datganiad polisi risg a llawlyfr rheolaeth risg yn gosod allan y trefniadau sydd mewn lle o fewn y sefydliad i reoli risg busnes, yn cynnwys y broses ar gyfer cynnydd risg a chyfrifoldebau unigolion drwy'r sefydliad;
- parhau i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant wedi ei dargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad yn cynnwys swyddfeydd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a'r GHC; a
- chael sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar y rheoliadau mewnol a chael cynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r GHC.

Hysbysir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr ASB a'r GHC sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

**Geoffrey Podger**
**Prif Weithredwr**
**28 Tachwedd 2002**



*Asiantaeth Safonau Bwyd – Cymru*

# Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau

## ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | 2001/02 | | | | | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Cynnyrch | | | Cyfanswm Net Cynnyrch o'i gymharu ag Arbediad Tybiedig/(yr hyn sydd dros ben) | Cynnyrch y Flwyddyn Flaenorol |
| | Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | A-yn-A | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cais am Adnoddau** | | | | | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd cyhoeddus mewn perthynas â bwyd | 2,029 | - | 2,029 | 2041 | - | 2,041 | (12) | 1,454 |
| **Cyfanswm adnoddau** | **2,029** | **-** | **2,029** | **2,041** | **-** | **2,041** | **(12)** | **1,454** |

## Cysoniad Cynnyrch Adnoddau Net i'r angen arian parod net

| | Nodyn | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Angen arian parod net** | | **2,041** | **1,454** |
| **Cynnyrch Adnoddau Net** | | | |
| Eitemau eraill heb fod yn ariannol | 3 | (29) | (24) |
| Eitemau eraill heb fod yn ariannol | 3 | (10) | (20) |
| Cynnydd (+) / Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a blaendaliadau | 6 | 16 | - |
| Cynnydd (-) / Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | (161) | (69) |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Gwariant cyfalaf | | 71 | 21 |
| **Angen Ariannol Net** | | **1,928** | **1,362** |

### Cysoniad angen arian parod net i arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| **Angen arian parod net** | **(1,928)** | **(1,362)** |
| **Arian a ddygwyd ymlaen** | **(28)** | **-** |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2001/02** | **1,508** | **1,007** |
| **Nawdd arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2000/01** | **28** | **327** |
| **Nawdd arian parod a ddarparwyd yn anuniongyrchol drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2001/02** | **490** | **-** |
| **Arian a Ddygwyd Ymlaen** | **70** | **(28)** |

## Datganiad Costau Rhedeg ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddu** | | | | |
| Costau Staff | 2 | 61 | | - |
| Costau Gweinyddu Eraill | 3 | 942 | | 718 |
| Costau Gweinyddu Gros | | | 1,003 | 718 |
| Incwm Gweithredol | | | - | - |
| **Costau Gweinyddu Net** | | | **1,003** | **718** |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd cyhoeddus mewn perthynas â bwyd | | | | |
| Gwariant | | 1,038 | | 736 |
| Llai incwm | | - | | - |
| **Cyfanswm** | 4 | | **1,038** | **736** |
| **Costau Rhedeg Net** | | | **2,041** | **1,454** |

Mae crynodeb y cynnyrch adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros gan ASB Cymru gyda gwir wariant. Nid oes ganddo yr un swyddogaeth â'r Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau', fel a ddiffinnir gan Ganllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel mecanwaith rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol y Cynulliad ar gyfer gorwariant yn erbyn amcangyfrif.

Geoffrey Podger, Swyddog Cyfrifo, 28 Tachwedd 2002

# Nodiadau ar y cyfrifon

**1 Polisïau Cyfrifeg**

**1.1 Ystod y Cyfrifon**

Adran o'r Llywodraeth sydd heb fod yn Weinidogol yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a sefydlwyd gan y Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr ASB gyfrifoldeb i amddiffyn iechyd cyhoeddus rhag y peryglon sy'n codi o fwyta, ac fel arall i amddiffyn buddiannau prynwyr mewn cysylltiad â bwyd ar draws y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r ASB hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol yma yn adrodd ar gynnyrch adnoddau net, costau rhedeg net a chostau ariannol gweithrediadau'r ASB. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r ASB yng Nghymru, sy'n cael eu cyllido ar wahân gan symiau a benderfynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nid yw'r datganiadau'n cynnwys costau cyffredinol canolog yr ASB, sy'n cael eu cyllido gan arian a benderfynwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r ASB. Cynhyrchir cyfrifon ar wahân yn ogystal ar gyfer gweithgareddau'r ASB yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol o'r ASB, a chaiff cyfrif cyfunol ei gynhyrchu yn ogystal, yn adrodd ar weithgareddau'r ASB yn ei chyfanrwydd.

**1.2 Sail Paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff y Cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Adnoddau a Chyfrifeg y Llywodraeth 2000 a'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999, caiff holl gyfrifon yr ASB eu harchwilio gan y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

**1.3 Confensiwn Cyfrifeg**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi i gynrychioli'n deg grynodeb o'r cynnyrch adnoddau, y cost adnoddau net ar gyfer y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ac i gysoni'r cynnyrch adnoddau net i'r symiau a dalwyd allan o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar yr angen yma, mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail cronedig ac yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM, mor bell â'i fod yn berthnasol ac yn addas i'r asiantaeth.

**1.4 Sail Cyllido**

Darperir nawdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y sail y bwriedir iddo gwrdd â chostau ariannol net am y cyfnod. Mae'r Datganiad Costau Rhedeg yn Atodlen 1 felly'n dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i gynnyrch yr adnoddau sy'n seiliedig ar groniadau, er mwyn cyrraedd cyfanswm yr arian sydd i'w gyllido gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Atodlen 1 felly yn adlewyrchu'r cymwysiadau i gymryd i ystyriaeth:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n aros heb eu talu ar 31ain Mawrth 2002;

b) costau ariannol pryniant asedau sefydlog, yn hytrach na phris dibrisiant sy'n cael ei adlewyrchu yng nghynnyrch yr adnoddau; a

c) thynnu costau sydd heb fod yn ariannol megis y ffi archwilio, sydd, er yn cael ei gyfrif amdano yn y cynnyrch adnoddau, ddim angen taliad ariannol. Darperir manylion pellach yn nodyn 3 y cyfrifon hyn.

**1.5 Gwariant Gweinyddol a'r Rhaglen**

Dadansoddir y datganiad costau rhedeg rhwng y costau gweinyddu a'r rhaglen. Mae costau gweinyddu yn adlewyrchu costau rhedeg yr ASB fel a ddynodir o dan y drefn rheoli cost gweinyddu. Mae costau'r Rhaglen yn adlewyrchu costau sydd heb fod yn weinyddol, yn cynnwys treuliau eraill gan yr ASB.

**1.6 Pensiynau**

Roedd y mwyafrif o staff a secondiwyd i'r ASB ar fenthyg o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gweision sifil ydynt ar y cyfryw ac fe'u cynhwysir yn narpariaeth Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS.) Cynllun anghyfraniadol a di-nawdd yw hwn. Cynllun sy'n diffinio buddiannau yw'r cynllun a'r PCSPS sy'n gyfrifol am dalu unrhyw daliadau buddiannau i'r dyfodol, a chyhoeddir cyfrifon ar wahân ar gyfer y rhain. Mae'r ASB yn cwrdd â chostau pensiwn eu staff drwy dalu ffi ar sail cronedig i'r PCSPS. Pan fo staff wedi eu secondio o fudiadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), mae pris wedi ei gynnwys sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

**1.7 Treth Ar Werth**

Cynhwysir gwariant fel net o'r TAW sy'n adferadwy. Caiff TAW anadferadwy ei godi ar y Datganiad Costau Rhedeg.

**1.8 Newid Mewn Polisi Cyfrifo**

Caiff staff sy'n gweithio i ASB Cymru eu secondio i'r ASB gan gyflogwyr eraill. Yng nghyfrifon 2000/01, cofnodwyd costau o'r fath gan ASB Cymru fel "costau staff". Mae cyfarwyddyd Trysorlys diweddar yn mynnu fod costau yr holl weithwyr sydd wedi eu secondio i mewn yn cael eu cofnodi fel "costau gweinyddol eraill" o fewn y Datganiad Costau Rhedeg. Mae costau staff sydd wedi eu secondio i mewn wedi eu cofnodi fel "costau rhedeg eraill" yn y cofnodion hyn ac mae ffurfiau cymharol blynyddoedd cynt wedi eu hail nodi i sicrhau cysondeb. Nid oes effaith ar gostau rhedeg blynyddoedd blaenorol, nac ar angen ariannol net o ganlyniad i'r newid hwn.



# 2 Niferoedd a Chostau Staff wedi eu Secondio

Mae'r mwyafrif o'r staff sy'n gweithio yn ASB Cymru wedi eu secondio o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Telir costau cyflogau ar gyfer gweithwyr wedi eu secondio o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn uniongyrchol gan y Cynulliad allan o'r angen cyllido uniongyrchol.

| | | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd |
| a) | Mae Costau Staff yn cynnwys: | | |
| | Costau Staff | 61 | - |
| | Staff wedi eu secondio'n fewnol | 490 | 332 |
| | | 551 | 332 |
| | Taliadau a Chyflogau | 459 | 276 |
| | Costau Nawdd Cymdeithasol | 29 | 20 |
| | Costau Pensiwn Eraill | 63 | 36 |
| | | 551 | 332 |

| | | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| b) | Cyfartaledd y nifer o bobl a gyflogwyd gan ASB Cymru yn ystod y flwyddyn yn ôl amcan oedd fel a ganlyn: | | |
| | Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | 5 | 3 |
| | Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/2005 | 8 | 6 |
| | Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy well diogelwch a safonau bwyd | 9 | 8 |
| | | 22 | 17 |

| | | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd |
| c) | Roedd y Costau Staff yn ôl amcan fel a ganlyn: | | |
| | Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 119 | 79 |
| | Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/2005 | 177 | 113 |
| | Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy well diogelwch a safonau bwyd | 255 | 140 |
| | | 551 | 332 |

d) Cydnabyddiaeth Rheolaeth

| | | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd yn y Pensiwn a Enillir | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| | | | (£000) | (£000) | (£000) |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr, ASB Cymru | | 45-50 | 0-2.5 | 5-10 |

Mae holl aelodau Grwp Rheoli'r ASB wedi gwrthod rhoi caniatâd i gyhoeddi eu hoedran

# 3 Costau gweinyddol eraill

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| Costau staff wedi eu secondio (nodyn2) | 490 | 332 |
| Rhenti o dan lesau gweithredol: | | |
| Llogi offer a pheiriannau | 34 | 7 |
| Prydlesau gweithredol eraill | 51 | 49 |
| Eitemau sydd heb fod yn ariannol: | | |
| Ail godiant ar gyfer defnydd o ased sefydlog | 29 | 24 |
| Ffioedd archwiliad | 10 | 20 |
| Costau rhedeg | 10 | 4 |
| Costau llety | 41 | 26 |
| Costau cyffredinol staff | 74 | 41 |
| Costau gweinyddu | 113 | 142 |
| Costau TG | 46 | 37 |
| Costau pwyllgor | 44 | 35 |
| Arall | - | 1 |
| | 942 | 718 |

# 4 Costau Net y rhaglen

a Costau Net y Rhaglen

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| **Monitro a Goruchwylio:** | | |
| Diogelwch Radiolegol | - | 4 |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | - | 366 |
| Maetheg | 439 | 21 |
| Adolygu'r Rhaglen | 1 | 345 |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd | 409 | - |
| Gwariant y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 4 | - |
| Amrywiol | 185 | - |
| | 1,038 | 736 |

b Costau Net y Rhaglen yn ôl Amcanion

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| Amcan 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau<br>Diogelwch a safonau Bwyd Cenedlaethol | 142 | 89 |
| Amcan 2<br>Gostwng salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys gostwng<br>Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/2005 | 421 | 320 |
| Amcan 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy well diogelwch a safonau bwyd | 475 | 327 |
| | 1,038 | 736 |

# 5 Trafodion personau cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phersonau cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion sylweddol gyda'r ASB yn ystod y flwyddyn. Mae'r ASB wedi cael nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Caiff swyddfa ddatganoledig yr ASB yng Nghymru ei staffio yn bennaf gan swyddogion ar fenthyg o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

# 6 Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithredol heblaw am Arian

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a blaendaliadau | 16 | - |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (161) | (69) |
| | (145) | (69) |

# 7 Dyledwyr

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| **Cyfansymiau a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill a blaendaliadau | 16 | - |
| **Cyfanswm dyledwyr** | 16 | - |

# 8 Credydwyr

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| **Cyfansymiau a fydd yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr masnach | 38 | 21 |
| Incwm gohiriedig cronedig | 195 | 51 |
| Cyfansymiau a gafwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond heb ei wario yn y flwyddyn | 70 | - |
| | 303 | 72 |

# 9 Pwyllgor ymgynghorol

Yn ychwanegol i'r prif Fwrdd ASB, mae gan yr ASB bwyllgorau ymgynghorol ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol i'r ASB. Cânt eu cadeirio gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol drwy ddeddf i Fwrdd yr ASB gymryd i ystyriaeth eu cyngor tra'n ymgymryd â'i waith. Rhestrir isod Aelodau'r Pwyllgor:

**Cymru – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**
Ann Hemingway (Cadeirydd)
Dr Robert Bell
Dr David Casemore
Gilli Davies
Yr Athro Margaret Griffiths
Yr Athro James Parry
Mrs Dilwen Philips
Yr Athro Robert Pickard
David Smith

# rhoddwyd

## Cyfarwyddyd Cyfrifo a Roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 39(7) ac Atodlen 4 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn adrodd am ei nawdd a'i gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- Crynodeb o gynnyrch adnoddau
- Datganiad costau rhedeg; a
- Rhestr yn cymodloni cynnyrch adnoddau net i'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb teg o'r cynnyrch adnoddau, cost adnoddau net ar gyfer y flwyddyn ariannol, gwariant cyfalaf y flwyddyn ac yn cymodloni cynnyrch adnoddau net i'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn ariannol. Yn ddibynnol ar yr angen yma, bydd y datganiad cyfrifon hefyd yn cael ei baratoi yn unol â gofynion Canllaw Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, i'r graddau y mae'n briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair, datganiad o beth yw'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol, na datganiad o adnoddau sy'n berthnasol i amcanion, enillion a cholledion a llif arian ar wahân ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben. Bydd y cyfarwyddyd yma yn cael ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Arwyddwyd drwy Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5 Medi 2001

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Cyfrifon Dan Nawdd San Steffan

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002





## CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | 116 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo | 121 |
| Datganiad ar y system rheoli fewnol | 122 |
| Tystysgrif Archwilio – ASB | 124 |
| Crynodeb o gynnyrch yr adnoddau | 126 |
| Datganiad cost gweithredu | 127 |
| Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddiedig | 127 |
| Mantolen | 128 |
| Datganiad Llif Arian | 129 |
| Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol | 130 |
| Nodiadau ar y cyfrifon | 131 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys | 147 |

# Adroddiad Blynyddol

## Paratoi'r Cyfrifon

Mae cyfrifon adnoddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sydd wedi eu cyllido gan San Steffan wedi eu paratoi yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd o dan adran 4 o'r Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a chyflwynir y cyfrifon o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Caiff cost swyddfeydd yr ASB yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon eu hariannu drwy'r awdurdod datganoledig perthnasol. Mae'r nawdd hwn wedi ei eithrio o'r cyfrifon yma ond yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol a chyfrifon cyfunol yr ASB a gyhoeddir ar wahân.

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd yr ASB ar 1 Ebrill 2000 drwy Ddeddf Seneddol (Deddf Safonau Bwyd 1999). Prif bwrpas yr asiantaeth yw:

*'Diogelu iechyd cyhoeddus rhag peryglon a allai godi mewn perthynas â bwyta, ac fel arall i amddiffyn buddiannau defnyddwyr mewn cysylltiad â bwyd.'*

Ar 1 Ebrill 2000, daeth y Gwasanaeth Hylendid Cig (GHC) yn asiantaeth weithredol o'r ASB. Sefydlwyd y GHC yn wreiddiol ar 1 Ebrill 1995 fel asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

Cyn creu'r ASB, roedd y Grŵp Cyfun Diogelwch a Safonau Bwyd, (JFSSG) o fewn y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) a'r Adran Iechyd (DH) yn ymgymryd â llawer o'r swyddogaethau y mae'r ASB nawr yn gyfrifol amdanynt. Cafodd y JFSSG ei gynnwys oddi mewn i'r ASB, pan y'i sefydlwyd hi ar 1 Ebrill 2000.

## Nodau'r ASB

Nod yr ASB fel y'i ceir yn ei Chytundeb Darparu Gwasanaeth yw:

1) Gwella hyder y cyhoedd yn nhrefniadau diogelwch a safonau bwyd cenedlaethol (a gallu mesur hynny).
2) Lleihau salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf, yn cynnwys lleihau lefelau o Salmonela mewn cywion ieir a gynhyrchir yn y Du i'w hadwerthu o 50% o leiaf erbyn diwedd 2004/05.
3) Diogelu defnyddwyr drwy well diogelwch a safonau bwyd a hynny drwy:
   a) wella gorfodi gan yr awdurdod lleol;
   b) hyrwyddo defnyddio rheolaethau Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol o fewn busnesau bwyd; a
   c) gwella diogelwch cig ffres drwy weithredu gan y GHC i sicrhau fod rheolaethau gorfodi hylendid yn cael eu gorfodi'n effeithiol.

Mae Atodlen 5 y cyfrifon yn dangos manylion am gostau'r ASB yn y tri nod yma.

Mae enghreifftiau o lwyddiannau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- lansio'r Ymgyrch Hylendid Bwyd ar 11 Chwefror 2002;
- cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar oruchwylio clefydau yn deillio o fwyd a thueddiadau cyfredol ym mis Awst 2001;
- lansio'r wefan newydd, well **www.food.gov.uk** ym mis Rhagfyr 2001;
- cyhoeddi cyngor rhagrybuddiol ar ddatguddiad drwy'r diet i ddiocsinau o goelcerthi Clwy'r Traed a'r Genau ar 25 Mai 2001, a groesawyd;
- cyhoeddwyd yr Adroddiad Tasglu E.coli cyntaf ym mis Gorffennaf 2001; ac
- yn ychwanegol i Gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd drwy'r wlad gyfan, rydym wedi cynnal cyfarfodydd i randdeiliaid i hyrwyddo trafodaeth ar faterion o bwys i ddefnyddwyr a rhai lle nad oes sicrwydd ymhlith gwyddonwyr. Mae hyn wedi cynnwys labelu bwyd sydd wedi eu cynhyrchu o dechnoleg GM a'r risg ddamcaniaethol BSE mewn defaid.

## Cynllun Strategol yr ASB

Ym mis Mai 2001, fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Strategol ar gyfer y blynyddoedd 2001-2006. Mae'r Cynllun yn gosod allan ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd, gwybodaeth cyhoeddus, labelu a dewis, maethiad a diet, a gorfodi cyfraith bwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Ynddo, rydym yn disgrifio sut y byddwn yn rhoi ein gwerthoedd craidd o fod yn agored ar waith. Rydym hefyd yn disgrifio ein hatebolrwydd democrataidd ac yn esbonio beth rydym yn ei wneud i wella'r ffordd rydym yn gweithio.

Ein nod yw cael ein hystyried fel ffynhonnell mwyaf dibynadwy y DU o ran rhoi cyngor a gwybodaeth am fwyd. Rydym eisiau diogelu a gwella diogelwch y bwyd mae pobl yn ei fwyta, a'i gwneud yn bosibl i bobl ddewis diet iach. Dros y cyfnod sy'n cael ei gynnwys yn ein Cynllun Strategol, ein nod yw:

- lleihau salwch sy'n deillio o fwyd o 20% drwy wella diogelwch bwyd drwy'r holl gadwyn fwyd;
- cynorthwyo pobl i wella eu diet;
- hyrwyddo labelu gonest ac addysgiadol i helpu defnyddwyr;
- hyrwyddo arfer gorau o fewn y diwydiant bwyd;
- gwella gorfodaeth cyfraith bwyd; ac
- ennill ymddiriedaeth pobl yn yr hyn a wnawn a'n dull o'iwneud.

## Adolygiad Gweithredol a Chyllidol

Dadansoddiad y gwariant adnoddau yn ôl y corff ariannu oedd:

| | Cyllideb Ar Gael £m | Gwariant £m |
|---|---|---|
| ASB dan nawdd San Steffan | 104.6 | 88.7 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 20.9 | 18.1 |
| Cyfanswm ASB | 125.5 | 106.8 |

Cost net yr ASB dan nawdd San Steffan oedd £106.8m yn erbyn y nawdd o £125.5m oedd ar gael hyd at 31/03/02. Bydd y gwarged yma yn cael ei gario drosodd, gyda chytundeb y Trysorlys, i mewn i 2002/03 i gynorthwyo i fynd i'r afael â phwysau yn y dyfodol yn ymwneud â nawdd sydd eisoes wedi eu hadnabod. Mae'r ASB yn rheoli y gwariant dros Gyfnod Adolygu Gwariant Llywodraeth o dair blynedd.

Cost net y GHC, a ymgorfforwyd yn ffigyrau San Steffan uchod oedd £18.1m, i fyny o £3.7m yn 2000/01. Roedd gostyngiad mewn incwm diwydiant ar gychwyn y flwyddyn o ganlyniad i gychwyn Clwy'r Traed ar Genau. Fodd bynnag roedd yr incwm o'r MAFF ac yn yr un modd Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer gwaith rheoli Clwy'r Traed a'r Genau a ymgymerwyd i ymladd y clwy yn cynnwys diffygion posibl. Mae cost net gweithrediadau'r GGC wedi cynyddu oherwydd fod pris nawr yn cael ei godi ar ffatrïoedd llai ar sail mewnbwn yn hytrach nag ar sail archwiliad bob awr. Tra bo costau'r GHC yr un fath, mae'r incwm canlyniadol yn llai.

Gellir canfod esboniad llawn, yn rhoi manylion ar y gwariant yn erbyn y gyllideb, yn Atodlen 1 o'r cyfrifon hyn. Mae Atodlenni 2 i 5 yn rhoi datganiad costau rhedeg, mantolen, datganiad llif arian ac adnodd yn ôl nod adrannol yn ei dro gyda manylion ychwanegol yn cael eu darparu yn y nodiadau i'r cyfrifon sy'n dilyn y rhestrau.

## Strwythur a Threfniadaeth

Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth yw'r ASB. Mae staff yn atebol drwy Brif Weithredwr i'r Bwrdd, yn hytrach nag yn uniongyrchol i Weinidogion. Penodwyd y Prif Weithredwr gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil o dan reolau'r Comisiwn Gwasanaeth Sifil, gyda chytundeb y Prif Weinidog. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a 12 aelod. Penodwyd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan Ysgrifennydd Gwladol Iechyd, Gweinidogion yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon. Penodwyd dau aelod o'r Bwrdd gan Weinidogion yr Alban, un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac un gan Weinidogion Swyddfa Gogledd Iwerddon. Mae gan yr aelodau yma gyfrifoldeb arbennig dros faterion yn ymwneud â'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Penodwyd yr wyth aelod arall gan y Gweinidog Gwladol Iechyd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfarwyddyd strategol yr ASB yn ei chyfanrwydd, am sicrhau fod goblygiadau cyfreithiol yn cael eu cwrdd, ac am sicrhau fod penderfyniadau a gweithrediadau yn cymryd ystyriaeth gywir o gyngor gwyddonol yn ogystal â buddiannau defnyddwyr a hapddalwyr eraill. Mae'r cynnydd blynyddol yng nghydnabyddiaeth Aelodau'r Bwrdd yn seiliedig ar yr hyn a argymhellir ar gyfer swyddogion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Caiff cyflogau staff Gwasanaeth Sifil Uwch (GSU) eu codi yn unol â system talu ac adolygu GSU canolog yn seiliedig ar berfformiad.

Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Senedd drwy Ysgrifennydd Gwladol Iechyd, i Weinidogion Iechyd yn yr Alban a Chymru ac i'r Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon.

## Bwrdd yr ASB

Yn ystod y flwyddyn, roedd y canlynol yn aelodau o Fwrdd allanol yr ASB:

| | |
|---|---|
| Syr John Krebs FRS | Cadeirydd yr ASB |
| Suzi Leather | Dirprwy Gadeirydd yr ASB |
| Aelodau Eraill o'r Bwrdd: | |
| Syr John Arbuthnott | Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Alban |
| Michael Gibson | |
| Ann Hemingway | Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru |
| Michael Walker | Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Gogledd Iwerddon |
| Richard Ayre | |
| Karol Bailey | |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland, OBE | |
| Yr Athro Jeya Henry | |
| Robert Rees | |
| Yr Athro Bhupinder Sandhu | |
| Vernon Sankey | |
| Gurbux Singh | |

Ymddiswyddodd Gurbux Singh o Fwrdd yr ASB ar 8 Mai 2001. Gadawodd yr Athro Bhupinder Sandhu Fwrdd yr ASB ar 16 Chwefror 2002 ar ddiwedd ei chyfnod o benodiad.

## Tîm Rheoli'r ASB

Ymgymerir â rheolaeth dydd i ddydd yr ASB drwy dîm o swyddogion uwch. Roedd y tîm rheoli llawn ar 31 Mawrth 2001 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Geoffrey Podger | Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo |
| Jon Bell | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd |
| Pat Stewart | Cyfarwyddwr Grŵp Strategaeth ac Adnoddau Corfforaethol a Phrif Swyddog Cyllid a'r Sefydliad |
| David Statham | Cyfarwyddwr Grŵp Safonau Bwyd a Gorfodaeth |
| Neil Martinson | Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| George Paterson | Cyfarwyddwr ASB yr Alban |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr ASB Cymru |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr ASB Gogledd Iwerddon |

Prif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar 31 Mawrth 2002 oedd Chris Lawson. Mae Prif Weithredwr y GHC hefyd yn aelod o dîm rheoli'r ASB.



Mae'r holl uwch swyddogion wedi eu hapwyntio o dan y rheolau sydd wedi eu gosod gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Datgelir manylion cyflogau a phensiwn y Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn Nodyn 3.

Yn ychwanegol i brif Fwrdd yr ASB, rydym wedi creu Pwyllgorau Ymgynghorol i gynnwys yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol i'r ASB. Cadeirir hwy gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr ASB drwy ddeddf i gymryd sylw o'u cyngor yn ei waith. Datgelir aelodau'r pwyllgorau yn natganiad cyfrifon unigol yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

## Cyllid yr ASB

Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth yw'r ASB wedi ei hariannu gan gyflenwad yn seiliedig ar adnoddau.

## Cyfrifoldebau Penodol

Mae gan yr ASB gyfrifoldebau eang sy'n cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd, darparu gwybodaeth a chyngor, sicrhau fod cyfraith bwyd yn effeithiol ac yn cael ei gorfodi, cydlynu ymchwil a datblygiad a goruchwylio, datblygu polisi a chynrychioli'r DU ar faterion bwyd yn Ewrop.

Wrth ymgymryd â'r dyletswyddau hyn, mae'r ASB yn ceisio gweithredu o dan dair egwyddor arweiniol:

- rhoi'r cwsmer yn gyntaf;
- bod yn agored a hygyrch; a
- bod yn llais annibynnol.

Mae gwaith yr ASB yn cynnwys diogelwch bwyd ar draws yr holl gadwyn fwyd, yn cynnwys:

- difwynwyr bwyd – diffinio lefelau goddefol, rheoli risg a pholisi;
- ychwanegion bwyd, deunyddiau cyswllt, a bwyd newydd – yn cynnwys asesu a goruchwylio diogelwch;
- diogelwch microbiolegol a hylendid bwyd yn cynnwys darparu cyngor ar reoli achosion o glefydau oherwydd bwyd ac atal salwch oherwydd bwyd;
- arolygu a gorfodi i ddiogelu defnyddwyr;
- gorfodi ar lefel awdurdod lleol – datblygu polisi, ac archwilio a gwella gorfodi;
- plaladdwyr, milfeddygaeth a bwyd anifeiliaid – asesu goblygiadau diogelwch bwyd;
- labelu a safonau bwyd – datblygu polisi, gwella dewis y defnyddwyr a chynrychioli'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd; a
- maetheg – darparu cyngor a chyfarwyddyd ar gyfansoddiad maethol bwyd, a darparu gwybodaeth ar ddiet iachus, cytbwys, er mwyn hyrwyddo a diogelu iechyd cyhoeddus.

## Y Gwasanaeth Hylendid Cig

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (GHC) yn asiantaeth weithredol o'r ASB. Nod y GHC yw diogelu iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid pan gânt eu lladd drwy weithredu deddfwriaeth yn effeithiol. Ei brif swyddogaethau yw darparu gwasanaeth archwilio cig i'r holl ffatrïoedd trwyddedig, ac i sicrhau fod y safonau uchaf sy'n ofynnol drwy gyfraith ar gyfer cynhyrchiad cig iach ac ar gyfer lles anifeiliaid pan gânt eu lladd yn cael eu cynnal. Prif weithgareddau'r GHC yw:

- gorfodi rheolau hylendid mewn adeiladau cig ffres trwyddedig;
- darparu gwasanaethau archwilio cig a rheolau o ran marcio iechyd mewn adeiladau trwyddedig cig coch a chig dofednod a bwyd gwyllt;
- gorfodi rheolau hylendid mewn cynhyrchion cig, briwgig a ffatrïoedd paratoi cig, sy'n rhannu'r un adeilad â lladd-dai trwyddedig; a
- gorfodaeth, mewn adeiladau trwyddedig cig ffres, o reolaethau dros SRM a sgîl-gynnyrch cig arall, a rheolaethau yn gwahardd gwerthu cig o wartheg dros 30 mis oed.

Mae cyfrifon adnoddau dan nawdd San Steffan ar gyfer yr ASB yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer y GHC. Mae'r GHC wedi paratoi ei adroddiad a chyfrifon blynyddol ei hun sy'n darparu manylion ychwanegol.

## Cysylltiadau Staff

Mae'r ASB yn rhoi pwyslais sylweddol ar gael yr holl staff i gymryd rhan llawn yn ei gwaith. Yn ystod y flwyddyn, dechreuom symud i'n pencadlys newydd yng nghanol Llundain, ar ôl bod mewn tair swyddfa ar wahân cyn hynny. Caiff staff eu hannog i ddefnyddio eu hysgogiad eu hunain i hyrwyddo gwaith yr ASB. Mae uwch reolwyr yn cyfarfod yn ffurfiol ar gyfnodau rheolaidd gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd agored rheolaidd a chaiff yr holl staff eu gwahodd i'r rhain a'u hannog i fynychu. Caiff "FSA Matters", cylchlythyr mewnol, ei gylchredeg yn wythnosol i'r holl staff, yn ogystal ag "FSA News" bob deufis sy'n rhoi gwybod i staff mewn mwy o fanylion am weithgareddau'r ASB. Mae gan staff y GHC eu cylchlythyr chwarterol eu hunain "MHS Update".

## Pensiynau

Gweision sifil yw gweithwyr yr ASB ac maent yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun pensiwn y Llywodraeth Ganol yw hwn sy'n ddi-nawdd. Gwneir taliadau pensiwn drwy gyfrif adnoddau y PCSPS.

Nid yw Bwrdd yr ASB yn weision sifil ac felly nid ydynt yn aelodau o'r PCSPS. Fodd bynnag, mae trefniadau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i ddarparu buddiannau pensiwn ar gyfer Aelodau penodol o'r Bwrdd.

Mae gan y GHC ddau gynllun pensiwn ar wahân. Mae'r mwyafrif o staff yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Llywodraeth (LGPS), cynllun sy'n diffinio buddiannau sy'n cael ei reoli gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, a'i weinyddu gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain (LPFA). Mae gweithwyr eraill y GHC yn aelodau o'r PCSPS.

## Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r ASB yn amcanu i fod yn gyflogwr modern a theg, ac yn cydnabod ac yn annog potensial gweithlu amrywiol. Mae'r ASB wedi ei hymrwymo i gyfle cyfartal ac yn amcanu i sicrhau y dylai pawb sy'n gweithio i neu gyda'r ASB gael eu trin yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, ni chaiff unrhyw weithiwr neu ymgeisydd am swydd eu gwahaniaethu yn eu herbyn un ai yn uniongyrchol neu anuniongyrchol ar sail hil, rhyw, statws priodas, cenedligrwydd, ethnigrwydd, lliw, crefydd, credoau gwleidyddol, anabledd, oedran, gogwydd rhywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, patrwm gweithio neu safle o fewn y sefydliad. Mae'r ASB yn gweithredu cynllun sy'n sicrhau cyfweliad i bobl gydag anableddau (fel a ddiffinnir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995) sy'n cyrraedd y meini prawf gofynnol lleiaf ar gyfer y penodiad.

## Polisi Talu Cyflenwyr

Y mae'n bolisi'r Llywodraeth y dylai'r holl adrannau ac asiantaethau dalu yr holl anfonebau nad oes problem gyda nhw o fewn 30 diwrnod o'u derbyn, neu yn ôl telerau'r contract y cytunwyd arnynt os y nodwyd fel arall. Yn ystod y flwyddyn, talwyd tua 90% o anfonebau ar amser.

## Adroddiad Adrannol

Roedd Adroddiad Ariannol yr ASB am y Gwanwyn 2002 yn cynnwys amcangyfrif adnoddau'r ASB ar gyfer 2001/02 a thablau craidd fel a nodwyd gan y Trysorlys. Roedd testun yr Adroddiad yn cynnwys strwythur yr Asiantaeth, y trefniadaeth, pwrpas, a chyfrifoldebau penodol. Roedd hefyd yn rhoi manylion o sut roedd yr ASB yn gwneud cynnydd tuag at gwrdd â thargedau'r Cytundeb Darparu Gwasanaeth, ac ateb gofynion Moderneiddio'r Llywodraeth.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 5 o Ddeddf y Trysorlys a'r Adrannau Archwilio 1921. Gellir canfod y tystysgrif archwiliad ar dudalennau 124 a 125.

## Digwyddiadau o bwys oddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Dim.

**Geoffrey Podger**
**Swyddog Cyfrifo**
**28 Tachwedd 2002**



# Cyfrifo

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo

O dan Ddeddf Cyfrifon ac Adnoddau'r Llywodraeth 2000, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon am bob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon sy'n rhoi manylion yr adnoddau a gafwyd, sy'n cael eu dal neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn.

Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cynnydd ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran, y cynnyrch adnoddau net, adnoddau sy'n berthnasol i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Mae Trysorlys EM wedi apwyntio'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a'u trosglwyddo i'r Goruchwyliwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, ac yn arbennig i:

- arsylwi ar y gofynion cyfrifo a datguddiad perthnasol, a rhoi mewn lle bolisïau cyfrifo addas yn gyson;
- rhoi barn ac amcangyfrif ar sail rhesymol;
- nodi os yw safonau cyfrifeg cymwys, fel a nodir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau, wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau o bwys yn y cyfrifon;
- darparu'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Yn ychwanegol, mae Trysorlys EM wedi penodi Swyddog Cyfrifo Asiantaeth (Chris Lawson) i fod yn gyfrifol am y rhannau hynny o gyfrifon yr adran sy'n ymwneud ag adnoddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig a'r asedau cysylltiol, rhwymedigaethau a llifau arian. Nid yw'r penodiad yma yn tynnu oddi wrth gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifeg ar gyfer cyfrifon yr Adran.

Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo (yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra y cyllid cyhoeddus, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Adran) eu nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo a gyflwynwyd gan Drysorlys EM a'i gyhoeddi yng Nghyfrifeg y Llywodraeth. O dan delerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifo, nodir ar bapur y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifo yr Adran a Swyddog Cyfrifo Asiantaeth GHC, ynghyd â'u cyfrifoldebau penodol.

**Geoffrey Podger**
**Swyddog Cyfrifo**
**28 Tachwedd 2002**

mewnol

Datganiad rheolaeth mewnol ar gyfer

# ASB San Steffan

Fel Swyddog Cyfrifo yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system rheolaeth mewnol gadarn sy'n cefnogi cyrhaeddiad polisïau trefniadol, nodau ac amcanion fel a osodwyd gan Fwrdd yr ASB a'r Ddeddf Safonau Bwyd, tra'n gwarchod yr arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi o fewn Cyfrifeg Llywodraeth.

Mae'r system rheolaeth mewnol wedi ei gynllunio i reoli yn hytrach na gwneud i ffwrdd â'r perygl o fethu â chwrdd â pholisïau, nodau ac amcanion. Felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd.

Mae'r system o reolaeth mewnol wedi ei seilio ar broses barhaus o adnabod y prif beryglon rhag gallu cwrdd â pholisïau trefniadol, nodau ac amcanion, gwerthuso natur a maint y peryglon hynny a'u rheoli yn effeithlon, effeithiol ac yn economaidd. Disgwyliaf gael y broses hon yn ei lle a bod wedi gweithredu ar yr holl Gyfarwyddyd Trysorlys erbyn Mawrth 2003. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i osod y prosesau yn llawn, y mae'r ASB wedi cytuno y dylid eu sefydlu, a'u cryfhau.

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd eisoes lawer o'r elfennau allweddol yn eu lle o ran system rheolaeth mewnol effeithiol yn cynnwys:

- cyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU sy'n gweithredu fel "Bwrdd Rheoli" yr ASB;
- trefniadau archwiliad mewnol, yn cynnwys rhaglen archwiliad wedi ei seilio ar risg yn gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cyd-fynd â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd drwy archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol o addasrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth mewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- pwyllgor Archwiliad a Risg, sy'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn gyda'r Cadeirydd yn adrodd i Fwrdd yr ASB;
- cynllun strategol sy'n gosod allan prif nodau ac amcanion yr ASB am y 5 mlynedd nesaf;
- proses cynllunio busnes ac ariannol sy'n llifo drwy'r sefydliad (cynlluniau busnes corfforaethol a lleol) ac sy'n benodol yn cysylltu amcanion busnes, dyraniad adnoddau a'r ystyriaeth o risg busnes;
- rhaglen o hyfforddiant a chefnogaeth i'r broses cynllunio busnes sy'n cynnwys rheolaeth risg;
- adroddiadau perfformiad rheolaidd i gyfarfodydd misol y Prif Weithredwr ac i Fwrdd yr ASB ar gyfer cynllunio ariannol a busnes;
- cofrestr o risgiau strategol sy'n cynnwys cyfres gynhwysfawr o gynlluniau triniaeth gyda pherchnogaeth glir o'r peryglon a'r gweithredu, a dyddiadau wedi eu cytuno arnynt ar gyfer ymgymryd â'r mater/adolygu;
- adolygiad ffurfiol rheolaidd (chwarterol) o'r gofrestr risg yng nghyfarfod misol y Prif Weithredwr gyda Chyfarwyddwyr y DU; ac
- adroddiad cynnydd rheolaidd (bob 6 mis) ar reoliadau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i Fwrdd yr ASB.

Mae tîm rheoli'r ASB wedi ymgorffori rheolaeth risg a rheoliadau mewnol i mewn i agenda fusnes y mudiad fel eu bod yn cael eu hadolygu a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae rheolaeth risg hefyd wedi ei ymgorffori yn llawnach i mewn i'r broses cynllunio busnes fel modd o sicrhau ymwybyddiaeth risg o fewn y sefydliad. Mae'r broses gynllunio wedi ei chefnogi yn llawn drwy raglen o gefnogaeth wedi ei thargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad.

Yn ychwanegol i'r camau a nodwyd uchod, yn y flwyddyn sydd i ddod mae'r ASB yn bwriadu:

- cyhoeddi datganiad polisi risg a llawlyfr rheolaeth risg yn gosod allan y trefniadau sydd mewn lle o fewn y sefydliad i reoli risg busnes, yn cynnwys y broses ar gyfer cynnydd risg a chyfrifoldebau unigolion drwy'r sefydliad;
- parhau i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant wedi ei dargedu i gwrdd ag anghenion gwahanol rannau o'r sefydliad yn cynnwys swyddfeydd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a'r GHC; a
- chael sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar y rheoliadau mewnol a chael cynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r GHC.

Hysbysir fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth mewnol gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr ASB a'r GHC sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth ariannol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

**Geoffrey Podger**
**Prif Weithredwr**
**28 Tachwedd 2002**

Tystysgrif
# archwiliad

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 124 i 144 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd drwy adbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 129 i 130.

## Priod Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 119, y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys yn ôl gofynion y Ddeddf ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Y Swyddog Cyfrifo sydd hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys arall y Cyfrifon. Pennir fy nghyfrifoldebau, fel archwilydd annibynnol, yn ôl statud, ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn rhoi fy marn i chi ar pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a gawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys yn ôl gofynion y Ddeddf, ac a gafodd yr incwm a'r gwariant ym mhob ystyr berthnasol eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad os nad yw'r Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol, os na chadwodd yr Adran gofnodion cyfrifo cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen y wybodaeth arall yn y Cyfrifon, ac yn ystyried pa un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Byddaf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 120 a 121 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Adran ag arweiniad y Trysorlys, sef Rheolaeth Gorfforaethol a'r Datganiad ar y System o reoli arian yn fewnol. Byddaf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio tystiolaeth, ar sail prawf, sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a wnaed gan yr Adran wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Adran, ac a gawsant eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddweud perthnasol, a achoswyd naill ai o ganlyniad i wall, twyll neu afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu defnyddio i'r diben a fwriadwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.



Tystysgrif
archwiliad

## Barn

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun gwir a theg o gyflwr materion yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 31 Mawrth 2002 ac o'r canlyniadau adnoddau net a gymhwyswyd i amcanion, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, a chawsant eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ôl gofynion y Ddeddf gan y Trysorlys; ac
- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd y gwariant a'r incwm i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, a chydymffurfia'r trafodion ariannol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol

15 Ionawr 2003

National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 1

## Cyfrifon Adnoddau dan Nawdd San Steffan 2001/02

Crynodeb o Gynnyrch Adnoddau ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | 2001/02 | | | | | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Cynnyrch | | | Cyfanswn Cynnyrch Net o'i gymharu ag Arbediad Tybiedig/(yr hyn sydd dros ben) | Cynnyrch y flwyddyn flaenorol |
| | Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm | Gwariant Gros | A-yn-A | Cyfanswm | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Adnoddau:** | | | | | | | | |
| Cais am adnoddau | 180,735 | (55,270) | 125,465 | 149,055 | (42,255) | 106,800 | 18,665 | 78,510 |
| **Cyfanswm adnoddau** | **180,735** | **(55,270)** | **125,465** | **149,055** | **(42,255)** | **106,800** | **18,665** | **78,510** |
| **Gofynion Arian Parod Net** | | | **123,255** | | | **96,090** | **27,165** | **79,313** |
| Cysoniad Adnoddau i'r Gofyniad Arian Parod | Nodyn | | £000oedd | | | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cyfanswm Adnoddau Net** | | | **125,465** | | | **106,800** | **18,665** | **78,510** |
| **Cyfalaf:** | | | | | | | | |
| Pryniant asedau sefydlog: pryniant arian parod | 11 | | 1,101 | | | 1,445 | (344) | 6,265 |
| Buddsoddiadau | | | - | | | - | - | - |
| **A-yn-A heb fod yn weithredol:** | | | **-** | | | **-** | **-** | **-** |
| **Cymwysiadau croniadau:** | | | | | | | | |
| Eitemau heb fod yn arian parod | | | (3,311) | | | (1,903) | (1,408) | (1,557) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithiol heblaw am arian parod | 14 | | - | | | (10,753) | 10,753 | (3,933) |
| Y defnydd o ddarpariaeth | 18 | | - | | | 501 | (501) | 28 |
| **Gofynion Arian Parod Net (Atodlen 4)** | | | **123,255** | | | **96,090** | **27,165** | **79,313** |

**Esboniad ar yr amrywiad rhwng yr Amcangyfrif a'r cynnyrch (cyfanswm adnoddau net):**

(i) Roedd gwariant adnoddau Pencadlys yr ASB ar gyfer y flwyddyn o gwmpas £16m yn llai na'r cais am adnoddau. Mae'r ASB yn rheoli ei gwariant dros gyfnod Adolygu Gwariant y Llywodraeth o 3 blynedd. Bydd tanwariant 2001/02, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cael ei gario drosodd i 2002/03 i gyllido gweithgaredd cynlluniedig parhaus yr ASB.

(ii) Roedd cost net gweithrediadau'r GHC tua £2m yn llai na'r cais am adnoddau. Er bod y gwariant gros yn fwy na'r gyllideb (yn bennaf oherwydd gwaith rheoli Clwy'r Traed a'r Genau), roedd yr incwm cysylltiol yn yr un modd yn fwy.

**Esboniad ar yr amrywiad rhwng Amcangyfrif gofyniad arian parod net a'r cynnyrch** (gofyniad arian parod net):
gweler (i) a (ii) uchod

**Addasiadau cyfnod blaenorol**

(i) Mae costau ag incwm y Gwasanaeth Hylendid Cig nawr yn cael eu hystyried fel gweinyddol yn hytrach na gwariant rhaglen. Mae ffigyrau 2001/02 wedi eu hail-nodi i adlewyrchu'r newid yma yn y polisi cyfrifo.

**Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol**

Ni ildiwyd unrhyw warged a ddosbarthwyd mewn cymorth nac unrhyw dderbynebau ychwanegol y Gronfa Gyfunol sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

**Gwir gynnyrch – adnoddau:**

Cais am adnoddau: Gwir gyfanswm o gynnyrch adnoddau net £115,496,293.11. Gwir gyfanswm mewn arbedion mewn adnoddau dros Amcangyfrif £19,002,706.89

**Gwir gynnyrch – arian parod:**

Gofynion arian parod net: Cynnyrch gofynion net £102,038,526.95 sy'n £30,304,473.05 yn llai na'r Amcangyfrif.



*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 2

## Datganiad Cost Gweithredu dan Nawdd San Steffan 2001/02

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | | 2001/02 | | 2000/01 (wedi ei newid) |
|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Costau Gweinyddu:** | | | | |
| Costau Staff | 2 | 60,816 | | 54,560 |
| Costau gweinyddu eraill | 4 | 51,063 | | 37,814 |
| **Costau gweinyddu gros** | | | **111,879** | **92,374** |
| Incwm gweithredol | 6 | | (40,098) | (45,376) |
| **Costau Gweinyddu Net** | | | **71,781** | **46,998** |
| **Costau Rhaglen:** | | | | |
| Gwariant | 5 | 37,177 | | 34,184 |
| llai: Incwm | 6 | (2,158) | | (2,672) |
| **Costau Rhaglen Net** | 5 | | 35,019 | 31,512 |
| **Costau Gweithredu Net** | | | 106,800 | 78,510 |
| **Cynnyrch Adnoddau Net** | | | 106,800 | 78,510 |

Mae'r holl weithgareddau yn weithgareddau parhaus.

## Datganiad ar Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | 31 Mawrth, 2002 £000oedd | 31 Mawrth, 2001 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Enillion (colledion) net wrth adbrisio asedau sefydlog | 20 | 41 | 5 |
| Addasiad y Flwyddyn Flaenorol | | (22) | - |
| **Cyfanswm enillion (colledion) cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn** | | **19** | **5** |

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 3

## Mantolen

fel yr oedd ar y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | 31 Mawrth 2002 £000oedd | £000oedd | 31 Mawrth 2001 (wedi ei newid) £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | |
| Asedau anghyffyrddadwy | 12 | 318 | | 229 |
| Asedau cyffyrddadwy | 13 | 6,437 | | 6,576 |
| | | | 6,755 | 6,805 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr | 15 | 12,562 | | 14,330 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 16 | 7,656 | | 7,155 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | 20,218 | | 21,485 |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)** | 17 | (25,860) | | (20,016) |
| **Asedau Cyfredol Net** | | | (5,642) | 1,469 |
| **Cyfanswm Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 1,113 | 8,274 |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn )** | 17 | | (3,663) | |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 18 | | (561) | (943) |
| | | | (3,111) | 7,331 |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 19 | | (3,173) | 7,310 |
| Cronfa Adbrisio Wrth Gefn | 20 | | 62 | 21 |
| | | | (3,111) | 7,331 |

Geoffrey Podger
Swyddog Cyfrifo
28 Tachwedd 2002



*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 4

## Datganiad Llif Arian Dan Nawdd San Steffan

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol (a) | | (94,645) | (73,048) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol (b) | 13 | (1,445) | (6,265) |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (c) | | 96,591 | 83,303 |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod** | 16 | **501** | **3,990** |

Nodiadau:
a Gweler y tabl isod sy'n cysoni costau gweithredol i'r llifau arian gweithredol.
b Gweler y tabl isod sy'n rhoi dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol.
c Gweler y tabl isod sy'n rhoi dadansoddiad o gyllido a chysoni i'r gofyniad arian parod net.

### Cysoni cost gweithredol i'r llifau arian gweithredol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cost Gweithredol Net | | 106,800 | 78,510 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod | | (1,903) | (1,557) |
| Addasiadau ar gyfer symudiadau i'r cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod | 14 | (10,753) | (3,933) |
| Defnydd o ddarpariaethau | | 501 | 28 |
| **All-lif (Mewn-lif) Arian Parod Net o weithgareddau buddsoddiadol** | | **94,645** | **73,048** |

### Dadansoddiad o wariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog | 12 + 13 | 1,517 | 6,347 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | | (72) | (82) |
| **All-lif (Mewn-lif) Arian Parod Net o weithgareddau buddsoddiadol** | | **1,445** | **6,265** |

### Dadansoddiad o'r broses ariannu

| | | |
|---|---|---|
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) | 96,591 | 83,303 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn arian parod | (501) | (3,990) |
| **Gofyniad arian parod net (Atodlen 1)** | **96,090** | **79,313** |

Swm y Grant a gyflwynwyd go iawn i gefnogi'r gofyniad arian parod net = £96,591,239.00
Swm y Grant a gyflwynwyd go iawn i gefnogi gofyniad arian parod net y flwyddyn flaenorol = £83,303,039.00

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 5

## Adnoddau dan Nawdd San Steffan yn ôl Nod ac Amcanion Adrannol

ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | 2001/02 | | | 2000/01 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net |
| **Amcan 1** | | | | | | |
| Gwella hyder y cyhoedd yn y trefniadau safonau Diogelwch Bwyd Cenedlaethol (a gallu mesur hynny) | 22,070 | (177) | 21,893 | 22,358 | (397) | 21,961 |
| **Amcan 2** | | | | | | |
| Lleihau salwch oherwydd bwyd o 20% dros y 5 mlynedd nesaf yn cynnwys lleihau Salmonela mewn cywion ieir a adwerthir, wedi eu cynhyrchu yn y DU o 0% o leiaf erbyn diwedd 2004/2005 | 29,028 | (1,473) | 27,555 | 38,170 | (2,305) | 35,865 |
| **Amcan 3** | | | | | | |
| Diogelu defnyddwyr drwy well safonau a diogelwch bwyd | 97,957 | (40,605) | 57,352 | 66,030 | (45,346) | 20,684 |
| | 149,055 | (42,255) | 106,800 | 126,558 | (48,048) | 78,510 |

Gweler Nodyn 21

Polisïau

# cyfrifeg

**1 Polisïau Cyfrifeg**

**1.1 Sail Paratoi**

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â'r Canllaw Cyfrifo Adnoddau 2001-2002 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn y Canllaw yn dilyn arfer cyfrifo ar gyfer cwmnïau (UK GAAP) sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol yn y DU, i'r graddau y mae'n ystyrlon ac yn addas i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r Canllaw yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo mwyaf addas i sefyllfa benodol yr adran ar gyfer rhoi barn gwirioneddol a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Fe'u cyflwynwyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

**1.2 Confensiwn Cyfrifeg**

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd drwy adbrisio rhai asedau a stociau sefydlog, lle y bo hynny'n briodol, ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at y costau cyfredol.

**1.3 Sail y Cysoni**

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cysoniad yr Asiantaeth graidd a'i hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (GHC).Mae trafodion rhwng hanfodion a gynhwysir yn y cyfuniad yn cael eu dileu. Mae'r GHC yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun.

**1.4 Asedau Sefydlog Anghyffyrddadwy**

Caiff trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol gyda chost prynu dros £2,000 (yn cynnwys TAW anadferadwy a chludo) eu cyfalafu fel asedau sefydlog anghyffyrddadwy. Caiff yr holl asedau sefydlog anghyffyrddadwy eu hadbrisio bob 1 Ebrill gan ddefnyddio mynegeion perthnasol.

**1.5 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy**

Caiff asedau sefydlog cyffyrddadwy unigol neu mewn grwpiau a brynwyd ar gost sydd dros £2,000 (yn cynnwys TAW a chyflenwi anadferadwy) eu troi'n gyfalaf a'u hadbrisio ar 1 Ebrill bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegeion priodol.

Caiff yr holl asedau sefydlog cyffyrddadwy eu newid i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn. Nid yw'r ASB ar hyn o bryd yn berchen ar unrhyw dir nac adeiladau. Caiff asedau gweithredol sydd heb fod yn eiddo eu hadbrisio i werth y farchnad agored lle y bo hynny ar gael, neu ar sail cost dibrisio rhywbeth a gaiff ei gyfnewid lle nad oes modd cael gwerth y farchnad. Fel arfer, defnyddir mynegeion wedi eu cyhoeddi i'r categori o'r ased ar gyfer amcangyfrif gwerth.

**1.6 Dibrisiant**

Ni fydd tir nac asedau rhydd-ddaliadol yn cael eu dibrisio yn ystod gwaith adeiladu. Caiff dibrisiant ac amorteiddiad ei ddarparu ar gyfraddau a gyfrifir i ddiystyru gwerth asedau sefydlog cyffyrddadwy ac anghyffyrddadwy drwy gymhwyso dull llinell syth yn ystod y bywydau defnyddiol canlynol a amcangyfrifir:

| | |
|---|---|
| **Asedau cyffyrddadwy** | |
| Offer cyfrifiadurol | 4-6 blynedd |
| Offer swyddfa | 7 mlynedd |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cerbydau | 4 blynedd |
| **Asedau anghyffyrddadwy:** | |
| Meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau meddalwedd | 5 mlynedd |

**1.7 Stoc a Gwaith ar y Gweill**

Caiff nwyddau traul eu prisio yn ôl cost, os delir hwy ar gyfer defnydd cyfredol, fel arall cânt eu prisio yn ôl gwerth net gwireddadwy.

**1.8 Ymchwil a Datblygiad**

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar ddatblygiad mewn cyswllt â chynnyrch neu wasanaeth sydd i'w gyflenwi ar sail derbyn arian yn ôl yn llawn ei gyfalafu os yw'n cwrdd â'r meini prawf hynny a nodir yn SSAP 13. Caiff gwariant datblygu arall ei gyfalafu os yw'n cwrdd â'r meini prawf a nodir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau sydd wedi eu haddasu o'r SSAP 13 i gymryd i ystyriaeth y cynnwys sydd ddim ar gyfer elw. Caiff gwariant nad yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ei drin fel cost gweithredu yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Bydd asedau sefydlog sydd wedi eu cael ar gyfer defnydd o fewn ymchwil a datblygiad eu dibrisio dros gyfnod bywyd y prosiect dan sylw, neu yn ôl categori'r ased os yw'r ased i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith cynhyrchu. Ymdrinwyd â gwariant ar ymchwil a datblygiad fel cost gweithredu yn y flwyddyn yr oedd yn berthnasol.

**1.9 Incwm Gweithredol**

Mae incwm gweithredol yn incwm sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau gweithredol yr ASB. Mae incwm yn cynrychioli cyfanswm yr incwm cronedig ar gyfer y flwyddyn, ac fe'i dangosir yn glir o Dreth Ar Werth. Mae'r ASB yn cael incwm o samplu llefrith a llaethdai ac o archwiliadau ymbelydrol. Mae'n cynnwys incwm a ddosbarthwyd mewn cymorth ac incwm i'r Gronfa Gyfunol, y cytunodd Trysorlys EM y dylid ei thrin fel incwm gweithredol. Yn ogystal, mae gan y GHC incwm o archwiliadau hylendid cig ac o sefydliadau'r Llywodraeth (rheoliadau Deunydd Risg Benodol yn bennaf).

**1.10 Gwariant Gweinyddol a Gwariant Rhaglen**

Dadansoddir y datganiad cost gweithredol rhwng y costau gweithredol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu'r gost o redeg yr Adran fel y'i nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd â'r incwm gweithredol cysylltiedig. Dadansoddir incwm yn y nodiadau, sy'n caniatáu iddo, o dan y gyfundrefn gael ei wrthbwyso yn erbyn costau gweinyddol gros wrth bennu'r cynnyrch yn erbyn yr uchafswm cost gweinyddol, a'r costau nad ydynt yn rhai gweinyddol. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu'r costau nad ydynt yn rhai gweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr ASB.

Dylid nodi yr ystyrir fod holl wariant y Gwasanaeth Hylendid Cig, gan gynnwys costau staffio a chostau gweinyddol, yn gostau rhaglen at ddibenion cyfrifo adnoddau.

**1.11 Cost Cyfalaf**

Caiff tâl, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddir gan yr ASB, ei gynnwys yn y costau gweithredol. Cyfrifir y tâl hwn ar gyfradd safonol y llywodraeth o 6% ar bob ased llai rhwymedigaethau ag eithrio balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-Feistr Cyffredinol (PMG) a rhwymedigaethau a ildiwyd i'r Gronfa Gyfunol. Cyfrifir y tâl ar sail flynyddol.

**1.12 Arian Tramor**

Caiff eitemau incwm a gwariant eu trosi'n £ Sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafod. Trosir mantolenni ar gyfradd gyfnewid dyddiad y fantolen neu ar gyfradd a gontractiwyd os yw hynny'n berthnasol. Nodir unrhyw enillion neu golledion cyfnewid yn y datganiad costau gweithredol.

**1.13 Pensiynau**

Caiff gweithwyr presennol a blaenorol yr ASB eu cwmpasu gan ddarpariaeth Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun buddiannau diffiniedig ac yn anghyfrannol a heb ei ariannu. Mae'r adran yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa o wasanaethau gweithwyr drwy dalu i'r PCSPS symiau a gyfrifwyd ar sail cronedig. Mae taliadau buddiannau i'r dyfodol yn gost i'r PCSPS.

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr y GHC yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain. Mae gweithwyr eraill y GHC yn aelodau o'r PCSPS.

**1.14 Costau Ymddeol yn Gynnar**

Mae'n ddisgwyliedig i'r ASB gwrdd â chostau buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn cysylltiad â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r adran wedi darparu yn llawn ar gyfer y gost hon pan gyhoeddwyd y cynllun ymddeol yn gynnar a chynlluniau eraill y mae'r adran yn gyfrifol amdanynt.

**1.15 Prydlesau Gweithredu**

Nodir cost y prydlesau gweithredu yn y datganiad cost weithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

**1.16 Costau Archwilio**

Cynhwysir tâl sy'n adlewyrchu cost yr archwiliad yn y costau gweithredol. Caiff yr ASB ei harchwilio gan y Goruchwiliwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Ni chodir am y gwasanaeth ond cynhwysir cost tybiannol yn cynrychioli cost yr archwiliad yn y cyfrifon.

**1.17 Treth Ar Werth**

Dangosir cyfanswm net y Dreth Ar Werth (TAW) sy'n ddyledus i neu gan y Tollau Tramor a Chartref fel dyledwr neu gredydwr ar y fantolen. Caiff TAW anadferadwy ei godi ar y datganiad cost gweithredol, neu os daw i law wrth brynu ased sefydlog, mae'n troi'n gyfalaf yng nghost yr ased.

**1.18 Darpariaethau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn**

Cydnabyddir darpariaethau yn y cyfrifon dan yr amodau a ganlyn:

a) pan fo rhwymedigaeth gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

b) pan fo'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;

c) pan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ar y swm.

Nid yw darpariaethau wedi eu diystyru, gan nad yw'r addasiad sy'n ganlyniad yn cael ei ystyried yn bwysig i'r cyfrifon hyn. Datgelir trefniadau wrth gefn yn y nodiadau i'r cyfrifon oni fydd y posibilrwydd o drosglwyddo mewn setliad yn annhebygol.

**1.19 Newid yn y polisi cyfrifo ac addasiadau'r flwyddyn flaenorol**

Mae newid wedi bod mewn polisi cyfrifo a ymgorfforwyd yng nghyfrifon 2001/02. Cyn hyn, cynhwyswyd yr holl asedau sefydlog, waeth sut yr arianwyd y pryniant gwreiddiol, ym mantolen San Steffan a'r ASB Cyfunol. Ymdriniwyd â balansau credydwyr a dyledwyr yn ymwneud â swyddfeydd datganoledig yr ASB yn yr un modd. Polisi cyfrifo cyfredol yr ASB yw fod yr holl asedau a rhwymedigaethau yn ymwneud â swyddfeydd datganoledig yr ASB yn cael eu tynnu o'r cyfrif adnoddau dan nawdd San Steffan (ond yn aros yng nghyfrifon Cyfunol yr ASB). Mae'r ffigyrau ar gyfer 2000/01 wedi eu newid i adlewyrchu'r newid yn y polisi cyfrifo. Nid oes unrhyw effaith ar ddatganiad cost gweithredol y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r newid hwn.

Mae'r GHC yn asiantaeth weithredol o'r ASB. Yng nghyfrifon 2000/01 mae'r GHC wedi ei gynnwys yn flaenorol fel gwariant o'r rhaglen. Mae'r polisi hwn wedi cael ei adolygu, ac mae'r GHC nawr wedi ei gyfuno â'r cyfrifon ASB ar sail cost gweinyddol. Mae ffigyrau 2000/01 wedi eu newid i gymryd i ystyriaeth y newid yn y polisi cyfrifo. Nid oes unrhyw effaith ar y gost weithredol net o ganlyniad i'r newid yn y polisi cyfrifo.

Er mwyn cyd-fynd â'r polisiau cyfrifo a gynhwysir yn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau, mae'r ASB wedi cynnwys am rwymedigaeth ar gyfer symiau a gymerwyd o'r Gronfa Gyfunol ond na wariwyd erbyn diwedd y flwyddyn. Mae ffigyrau cymharol y flwyddyn flaenorol wedi eu newid i sicrhau cysondeb polisi cyfrifo rhwng blynyddoedd. Nid oes unrhyw effaith ar y gost weithredol net o ganlyniad i'r newid yn y polisi.



# 2 Costau staff

a) Roedd Costau Staff ar gyfer 2001/02 yn cynnwys:

| | 2001/02 | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|
| | ASB (Pencadlys) San Steffan | | | ASB (Pencadlys) |
| | Staff | Bwrdd | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cyflogau a thaliadau** | 15,118,880 | 313,030 | 15,431,910 | 13,164,096 |
| **Costau Nawdd Cymdeithasol** | 1,114,642 | 27,674 | 1,142,316 | 1,030,191 |
| **Costau Pensiwn Eraill** | 2,099,109 | 34,538 | 2,133,647 | 1,840,446 |
| | **18,332,631** | **375,242** | **18,707,873** | **16,034,733** |

Gwasanaeth Hylendid Cig

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | GHC | GHC |
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £ | £ |
| **Cyflogau a thaliadau** | 35,906,000 | 33,027,000 |
| **Costau Nawdd Cymdeithasol** | 2,798,000 | 2,402,000 |
| **Costau Pensiwn Eraill** | 3,404,000 | 3,096,000 |
| | **42,108,000** | **38,525,000** |

Cynllun diffiniedig aml-weithiwr heb gronfeydd yw'r PCSPS ond ni all yr ASB adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cynhaliwyd gwerthusiad actwaraidd llawn ar 31 Mawrth 1999. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet; Cynllun Pensiynau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2001/2002, talwyd cyfraniadau o £2.3 miliwn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ar un o bedair graddfa yn yr ystod 12 i 18.5 y cant, yn amodol ar adbrisio'r bandiau cyflog. Mae cyfraniadau cyflogwyr i gael eu hadolygu bob pedair blynedd yn sgil prisiad o'r cynllun cyfan gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfraniadau'n adlewyrchu buddiannau fel y'u cronnir, ac nid pan gronnir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol. Mae Prif Weithredwr y GHC yn aelod o'r PCSPS. Talwyd cyfraniadau gan y GHC ar y raddfa o 18.5%.

Mae holl aelodau eraill y Grŵp Rheoli GHC ac eithrio Michael McEvoy a Barry Gillman yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y mae'r GHC yn gwneud cyfraniadau ar raddfa o 12.6% iddo.

**Cyfraniad yr ASB i bensiynau yw:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog Band 1 | £14,500 | a llai | 12% |
| Cyflog Band 2 | £14,501 | i £30,000 | 13.50% |
| Cyflog Band 3 | £30,001 | i £52,000 | 16.50% |
| Cyflog Band 4 | £52,001 | a throsodd | 18.50% |

Mae'r drapariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar yn Nodyn 18.

b) Cyfartaledd y nifer o bobl llawn amser a gyflogwyd gan yr ASB a'r GHC (yn cynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn 2001/02 oedd fel a ganlyn:

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| **Amcan 1** | 164 | 137 |
| **Amcan 2** | 185 | 224 |
| **Amcan 3 (yn cynnwys holl aelodau staff y GHC)** | 1,706 | 1,623 |
| | **2,055** | **1,984** |

Am fanylion pellach ar gostau a niferoedd staff y GHC cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2001/02 y GHC.

c) Roedd Costau Staff yn ôl amcan fel a ganlyn:

| | 2001/02<br>Cyfanswm<br>£ | 2000/01<br>Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|
| Amcan 1 | 5,612,475 | 4,489,725 |
| Amcan 2 | 6,173,723 | 7,215,630 |
| Amcan 3 (yn cynnwys holl aelodau staff y GHC) | 49,030,053 | 42,854,378 |
| | **60,816,251** | **54,559,733** |

Am fanylion pellach ar gostau a niferoedd staff y GHC cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2001/02 y GHC.

# 3 Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

a) Roedd hawliau cyflog a phensiwn Aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr yr adran fel a ganlyn:

i) ASB

| | | 2001/02 Cyflogau a Lwfansau Eraill | 2001/02 Cynnydd go iawn mewn pensiwn pan yn 60 | 2001/02 Cyfanswm Pensiwn a gronnwyd yn 60 31 Maw '02 | 2000/01 Cyflogau a Lwfansau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **ASB** | | | | | |
| Geoffrey Podger | Prif Weithredwr | 110-115 | 2.5-5 | 35-40 | 100-105 |
| Dr Jon Bell | Cyfarwyddwr, Grŵp FS a P | 75-80 | 5-7.5 | 20-25 | 60-65 |
| Pat Stewart | Cyfarwyddwr, Grŵp S ac AD | 80-85 | 2.5-5 | 30-35 | 65-70 |
| David Statham | Cyfarwyddwr, Grŵp G ac SB | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 | 40-45 |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 80-85 | 0-2.5 | 15-20 | 10-15 |

Mae Neil Martinson (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu) o Grŵp Rheoli'r ASB wedi gwrthod rhoi caniatâd i gyhoeddi ei fanylion personol ac felly ni chynhwysir gwybodaeth o'r fath yn y nodiadau hyn.
Ni wnaeth uwch reolwyr yr ASB dderbyn buddiannau sy'n drethadwy yn ystod 2001/02.

ii) GHC

| | | (GHC) | (GHC) | (GHC) | (GHC) |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Bandiau* | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Chris Lawson | Prif Weithredwr (2.1.01) | 90-95 | 10-12.5 | 35-40 | 15-20 |
| Johnston McNeill | Prif Weithredwr (hyd 31.12.00) | - | - | - | 70-75 |

Caiff gwybodaeth yn ymwneud â chyflogau a manylion pensiwn yr uwch reolwyr eraill o fewn y GHC eu datgelu yn y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2001/02.

iii) Bwrdd Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd go iawn mewn Pensiwn pan yn 60 | Cyfanswm Pensiwn cronedig yn 60 31 Maw '02 | Cyflogau a Lwfansau Eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Yr Athro Syr John Krebs | Cadeirydd | 100-105 | 0-2.5 | 0-5 | 95-100 |
| Suzi Leather | Dirprwy Gadeirydd | 45-50 | 0-2.5 | 0-5 | 30-35 |
| Ann Hemingway | | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 |
| Michael Gibson | | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 |
| Michael Walker | | 20-25 | ddim ar gael | ddim ar gael | 20-25 |
| Yr Athro Syr John Arbuthnott | | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 |
| Bhupinder Sandhu | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Jeya Henry | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Karol Bailey | | 10-15 | - | - | 5-10 |
| Richard Ayre | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Robert Rees | | 10-15 | - | - | 5-10 |
| Y Farwnes Valerie Howarth of Breckland, OBE | | 5-10 | - | - | 5-10 |
| Vernon Sankey | | 5-10 | - | - | 5-10 |

**Nodiadau:**

a Mae "Cyflogau" yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonws; gor-amser; hawliau a gadwyd i Lwfans Llundain, lwfansau recriwtio neu gadw, lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau y mae'n achos i gael ei drethu yn y DU.
b Mae holl aelodau Grŵp Rheoli'r ASB wedi gwrthod rhoi caniatâd i gyhoeddi eu hoedran
c Mae pum aelod o Fwrdd yr ASB yn aelodau o gynllun pensiwn tebyg i'r PSCPS. Mae gan Michael Walker gyfraniad cyffelyb wedi ei dalu i mewn i'w gynllun pensiwn personol.
ch Ni dderbyniodd unrhyw un o'r uchod fuddiannau mewn nwyddau.
d Peidiodd Bhupinder Sandhu â derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ar ddiwedd ei chytundeb ar 16 Chwefror 2002.

# 4 costau gweinyddol eraill

| | 2001/02<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd | 2000/01 (wedi ei newid)<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu:** | | | |
| Llogi offer a pheiriannau | | 200 | 103 |
| Prydlesau gweithredol eraill | | 3,753 | 2,010 |
| **Eitemau heb fod yn arian parod:** | | | |
| Dibrisiant | 1,510 | | 824 |
| Cost cyfalaf | 150 | | 557 |
| Ffioedd Archwilio | 140 | | 150 |
| Darpariaeth ar gyfer costau ymddeol yn gynnar | 119 | | 132 |
| Elw ar waredu asedau sefydlog | (26) | | (3) |
| Rhent a gwasanaethau Rheoli | 10 | | 22 |
| **Cyfanswm eitemau heb fod yn arian parod** | | **1,903** | **1,682** |
| Costau gweithredol | | 1510 | 1,155 |
| Costau Contract OVS a MHI | | 25,460 | 16,916 |
| Costau llety | | 4,439 | 3,677 |
| Gorbenion bwrdd a staff | | 6,058 | 4,621 |
| Costau gweinyddol | | 5,262 | 4,511 |
| Costau TG | | 1,741 | 2,137 |
| Costau Ymddeol yn Gynnar | | (175) | 125 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg | | 889 | 870 |
| Dyledion drwg wedi eu hysgrifennu i ffwrdd | | 39 | 20 |
| Llog a dderbyniwyd | | (16) | (13) |
| | | **51,063** | **37,814** |

Ni dderbyniodd yr archwilwyr gydnabyddiaeth am waith oedd heb fod o natur archwilio

# 5 Costau net y rhaglen

| | | 2001/02 | 2000/01 (wedi ei newid) |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Ymchwil a Datblygiad:** | | | |
| Maetheg | 3,771 | | 6,342 |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | 4,001 | | 4,340 |
| Hylendid Cig | 4,108 | | 3,243 |
| Diogelwch Cemegol | 2,624 | | 2,838 |
| Bwyd Newydd a Thocsioleg Diogelwch Cemegol | 2,811 | | 2,133 |
| Difwynwyr Cemegol | 886 | | 1,515 |
| Labelu a Safonau Bwyd | 715 | | 1,367 |
| Dioglewch Radiolegol | 567 | | 1,161 |
| Amrywiol | 370 | | 446 |
| | **19,853** | | **23,385** |
| **Monitro a Goruchwylio** | | | |
| Hylendid Cig | 90 | | - |
| Diogelwch Radiolegol | 2,588 | | 2,937 |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | 5,994 | | 2,121 |
| Pwyllgorau, y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 2,107 | | 1,577 |
| Maetheg | 1,106 | | 1,441 |
| Difwynwyr Cemegol | 1,177 | | 1,282 |
| Porthiant Anifeiliaid | 1,538 | | - |
| Amrywiol | 2,724 | | 1,441 |
| | | 17,324 | 10,799 |
| | | 37,177 | 34,184 |
| **Llai: Incwm y Rhaglen** | | | |
| ASB (Pencadlys) | (2,158) | (2,158) | (2,672) |
| | | **35,019** | **31,512** |

# 6 Dadansoddiad o incwm

| | | 2001/02 | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | £000oedd |
| **Mae'r incwm gweithredol yn ôl dosbarthiad a gweithgaredd fel a ganlyn:** | | | | |
| Cynhwysir yr holl incwm gweithredol oddi mewn i wariant cyhoeddus | | | | |
| **Incwm Gweinyddol:** | | | | |
| O Adrannau'r Llywodraeth ac eraill | 662 | | 277 | |
| Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig | 39,436 | | 45,099 | |
| | | 40,098 | | 45,376 |
| **Incwm y Rhaglen:** | | | | |
| Hylendid Llefrith a Llaethdai – samplu | 15 | | | 134 |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 ac archwiliadau | 2,143 | | | 2,538 |
| | | 2,158 | | |
| | | **42,256** | | **48,048** |

Mae dadansoddiad o incwm o wasanaethau a ddarparwyd ar gyfer cwsmeriaid allanol y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

| | | | 2001/02 | | | 2000/01 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Cost Llawn | Gwarged/ (Diffyg) | Incwm | Cost Llawn | Gwarged/ (Diffyg) |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig | | | | | | |
| Diwydiant | 20,601 | 38,736 | ( 18,135) | 34,659 | 38,408 | ( 3,749) |
| Llywodraeth | 18,835 | 18,835 | - | 10,440 | 10,440 | - |
| Hylendid Llefrith a Llaethdai – samplu ac archwiliadau | 15 | 107 | ( 92) | 134 | 237 | ( 103) |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,143 | 2,786 | ( 643) | 2,538 | 2,522 | 16 |
| | **41,594** | **60,464** | **(18,870)** | **47,771** | **51,607** | **(3,836)** |

Nid yw'r GHC yn adennill ei holl gostau o ddiwydiant. Yn ystod 2001/02 cyflwynwyd argymhelliad adroddiad Maclean ar godi tâl. I grynhoi, fe symudodd incwm y GHC o ddiwydiant o fethodoleg ar raddfa yr awr i un wedi ei seilio ar raddfeydd y pen. Yn ychwanegol, ni ellir adfer rhai costau (megis adfer ac ysgrifennu dyled i ffwrdd) o ddiwydiant, yn seiliedig ar ddehongliad o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

## 7 Terfynau costau gweinyddol

Mae'r cynnyrch o fewn costau gweinyddu y drefn rheoli a ddangosir yn erbyn terfynau costau gweinyddol unigol fel a ganlyn:

| | 2001/02 Cynnyrch | 2001/02 Terfynau | 2000/01 Cynnyrch | 2000/01 Terfynau |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am adnoddau 1 | 49,934 | 53,182 | 30,729 | 34,377 |
| | **49,934** | **53,182** | **30,729** | **34,377** |

## 8 Cysoniad costau gweithredol net i gyfanswm y rheoli a'r cynnyrch adnoddau net

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Costau Gweithredol net | 106,800 | 78,510 |
| Incwm gweithredol heb ei gyfrif fel A-yn-A | - | - |
| Gwasanaethau parhaol y Gronfa Gyfunol | - | - |
| Cynnyrch Adnoddau Net | **106,800** | **78,510** |

## 9 Dadansoddiad o gostau gweithredol net

Mae'r nodyn hwn yn dadansoddi cyllido yn ôl Adran i'r awdurdod gwario perthnasol.

| | 2001/02 Cyllideb | 2001/02 Gwir | 2000/01 Cyllideb | 2000/01 Gwir |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Corff Gwario: | | | | |
| Adran Graidd | 104,594 | 88,665 | 81,844 | 74,761 |
| GHC | 20,871 | 18,135 | 10,978 | 3,749 |
| **Cyfanswm** | **125,465** | **106,800** | **92,822** | **78,510** |

## 10 Dadansoddiad o gynnyrch adnoddau net a'r gost weithredol net yn ôl swyddogaeth

2001/02

| | Gweinyddol | Cyfredol Eraill | Costau Cyfredol | A-yn-A | Cyfanswm Net | Amcangyfrif | Cyfanswm Cynnyrch Net o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am Adnoddau 1 | | | | | | | |
| Swyddogaeth 1 ASB Pencadlys | 34,154 | 57,410 | - | (2,899) | 88,665 | 104,594 | 15,929 |
| Swyddogaeth 2 GHC | 77,725 | - | - | (59,590) | 18,135 | 20,871 | 2,736 |
| **Cyfanswm** | **111,879** | **57,410** | **-** | **(62,489)** | **106,800** | **125,465** | **18,665** |

2000/01

| | Gweinyddol | Cyfredol Eraill | Costau Cyfredol | A-yn-A | Cyfanswm Net | Amcangyfrif | Cyfanswm Cynnyrch Net o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am Adnoddau 1 | | | | | | | |
| Swyddogaeth 1 ASB Pencadlys | 27,588 | 49,845 | - | (2,672) | 74,761 | 81,844 | 7,083 |
| Swyddogaeth 2 GHC | 64,634 | - | - | (60,885) | 3,749 | 10,978 | 7,229 |
| **Cyfanswm** | **92,222** | **49,845** | **-** | **(63,557)** | **78,510** | **92,822** | **14,312** |

## 11 Dadansoddiad o wariant cyfalaf, buddsoddiad ariannol ac A-yn-A cysylltiol

| | 2001/02 Gwariant Cyfalaf | 2001/02 Bethyciadau ac ati | 2001/02 A-yn-A | 2001/02 Cyfanswm Net | 2000/01 Gwariant | 2000/01 Benthyciadau ac ati | 2000/01 A-yn-A | 2000/01 Cyfanswm Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am Adnoddau 1 | 1,517 | - | (72) | 1,455 | 6,537 | - | - | 6,537 |
| **Cyfanswm** | **1,517** | **-** | **(72)** | **1,455** | **6,537** | **-** | **-** | **6,537** |

## 12 Asedau Sefydlog anghyffyrddadwy

| | Trwyddedau Meddalwedd £000s |
|---|---|
| **Cost neu brisiad:** | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 349 |
| Ychwanegiadau | 160 |
| Adbrisiad a gosod mynegai | (13) |
| Diffyg | (12) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **484** |
| **Dibrisiant:** | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 120 |
| A godwyd yn y flwyddyn | 64 |
| Adbrisiad a gosod mynegai | (18) |
| Diffyg | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **166** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2001** | **318** |
| **Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy** | **229** |



## 13 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy

| | Gosodiadau a Ffitiadau £000oedd | Offer Swyddfa £000oedd | Offer Cyfrifiadurol a Meddalwedd £000oedd | Cerbydau Modur £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 5,478 | 179 | 1,636 | 594 | 7,887 |
| Ychwanegiadau | 777 | 93 | 346 | 141 | 1,357 |
| Adbrisiad a gosod mynegai | (33) | 3 | 1 | 1 | (28) |
| Diffyg | 62 | 2 | (123) | 1 | (58) |
| Gwaredion | - | - | (329) | (280) | (609) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **6,284** | **277** | **1,531** | **457** | **8,549** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 153 | 69 | 812 | 277 | 1,311 |
| A godwyd yn y flwyddyn | 857 | 55 | 379 | 135 | 1,426 |
| Adbrisiad a gosod mynegai | 5 | 4 | (98) | 2 | (87) |
| Diffyg | - | - | - | - | - |
| Gwaredion | - | - | (329) | (209) | (538) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **1,015** | **128** | **764** | **205** | **2,112** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **5,269** | **149** | **767** | **252** | **6,437** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2001** | **5,325** | **110** | **824** | **317** | **6,576** |

Y gwahaniaeth sy'n codi rhwng pryniant asedau sefydlog ac ychwanegiadau yw credydwyr cyfalaf a chroniadau.

## 14 Symudiadau mewn cyfalaf gweithiol heblaw am arian parod

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 (wedi ei newid) £000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr | (1,769) | 2,109 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (8,984) | (6,042) |
| | (10,753) | (3,933) |

# 15 Dyledwyr

| | 31 Mawrth 2002 £000oedd | 31 Mawrth, 2001 (wedi ei newid) £000oedd |
|---|---|---|
| **Cyfansymiau yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | 6,851 | 10,380 |
| Yn ddyledus gan adrannau eraill o'r llywodraeth | 1,485 | 1,314 |
| TAW adferadwy | 2,439 | 2,027 |
| Dyledwyr eraill | 1,378 | 446 |
| Blaendaliadau ac incwm cronedig | 387 | 143 |
| | **12,540** | **14,310** |
| **Cyfansymiau yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Dyledwyr eraill | 22 | 20 |
| **Cyfanswm Dyledwyr** | **12,562** | **14,330** |

# 16 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2001/02 £000oedd | 2000/01 £000oedd |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 7,155 | 3,165 |
| Mewn-lif/(all-lif) arian parod net: | | |
| Adran Graidd | 501 | 3,990 |
| **Balans fel yr oedd ar 31 Mawrth** | **7,656** | **7,155** |
| **Mae'r balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn:** | | |
| Swyddfa Tâl-Feistr Cyffredinol EM | 7,376 | 6,596 |
| Cyfrifon banc masnachol | 280 | 559 |
| | **7,656** | **7,155** |

**Mae'r balans ar 31 Mawrth yn cynnwys**

Arian parod sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol:

| | | |
|---|---|---|
| **Symiau a gafwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi, ond na wariwyd ar ddiwedd y flwyddyn** | **7,656** | **7,155** |

# 17 Credydwyr

| | 31 Mawrth 2002 £000oedd | 31 Mawrth 2001 (wedi ei newid) £000oedd |
|---|---|---|
| **Cyfansymiau yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Credydwyr Masnach | 6,149 | 5,396 |
| Credydwyr Eraill | 550 | 717 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 11,505 | 6,799 |
| Cyfansymiau a gafwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwi ond na wariwyd ar ddiwedd y flwyddyn | 7,656 | 7,104 |
| | **25,860** | **20,016** |
| **Cyfansymiau yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau tymor hir | 3,663 | - |
| | **29,523** | **20,016** |

# 18 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Darpariaeth Ymddeol yn Gynnar £000oedd | Darpariaeth Clwy Traed a'r Genau £000oedd | Pensiwn £000oedd | Ceisiadau Cyfreithiol £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2001 | 517 | 178 | 212 | 36 | 943 |
| A gododd yn ystod y flwyddyn | 154 | 48 | - | 79 | 281 |
| A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (111) | (178) | (212) | - | (501) |
| Cronfeydd wrth gefn nas defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (162) | - | - | - | (162) |
| **Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2002** | **398** | **48** | **-** | **115** | **561** |

**Costau ymddeol yn gynnar a phensiwn**

Mae darpariaethau ymddeol yn gynnar a darpariaethau pensiwn yn cyfeirio at rwymedigaethau i staff sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r ASB yn cwrdd â chostau buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn cysylltiad â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau angenrheidiol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng yr ymddeoliad cynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r ASB yn darparu'n llawn ar gyfer y gost hon pan fo'r adran wedi ymrwymo i'r rhaglen ymddeol yn gynnar drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer amangyfrif o'r taliadau dan ddisgownt drwy raddfa disgownt y Trysorlys o 6% mewn termau go iawn. Yn y blynyddoedd a fu, talodd yr ASB ymlaen llaw am rai o'i rhwymedigaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar drwy wneud taliadau i Gyfrif y Talfeistr Cyffredinol ym Manc Lloegr ar gyfer credyd Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ('Superannuation'). Ymdrinir â'r balans sydd ar ôl fel blaendaliad

**Darpariaeth Clwy'r Traed a'r Genau**

Mae Darpariaeth Clwy'r Traed a'r Genau yn cyfeiirio at y potensial am geisiadau gan filfeddygon swyddogol dan gytundeb i fod ar gael yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2002.

**Ceisiadau Cyfreithiol**

Mae'r ddarpariaeth sydd ar ôl yn ymwneud â dau gais am iawndal a wnaed yn erbyn y cyn Weinidogaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF) y mae'r ASB nawr wedi cymryd cyfrifoldeb drosto. Mae'r ddarpariaeth yn adlewyrchu yr holl geisiadau y gwyddir amdanynt lle mae cyngor cyfreithiol wedi ei gael. Mae ceisiadau cyfreithiol sy'n gallu bod yn llwyddiannus ond yn llai tebygol o hynny neu na ellir cael amcangyfrif dibynadwy yn cael eu datgelu fel rhwymedigaethau amodol yn nodyn 25.

# 19 Cysoni'r costau gweithredol net i newidiadau yn y gronfa gyffredinol

| | 2001/02 | | 2000/01 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn (Atodlen 2) | (106,800) | | (78,510) | |
| Incwm nad yw wedi ei roi mewn cymorth i'r Gronfa Gyfunol | - | | - | |
| | | (106,800) | | (78,510) |
| | | | | |
| Cyllido Seneddol Net | | 103,695 | | 83,442 |
| Wedi ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol elfen gwir o'r adbrisiad wrth gefn (Nodyn 20) | | - | | - |
| Credydwr y Gronfa Gyfunol ar gyfer arian parod na wariwyd | | (7,656) | | (7,104) |
| **Taliadau heb fod yn arian parod:** | | | | |
| Cost cyfalaf | 150 | | 557 | |
| Ymddeol yn Gynnar | - | | 7 | |
| Rhent a Gwasanaethau Rheoli | 10 | | 39 | |
| Ffioedd yr Archwilwyr | 140 | | 150 | |
| | | 300 | | 753 |
| | | | | |
| Addasiadau'r flwyddyn flaenorol | | (22) | | - |
| | | | | |
| **Gostyngiad net yn y gronfa gyffredinol** | | **(10,483)** | | **(1,419)** |
| | | | | |
| Cronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill | | 7,310 | | 8,729 |
| | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2002** | | **(3,173)** | | **7,310** |

Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli yr asedau net a fuddsoddwyd yn yr ASB ar 1 Ebrilll 2000 (a nodwyd ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ar y dyddiad hwnnw), y gwarged neu'r diffyg a gynhyrchwyd o daliadau tybiannol a gweithgareddau masnachu,
a'r penderfyniad cyllido sy'n codi ers y dyddiad hwnnw.

# 20 Arian wrth gefn

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Balans ar 1 Ebrill 2001 | 21 | 16 |
| A godwyd ar adbrisiad yn ystod y flwyddyn (net) | 41 | 5 |
| A drosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol o ran elfen wedi ei gwireddu o'r adbrisiad wrth gefn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2002** | **62** | **21** |

Mae'r Adbrisiad Wrth Gefn yn adlewyrchu elfen heb ei gwireddu o falans cynyddol. Mae'r Adbrisiad Wrth Gefn yn adlewyrchu elfen heb ei gwireddu o falans cynyddol addasiadau mynegeio ac adbrisiad.

# 21 Nodiadau ar atodlen 5

Mae cyfalaf yr ASB ar gyfer gweinyddu yn unig. Nid yw ei ddosbarthiad ymysg yr amcanion felly yn hollol wahanol o gyfran o'r gost weinyddu gros sy'n gysylltiedig.

Mae costau'r Rhaglen a gwariant cyfredol arall wedi ei ddyrannu fel a ganlyn:

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Amcan 1 | 5,576 | 5,811 |
| Amcan 2 | 8,923 | 10,255 |
| Amcan 3 | 22,677 | 18,118 |
| | **37,176** | **34,184** |

# 22 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2001/02 | 2000/01 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Wedi contractio | 32 | 1,076 |

Ar ddiwedd Mawrth 2002 roedd gan y GHC ymrwymiadau o eitemau cyfalaf gwerth £32,000.

# 23 Ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesau gweithredol

| | 2001/02 | | 2000/01 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Prydlesau gweithredol sy'n dod i ben: | | | | |
| O fewn blwyddyn | - | - | - | - |
| Rhwng un a phum mlynedd | - | 126 | - | 120 |
| Ar ôl pum mlynedd | 4,323 | 84 | 4,089 | 82 |
| | **4,323** | **210** | **4,089** | **202** |

## 24 Ymrwymiadau eraill

Mae'r ASB wedi dechrau ar gontractau y gellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesau gweithredu) ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygiad amrywiol gwerth £44,976,433.00 fel yr oedd ar 31 Mawrth 2002.

Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i fyny at y flwyddyn 2006.

## 25 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae gweithwyr offer a gweithwyr y GHC wedi gwneud nifer o geisiadau bychain am anafiadau a gafwyd yn y gweithle neu am ddiswyddiadau annheg. Bydd yr achosion hyn yn cael eu hamddiffyn a hyd yma nid yw'r canlyniad yn hysbys ond gallai gostio tua £118,000. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer eleni. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

## 26 Trafodion personau cysylltiedig

Datgelodd yr aelodau canlynol o'r Bwrdd drafodion gyda phersonau cysylltiedig:

Datgelodd Karol Bailey fod aelodau o'i theulu yn rhedeg busnes lladd-dy ar gyfer dofednod sy'n derbyn gwasanaethau gan y GHC.

Datgelodd Michael Walker fod practis y mae'n bartner ynddo wedi derbyn ffioedd o tua £720 gan yr ASB am ymchwil dadansoddol.

Mae'r ASB wedi cael nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill.

## 27 Offer ariannol

Nid oes gan yr ASB unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu yn bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion arian parod, ac felly nid yw mewn perygl o ymddatod. Yn ogystal, nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau sylweddol mewn sterling.



## direction

### Cyfarwyddyd Cyfrifo a Roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag Adran 5(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi ei chyfrifon adnoddau ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 i gydymffurfio â'r egwyddorion cyfrifo a gofynion dadlennu o rifyn y Canllaw Cyfrifo Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ("y Canllaw Cyfrifo Adnoddau") sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

Caiff y cyfrifon eu paratoi er mwyn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2002 ac o'r cynnyrch adnoddau net, yr adnoddau sy'n berthnasol i amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yr adeg hynny.

Bydd cydymffurfio gyda gofynion y Canllaw Cyfrifo Adnoddau, heblaw am achosion eithriadol, yn angenrheidiol fel bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg. Os, yn yr achosion eithriadol yma, nad yw cydymffurfio â gofynion y Canllaw Cyfrifo Adnoddau yn gyson gyda'r gofynion i roi darlun gwir a theg, dylid cadw oddi wrth ofynion y Canllaw dim ond i'r graddau angenrheidiol i roi darlun gwir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid defnyddio barn ddiduedd yn seiliedig ar wybodaeth i lunio triniaeth addas wahanol a ddylai fod yn gyson gyda nodweddion economaidd y sefyllfaoedd dan sylw ac ysbryd y Canllaw Cyfrifo Adnoddau. Dylid trafod unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran y Canllaw Cyfrifo Adnoddau gyda'r Trysorlys yn y lle cyntaf.

David Loweth

Pennaeth y Tim Cyfrifyddiaeth Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi

31 Ionawr 2002

© Hawlfraint y Goron 2003
Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
Chwefror 2003

FSA/0819/0203